## Addysgu o 2015

# TAG UG HANES

# UNED 2

## DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL

© WJEC CBAC Ltd.

# Cynnwys

**Papurau Cwestiwn a Chynlluniau Marcio**

ARGYFWNG CANOL OES Y TUDURIAID YNG NGHYMRU A LLOEGR, tua 1529–1570
**RHAN 1: PROBLEMAU, BYGYTHIADAU A SIALENSIAU, tua 1529–1554**

BRENHINIAETH, GWRTHRYFEL A GWERINIAETH, tua 1625–1660
**RHAN 2: Y PWYSAU AR Y FRENHINIAETH A'R SYMUDIAD I GYFEIRIAD RHYFEL CARTREF, tua 1625–1642**

DIWYGIAD A PHROTEST YNG NGHYMRU A LLOEGR, tua 1783–1848
**RHAN 3: RADICALIAETH A'R YMGYRCH O BLAID DIWYGIO'R SENEDD, tua 1783–1832**

GWLEIDYDDIAETH A CHYMDEITHAS YNG NGHYMRU A LLOEGR, tua 1900–1939
**RHAN 4: GWLEIDYDDIAETH, CYMDEITHAS A'R RHYFEL: CYMRU A LLOEGR, tua 1900–1918**

Y DIWYGIAD CREFYDDOL YN EWROP, tua 1500-1564
**RHAN 5: DECHREUAD A LLEDAENIAD Y DIWYGIAD PROTESTANNAIDD YN YR ALMAEN, tua 1500–1531**

FFRAINC YNG NGHYFNOD Y CHWYLDRO tua 1774–1815
**RHAN 6: FFRAINC: ACHOSION A HYNT Y CHWYLDRO, tua 1774–1792**

ARGYFWNG Y WERINIAETH AMERICANAIDD, tua 1840–1877
**RHAN 7: GWAHANIAETHAU ADRANNOL A'R LLWYBR I RYFEL CARTREF, tua 1840–1861**

YR ALMAEN: DEMOCRATIAETH AC UNBENNAETH, tua 1918–1945
**RHAN 8: WEIMAR A'I SIALENSIAU, tua 1918–1933**

**GRID CRYNODEB O'R ASESIAD**

© WJEC CBAC Ltd.

**HANES UG**

**UNED 2**

## CYFLWYNIAD I'R DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL

- Mae Uned 2 yn cynnig wyth astudiaeth fanwl dewisol. **Bydd canolfannau yn dewis un o'r rhain i'w hastudio. Dyma ran gyntaf o'r astudiaeth fanwl sydd i'w chwblhau yn Uned 4.**
- Mae Uned 2 yn asesu AA2 ac AA3.
- Mae pob opsiwn yn Uned 2 yn defnyddio'r un dull marcio sy'n sicrhau cysondeb o ran yr asesiad. Mae'r dull marcio yn cynnwys:
    - adran yn amlinellu awgrymiadau ar gyfer cynnwys y gellir ei weld mewn ateb
    - grid asesu yn amlinellu'r ffordd y dylid dyrannu bandiau a marciau.

© WJEC CBAC Ltd.

**HANES UG**

**UNED 2**

**ASTUDIAETH FANWL 1**

**ARGYFWNG CANOL OES Y TUDURIAID YNG NGHYMRU A LLOEGR, tua 1529–1570**

**RHAN 1: PROBLEMAU, BYGYTHIADAU A SIALENSIAU, tua 1529–1554**

**PAPUR ENGHREIFFTIOL**

**1 awr 45 munud**

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch y **ddau** gwestiwn ar y papur.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.

Dylech dreulio tua 50 munud ar bob cwestiwn.

Mae'n bosibl fod y ffynonellau a'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

© WJEC CBAC Ltd.

**UNED 2**

**ASTUDIAETH FANWL 1**

**ARGYFWNG CANOL OES Y TUDURIAID YNG NGHYMRU A LLOEGR, tua 1529–1570**

**RHAN 1: PROBLEMAU, BYGYTHIADAU A SIALENSIAU, tua 1529–1554**

Atebwch y **ddau** gwestiwn ar y papur.

**CWESTIWN 1**

Astudiwch y ffynonellau isod ac atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.

**Ffynhonnell A**

Byddwch cystal â hysbysu Ei Fawrhydi na fu Cymru a siroedd y gororau yn Lloegr mewn gwell trefn erioed. Mae cyfiawnder wedi'i gofleidio ledled Cymru ymhob rhyw fodd, yn union fel yn Lloegr ac eithrio yn rhyw dair neu bedair cornel fach, does dim sôn am frad bellach. Ers y Nadolig diwethaf chlywais i ddim sôn am ladrata, terfysgoedd, llofruddiaethau na dynladdiadau. Gallaf eich sicrhau bod Cymru mor drefnus a thawel â'r hyn sydd i'w gael yn siroedd gorau Lloegr. Mae'r Cymry wedi'u heddychu *(pacified)* ac maen nhw'n annhebygol o droi unwaith eto at y cyflwr hwnnw o anghyfraith ac anhrefn roedden nhw mor gaeth iddo ar un adeg.

[Yr Esgob Rowland Lee, Arglwydd Lywydd Cymru, yn ysgrifennu mewn adroddiad at Brif Weinidog y Brenin, Thomas Cromwell (1538)]

**Ffynhonnell B**

Daeth gosgordd Walter Herbert i dir arglwyddiaeth Magwyr yn Ne Cymru ac aethant i mewn i dŷ gŵr cyfoethog, Philip Crome, a gan ddefnyddio grym aethant ati i gipio merch un o'r enw Giles Fawr. Drwy rym a thrais cafodd hi ei rhoi ar gefn ceffyl a'i chlymu'n dynn â thywel i un o aelodau'r osgordd. Roedd hi'n gweiddi allan yr holl ffordd wrth iddi gael ei chludo i sir Forgannwg ac yno cafodd ei chymryd drwy drais gan Walter Herbert.

[Syr William Morgan, Arglwydd y faenor Magwyr, yn rhoi tystiolaeth yn erbyn Walter Herbert yn Llys Siambr y Seren yn Llundain (1538)]

**Ffynhonnell C**

Rydym yn deall bod ffair fawr i'w chynnal yn nhref Llwydlo a thra bydd llawer o ddeiliaid Ei Mawrhydi yn dod yno i brynu a gwerthu, bydd pobl eraill yn dod yno ar berwyl drwg i bigo pocedi a lladrata. Rydym ni, Is-Lywydd a Chyngor Cymru a'r Gororau, yn rhybuddio ac yn galw ar feilïaid y dref i ofalu am eu dyletswyddau a rhwystro unrhyw dorcyfraith. Mae siryf Llwydlo wedi'i orchymyn i gynnig unrhyw gymorth i'r beilïaid yn ôl yr angen.
Byddwn yn cymryd adroddiadau am unrhyw dorcyfraith yn ddifrifol iawn a byddwn yn disgwyl i'r ustusiaid weinyddu unrhyw gosb a fydd yn rhwystro unrhyw ddrygioni mewn ffeiriau a chynulliadau tebyg yn y dyfodol.

[Gorchymyn swyddogol oddi wrth Gyngor Cymru a'r Gororau at feilïaid tref Llwydlo (1549)]

Gan gyfeirio at y ffynonellau a defnyddio'r hyn rydych yn ei ddeall am y cyd-destun hanesyddol, aseswch werth y tair ffynhonnell hyn i hanesydd sy'n astudio maint yr anghyfraith yng Nghymru yn yr 1530au a'r 1540au. [30]

© WJEC CBAC Ltd.

**CWESTIWN 2**

Astudiwch y darnau isod ac atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.

**Dehongliad 1**

> Mae awgrymu mai trachwant yn unig a wnaeth i Harri gau'r mynachlogydd yn rhy syml. Bu Harri ar un adeg yn gefnogwr brwd i'r traddodiad mynachaidd ac roedd ef ei hun wedi bod ar bererindod i Abaty Hailes. Er hynny, cafodd ei argyhoeddi gan y dystiolaeth am y celwydd a'r llygredd a ddatgelodd swyddogion Cromwell nad oedd modd diwygio'r mynachlogydd ac mai eu diddymu oedd yr unig ateb posibl. Felly gellir dadlau mai argyhoeddiad crefyddol yn hytrach nag elw ariannol oedd wrth wraidd ei bolisi tuag at y mynachlogydd. Mae'r Ddeddf Gyntaf er Diddymu'r Mynachlogydd Llai yn 1536 yn dangos ei fod wedi ystyried diwygio ond cafodd hynny ei roi heibio yn wyneb 'llyfr tystiolaeth' perswadiol Cromwell. Cafodd yr enillion ariannol eu croesawu gan y Goron ond sgil gynnyrch yn unig oeddynt i sêl *(zeal)* grefyddol Harri.

[Geoffrey Baskerville, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes crefyddol oes y Tuduriaid, yn ysgrifennu yn ei werslyfr arbenigol, *English Monks and the Suppression of the Monasteries* (1937)]

**Dehongliad 2**

> Y newid mwyaf dramatig heb amheuaeth yn Niwygiad Harri VIII oedd diddymu'r mynachlogydd, menter lle cafodd diwygio'r eglwys ei ddefnyddio i guddio trachwant amlwg. Dan gochl cymhelliad crefyddol, roedd y diddymu yn ddyfais syml i gynyddu'r cyllid brenhinol.
> Prif symbylydd y fenter hon oedd gwas ffyddlon y Brenin, Thomas Cromwell. Os oedd y Brenin yn ymgodymu â'i gydwybod ynglŷn â mater diddymu'r mynachlogydd, ni fyddai Cromwell yn gwneud hynny. Roedd prif ymgynghorydd y Brenin wedi cofleidio'r ddiwinyddiaeth Brotestannaidd a ddaeth o'r cyfandir ac iddo ef doedd gan y fynachlog ddim rhan allweddol bellach mewn bywyd crefyddol. Roedd Cromwell yn wir yn credu bod y fynachlog wedi mynd yn elfen anacronig ym myd newydd dewr y diwygiad crefyddol. Yn bwysicach na hynny hyd yn oed, gallai ail-lenwi coffrau gwag y Brenin.

[Richard Rex, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes oes y Tuduriaid, yn ysgrifennu yn ei werslyfr arbenigol, *Henry VIII and the English Reformation* (1993)]

Mae haneswyr wedi llunio dehongliadau gwahanol o'r cymhellion dros ddiddymu'r mynachlogydd. Dadansoddwch, gwerthuswch a defnyddiwch y ddau ddarn uchod, a defnyddio'r hyn rydych chi'n ei ddeall am y ddadl hanesyddol, i ateb y cwestiwn canlynol:

Pa mor ddilys yw'r safbwynt mai'r prif reswm dros ddiddymu'r mynachlogydd oedd awydd y brenin am gyfoeth? [30]

© WJEC CBAC Ltd.

**UNED 2**

**ASTUDIAETH FANWL 1**

**ARGYFWNG CANOL OES Y TUDURIAID YNG NGHYMRU A LLOEGR, tua 1534–1570**

**RHAN 1: PROBLEMAU, BYGYTHIADAU A SIALENSIAU, tua 1529–1554**

**CYNLLUN MARCIO**

**Canllaw marcio i arholwyr ar gyfer Cwestiwn 1**

**Crynodeb o'r amcanion asesu ar gyfer Cwestiwn 1**

Mae Cwestiwn 1 yn asesu amcan asesu 2. Elfen unigol yw'r amcan asesu hwn sy'n canolbwyntio ar y gallu i ddadansoddi a gwerthuso deunydd ffynhonnell cyfoes yn ei gyd-destun hanesyddol. Y marc a ddyfernir i Gwestiwn 1 yw 30.

**Strwythur y cynllun marcio**

Mae dwy ran i'r cynllun marcio ar gyfer Cwestiwn 1:

- cyngor ar y cwestiwn penodol yn amlinellu awgrymiadau ar gyfer cynnwys y gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd yr ymateb penodol. Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd sydd ynddo. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth dderbyniol bellach a gynigir gan ymgeiswyr.

- grid asesu sy'n rhoi cyngor ar ba fandiau a marciau y dylid eu rhoi i ymatebion sy'n dangos y nodweddion angenrheidiol ar gyfer amcan asesu 2.

**Penderfynu ar y marc i'w ddyfarnu o fewn band**

Y cam cyntaf i arholwr yw penderfynu ar y band cyffredinol. Yr ail gam yw penderfynu pa mor gadarn mae'r nodweddion a ddisgwylir ar y band hwnnw yn cael eu cyfleu. Yna, yn drydydd, gellir rhoi'r marc terfynol ar gyfer y cwestiwn.

© WJEC CBAC Ltd.

**AWGRYMIADAU AR GYFER CYNNWYS CWESTIWN 1**

*NODER: Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd a welir isod. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth berthnasol bellach a gynigir gan ymgeiswyr. Dylid asesu pob ateb yn ôl ei haeddiant, yn unol â'r grid asesu yn ogystal â'r awgrymiadau ar gyfer cynnwys.*

**Gan gyfeirio at y ffynonellau a defnyddio'r hyn rydych yn ei ddeall am y cyd-destun hanesyddol, aseswch werth y tair ffynhonnell hyn i hanesydd sy'n astudio maint yr anghyfraith yng Nghymru yn yr 1530au a'r 1540au.**

Disgwylir i ymgeiswyr arddangos eu gallu i ddadansoddi a gwerthuso amrediad o ddeunydd ffynhonnell gyda mesur helaeth o ddidoli. Dylai'r sgiliau gwerthuso ffynonellau ganolbwyntio ar drafod cryfderau a chyfyngiadau'r ffynonellau a nodir. Ar gyfer barnu eu defnyddioldeb, dylid ystyried cynnwys ac awduraeth y ffynonellau a nodir er mwyn trafod eu dibynadwyedd, gogwydd, pwrpas a dilysrwydd, fel bo'n briodol.

Bydd ymgeiswyr yn ystyried gwerth y ffynonellau i hanesydd sy'n astudio maint yr anghyfraith yng Nghymru yn yr 1530au a'r 1540au. Dylai'r ymgeisydd ddefnyddio'r hyn mae'n ei wybod am y cyd-destun hanesyddol i ddadansoddi a gwerthuso cryfderau a chyfyngiadau'r ffynonellau. Gellir gwneud sylwadau priodol wrth ddadansoddi a gwerthuso'r ffynonellau yn cynnwys:

- Cafodd Ffynhonnell A ei hysgrifennu gan Rowland Lee, Arglwydd Lywydd Cymru, a gafodd ei benodi gan y llywodraeth Duduraidd i ddod â heddwch i'r rhanbarth a'i baratoi ar gyfer cyfeddiant. Mae Lee yn ymddangos ei fod yn mwynhau gallu cadarnhau llwyddiant ei genhadaeth a gall ymgeiswyr dynnu sylw at ei amcan sef bychanu unrhyw anghyfraith a allai fod yn parhau yng Nghymru. Mae Ffynhonnell A yn sôn am y teimlad bod Cymru yn 1538 yn wlad fwy heddychlon nag y bu rai blynyddoedd ynghynt. Rhoddir sylw i rai troseddau penodol ac mae'n amlwg bod yr awdur yn teimlo nad yw anghyfraith yn fater llosg bellach. Ei longyfarch ei hun wna'r awdur yn y ffynhonnell a gellir ei hystyried fel ymdrech gwleidydd i roi'r olwg orau ar y sefyllfa. Mae'n amlwg nad yw'r honiad fod yr anghyfraith wedi lleihau yn cael ei ategu gan y ddwy ffynhonnell arall yn y casgliad ond mae'r ffynhonnell yn dal yn dystiolaeth werthfawr i hanesydd sy'n astudio maint yr anghyfraith yng Nghymru ar y pryd.
- Mae Ffynhonnell B yn dod o dreial cyfreithiol yn Llys Siambr y Seren. Gan fod y dystiolaeth yn cael ei rhoi ar lw, mae'n debygol o fod yn eithaf dibynadwy. Does dim sôn am ganlyniad y treial, ond mae'n amlwg, er gwaethaf honiad Lee yn Ffynhonnell A ei fod wedi lleihau trosedd, bod enghreifftiau amlwg i'w cael o hyd o ymosodiadau difrifol yn cael eu cyflawni. Mae Ffynhonnell B yn dod o'r un flwyddyn, 1538, ac mae'n darparu tystiolaeth groes am ymosodiad dieflig yn Ne Cymru. Yn yr achos hwn mae'n ymddangos bod anghyfraith yn parhau i fod yn fater llosg iawn yn rhannau o Gymru ac felly mae'r ffynhonnell yn werthfawr iawn o ran darparu tystiolaeth gytbwys wrth astudio anghyfraith yn y cyfnod hwn.
- Tystiolaeth swyddogol yw Ffynhonnell C hefyd wedi'i darparu gan y sefydliad oedd yn gyfrifol am lywodraeth ranbarthol Cymru a'r Gororau. Mae'n dangos bod y tebygrwydd o ddrygioni a thorcyfraith yn dal yn bryder i'r awdurdodau, yn enwedig yn y trefi oedd a hawl i gynnal marchnadoedd a ffeiriau. Roedd hynny fwy na deng mlynedd ar ôl yr honiadau a wnaeth Lee yn Ffynhonnell A ynglŷn ag anghyfraith yng Nghymru ac mae'n tueddu i ategu'r dystiolaeth yn Ffynhonnell B yn fwy. Mae Ffynhonnell C hefyd yn dangos bod yr awdurdodau rhanbarthol yn cymryd y tebygrwydd y byddai torcyfraith yn digwydd yn ddifrifol iawn ac efallai bod awgrym nad oeddynt yn fodlon ar allu swyddogion lleol i weithredu'n briodol.

Yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn asesu gwerth y ffynonellau i hanesydd sy'n astudio maint yr anghyfraith yng Nghymru ar y pryd. Byddant yn gallu dangos y gwerth hwnnw drwy ystyried cynnwys, tarddiad a thôn un o'r ffynonellau a gyflwynwyd, gan gyfeirio'n briodol at y cyd-destun hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r ffynonellau.

© WJEC CBAC Ltd.

**GRID ASESU AR GYFER CWESTIWN 1**

*Targed: AA2* *Marc uchaf: 30*

*Ffocws:* *Dadansoddi a gwerthuso deunydd ffynhonnell priodol, cynradd a/neu cyfoes, o fewn ei gyd-destun hanesyddol*

| Band | Marc | Disgrifydd |
|---|---|---|
| 6 | 26-30 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad cyson a chywir o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *darparu ffocws cyson ar werthuso'r ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn a brofwyd ynghylch gwerth y ffynonellau ar gyfer yr ymholiad penodol* |
| 5 | 21-25 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos ffocws amlwg a chywir ar y dadansoddiad a'r gwerthusiad o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *darparu ffocws clir ar y cyfan ar werthuso'r ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn ddilys ynghylch gwerth y ffynonellau ar gyfer yr ymholiad penodol* |
| 4 | 16-20 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad dilys o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *gosod y ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn glir ynghylch gwerth y ffynonellau ar gyfer yr ymholiad penodol* |
| 3 | 11-15 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos peth dadansoddiad a gwerthusiad priodol o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *gwneud ymgais i osod y ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn gyfyngedig ynghylch gwerth dwy o leiaf o'r ffynonellau* |
| 2 | 6-10 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *deall a thynnu allan wybodaeth o'r ffynonellau gyda pheth cyfeiriad at awduraeth y deunydd a ddarparwyd*<br>• *gwneud ymgais gyfyngedig i osod y ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad*<br>• *cynnig barn gyfyngedig ynghylch gwerth un o leiaf o'r ffynonellau* |
| 1 | 1-5 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *deall a thynnu allan beth o'r deunydd ffynhonnell* |
| **Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol** | | |

© WJEC CBAC Ltd.

## Canllaw marcio i arholwyr ar gyfer Cwestiwn 2

### Crynodeb o'r amcanion asesu ar gyfer Cwestiwn 2

Mae Cwestiwn 2 yn asesu amcan asesu 3. Elfen unigol yw'r amcan asesu hwn sy'n canolbwyntio ar y gallu i ddadansoddi a gwerthuso sut a pham y cafodd dehongliadau hanesyddol gwahanol eu gwneud. Y marc a ddyfernir i Gwestiwn 2 yw 30.

### Strwythur y cynllun marcio

Mae dwy ran i'r cynllun marcio ar gyfer Cwestiwn 2:

- cyngor ar y cwestiwn penodol yn amlinellu awgrymiadau ar gyfer cynnwys y gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd yr ymateb penodol. Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd sydd ynddo. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth dderbyniol bellach a gynigir gan ymgeiswyr.

- grid asesu sy'n rhoi cyngor ar ba fandiau a marciau y dylid eu rhoi i ymatebion sy'n dangos y nodweddion angenrheidiol ar gyfer amcan asesu 3.

### Penderfynu ar y marc i'w ddyfarnu o fewn band

Y cam cyntaf i arholwr yw penderfynu ar y band cyffredinol. Yr ail gam yw penderfynu pa mor gadarn mae'r nodweddion a ddisgwylir ar y band hwnnw yn cael eu cyfleu. Yna, yn drydydd, gellir rhoi'r marc terfynol ar gyfer y cwestiwn.

© WJEC CBAC Ltd.

**AWGRYMIADAU AR GYFER CYNNWYS CWESTIWN 2**

*NODER: Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd a welir isod. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth berthnasol bellach a gynigir gan ymgeiswyr. Dylid asesu pob ateb yn ôl ei haeddiant, yn unol â'r grid asesu yn ogystal â'r awgrymiadau ar gyfer cynnwys.*

## Pa mor ddilys yw'r safbwynt mai'r prif reswm dros ddiddymu'r mynachlogydd oedd awydd y brenin am gyfoeth?

Disgwylir i ymgeiswyr arddangos dealltwriaeth o'r ffordd y cafodd agweddau ar y gorffennol eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol. Bydd yr atebion yn ystyried y deunydd a ddarparwyd ynghyd â'r hyn mae'r ymgeisydd yn ei ddeall am y cyd-destun hanesyddol a'r ddadl hanesyddol ehangach wrth lunio barn am ddilysrwydd y safbwynt mai'r prif reswm dros ddiddymu'r mynachlogydd oedd awydd y brenin am gyfoeth.

Gwahoddir ymgeiswyr i gymryd ran mewn dadl ar y safbwynt mai'r prif reswm dros ddiddymu'r mynachlogydd oedd awydd y brenin am gyfoeth. Bydd y dysgwyr yn ystyried dehongliadau o'r mater hwn o fewn y ddadl hanesyddol ehangach ynglŷn â'r rhesymau dros ddiddymu'r mynachlogydd. Gall rhai o'r materion i'w hystyried gynnwys:

- Mae Dehongliad 1 yn dadlau mai argyhoeddiad crefyddol yn hytrach nag elw ariannol oedd wrth wraidd polisi'r brenin tuag at y mynachlogydd. Roedd materion ariannol yn chwarae rhan, ond nid hynny oedd y prif reswm.
- Wrth ddadansoddi a gwerthuso Dehongliad 1 gall yr atebion ddadlau bod hynny'n ddehongliad dilys oherwydd bod yr awdur yn ceisio dangos bod Harri wedi'i ymrwymo i ddiwygio crefydd ac arferion crefyddol. Cafodd y brenin ei argyhoeddi gan y dystiolaeth a gynhyrchwyd gan gomisiynwyr Cromwell a dim ond ar ôl i'r dystiolaeth honno ddod i'r amlwg y rhoddodd ei ganiatâd i'r broses ddiddymu. Mae'r hanesydd Baskerville yn dadlau nad oedd y mynachlogydd yn cyflawni eu hamcan a dyna pam y cawsant eu diddymu. Doedd trachwant a chyllid yn ddim ond sgil gynhyrchion i fwriad gwirioneddol y Brenin sef diwygio'r eglwys yn llwyr a chael gwared ar ei llygredd a'i drwg arferion. Safbwynt eithaf traddodiadol yw hwn ar y cymhelliad dros y diddymu, fel y gwelir o ddyddiad ffynhonnell y dehongliad yn yr 1930au.
- Mae Dehongliad 2 yn dadlau mai'r rheswm gwirioneddol ac amlwg dros y diddymu oedd arian. Trachwant pur a wnaeth i'r Brenin weithredu a hynny wedi'i guddio dan gochl cymhelliad crefyddol.
- Wrth ddadansoddi a gwerthuso Dehongliad 2 mae'n ymddangos bod yr hanesydd wedi'i argyhoeddi bod y Brenin, gyda chefnogaeth werthfawr gan Cromwell (neu efallai dan ei ddylanwad ef), wedi'i ysgogi gan drachwant yn hytrach nag unrhyw ystyriaeth grefyddol. Dyma farn hanesydd adolygiadol sy'n debyg o fod wedi ystyried dehongliadau haneswyr cynharach. Yn unol â'r angen am gydbwysedd, rhoddir sylw i'r cymhelliad crefyddol, ond mae'r hanesydd yn gallu dadlau nad hynny oedd y prif reswm. Byddai awdur y ffynhonnell, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes y Tuduriaid, wedi gallu tynnu yn 2014 ar amrediad o ffynonellau cynradd a gwaith haneswyr fel Baskerville. Mae ef hefyd yn ysgrifennu mewn astudiaeth arbenigol sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar sgism crefyddol y cyfnod.
- Gall ymgeiswyr ddangos ymwybyddiaeth o'r ddadl hanesyddol ehangach ynglŷn â'r mater hwn megis natur yr hanesyddiaeth ynghylch newid crefyddol ar y pryd a'r diddymu yn arbennig. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol yn enwedig o ddehongliadau eraill megis ariangarwch ac uchelgais rhai gwŷr llys a gwleidyddion dylanwadol a rhesymau rhanbarthol a phenodol.

Bydd ymgeiswyr yn gyffredinol yn dadansoddi'r ddau ddehongliad gan ddefnyddio'r hyn maen nhw'n ei ddeall am y ddadl ynglŷn â'r mater hwn, yn cynnig gwerthuso dilysrwydd y dehongliadau a roddwyd a rhoi barn am y mater yn y cwestiwn, sef mai'r prif reswm dros ddiddymu'r mynachlogydd oedd awydd y brenin am gyfoeth.

© WJEC CBAC Ltd.

**GRID ASESU AR GYFER CWESTIWN 2**

*Targed: AA3* *Marc uchaf: 30*

*Ffocws:* *Mewn perthynas â'r cyd-destun hanesyddol, dadansoddi a gwerthuso'r ffyrdd gwahanol y cafodd agweddau ar y gorffennol eu dehongli*

| Band | Marc | Disgrifydd |
|---|---|---|
| **6** | **26-30** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad cyson o'r deunydd a roddwyd ac yn ei ddefnyddio'n effeithiol i drafod sut a pham y cafodd dehongliadau gwahanol eu ffurfio*<br>• *darparu ffocws cyson ar werthuso'r dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *arddangos ymwybyddiaeth glir o ddehongliadau gwahanol o'r mater a osodwyd* |
| **5** | **21-25** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos ffocws clir a chywir yn y dadansoddiad a'r gwerthusiad o'r deunydd a roddwyd i ddangos sut a pham y cafodd dehongliadau gwahanol eu ffurfio*<br>• *darparu ffocws clir ar y cyfan ar werthuso'r dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *dangos sut y cafodd y mater ei ddehongli mewn ffyrdd gwahanol* |
| **4** | **16-20** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad dilys o'r deunydd a roddwyd i nodi dehongliadau gwahanol*<br>• *gosod y ddau ddehongliad yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *dangos ymwybyddiaeth o ddehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **3** | **11-15** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos rhai sylwadau priodol mewn perthynas â'r dadansoddiad a'r gwerthusiad o'r deunydd a roddwyd i nodi dehongliadau gwahanol*<br>• *gwneud ymgais i osod y dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *dangos peth ymwybyddiaeth o ddehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **2** | **6-10** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *deall peth o'r deunydd a roddwyd gan ddangos dadansoddiad cyfyngedig yn unig*<br>• *gwneud ymgais gyfyngedig i osod y dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad*<br>• *dangos peth ymwybyddiaeth o'r dehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **1** | **1-5** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *tynnu gwybodaeth o'r deunydd a roddwyd*<br>• *cynnwys cyfeiriad gwan at ddehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol** | | |

© WJEC CBAC Ltd.

**HANES UG**

**UNED 2**

**ASTUDIAETH FANWL 2**

**BRENHINIAETH, GWRTHRYFEL A GWERINIAETH, tua 1625–1660**

**RHAN 1: Y PWYSAU AR Y FRENHINIAETH A'R SYMUDIAD I GYFEIRIAD RHYFEL CARTREF, tua 1625–1642**

**PAPUR ENGHREIFFTIOL**

**1 awr 45 munud**

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch y **ddau** gwestiwn ar y papur.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.

Dylech dreulio tua 50 munud ar bob cwestiwn.

Mae'n bosibl fod y ffynonellau a'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

© WJEC CBAC Ltd.

**UNED 2**

**ASTUDIAETH FANWL 2**

**BRENHINIAETH, GWRTHRYFEL A GWERINIAETH, tua 1625–1660**

**RHAN 1: Y PWYSAU AR Y FRENHINIAETH A'R SYMUDIAD I GYFEIRIAD RHYFEL CARTREF, tua 1625–1642**

Atebwch y **ddau** gwestiwn ar y papur.

**CWESTIWN 1**

Astudiwch y ffynonellau isod ac atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.

**Ffynhonnell A**



[Darlun o'r cyfnod yn ymosod ar yr Archesgob Laud drwy awgrymu ei fod ar fin bwyta clustiau William Prynne. Roedd Prynne wedi'i gael yn euog yn Siambr y Seren am enllib a chynnwrf yn erbyn polisi crefyddol y Brenin, a chafodd ei gosbi drwy ddirwy, carchariad a'i anffurfio (1637)]

© WJEC CBAC Ltd.

**Ffynhonnell B**

> Ar ddydd Sul 23ain Gorffennaf 1637, roedd y llyfr gwasanaeth yn dechrau cael ei ddarllen yn Eglwys St Giles, Caeredin, ac yno'n bresennol roedd llawer o aelodau o Gyngor y Brenin a chynulliad mawr o bobl eraill o bob math. Doedd dim arwydd o drwbl, ond cyn gynted ag yr agorwyd y llyfr gan y Deon, dyna nifer o'r rhai mwy dinod, y rhan fwyaf ohonynt yn fenywod, yn codi'r fath sŵn barbaraidd drwy guro dwylo fel na allai neb glywed na chael gwrandawiad. Yna camodd Esgob Caeredin i'r pulpud gyda'r bwriad o dawelu'r cyhoedd drwy eu hatgoffa bod y safle yn dir sanctaidd ond cafodd ei drin gyda chymaint o ddiffyg parch â'r Deon a gyda mwy o drais. Pe bai stôl a gafodd ei hanelu ato heb gael ei dargyfeirio, drwy ragluniaeth Duw a thrwy law un oedd yno'n bresennol, byddai bywyd y parchedig Esgob wedi'i beryglu, os nad ei golli.

[Walter Balcanquall, Deon Cadeirlan Durham a Chomisiynydd y Brenin yn yr Alban, yn ysgrifennu mewn adroddiad swyddogol i'r Brenin dan y teitl, *A large declaration concerning the late tumults in Scotland* (1639)]

**Ffynhonnell C**

> Rwy'n erfyn arnoch foneddigion, peidiwch â gadael i ni gael ein harwain gan angerdd i wneud y camsyniadau sy'n perthyn i'r werin gyffredin. Rydym i gyd yn cytuno bod mawr angen am Ddiwygio'r Eglwys ond heb i ni daro yn erbyn ei gwraidd na cheisio sicrhau ei newid yn llwyr. Rwy'n ofni yn lle bob Esgob y byddwn yn ei ddiraddio mewn esgobaeth y byddwn yn dyrchafu Pab ym mhob plwyf. Bydd gormod o newid a hynny'n rhy fuan yn codi ofn yng nghalonnau'r bobl a gall hynny wneud iddynt deimlo rheidrwydd i wrthryfela a phrotestio. Gadewch i ni roi heibio unrhyw syniadau am gael gwared ar esgobion ond i'w gostwng i'w safle briodol a sicrhau eu bod yn cael eu cynghori gan gynulliadau o'u clerigwyr.

[Yr Arglwydd George Digby, un o feirniaid cymedrol Laud a pholisi'r brenin, mewn araith a roddodd yn y Senedd yn ystod y ddadl ar y Ddeiseb Wreiddyn a Changen (1641)]

Gan gyfeirio at y ffynonellau a defnyddio'r hyn rydych yn ei ddeall am gyd-destun hanesyddol, aseswch werth y tair ffynhonnell hyn i hanesydd sy'n astudio arwyddocâd crefydd fel un o achosion y Rhyfel Cartref. [30]

© WJEC CBAC Ltd.

**CWESTIWN 2**

Astudiwch y darnau isod ac atebwch y cwestiwn sy’n dilyn.

**Dehongliad 1**

Ym mis Ionawr 1642, ceisiodd Siarl uchelgyhuddo chwech o’i brif wrthwynebwyr am uchel frad – Pym, Hampden, Haselrig, Holles a Strode o Dŷ’r Cyffredin a Mandeville o Dŷ’r Arglwyddi. Gan iddo fethu â sicrhau cydweithrediad y ddau Dŷ ar gyfer eu harestio a’u carcharu, aeth y Brenin, ynghyd â 300 o filwyr arfog, i mewn i Dŷ’r Cyffredin ei hun i arestio’r Pum Aelod. Er mawr siom i’r Seneddwyr oedd yno’n bresennol yn eistedd yn dawel ar y meinciau, gwthiodd y Brenin ei ffordd i mewn drwy rym gan fwrw golwg o gwmpas y siambr. Ar ôl y sioc gyntaf pan ddaeth y Brenin i mewn i’r siambr ddadlau, cafodd rhai o’r ASau eu gwynt atynt a dechrau mynegi â llais uchel eu hanghymeradwyaeth *(disapproval)* o weithred ormesol y Brenin. Ar ôl iddo weld bod ‘yr adar wedi hedfan’ penderfynodd yn y fan a’r lle i ddinistrio’r Senedd unwaith ac am byth.

[John Wroughton, hanesydd modern ac arbenigwr ar hanes Lloegr yn yr 17eg ganrif, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr cyffredinol, *The Stuart Age 1603–1714* (1997)]

**Dehongliad 2**

Ac yntau’n wynebu’r tebygrwydd y byddai’r bobl yn gwrthryfela, teimlai’r Brenin nad oedd dewis ganddo ond cynnig i ildio Strafford yng ngwanwyn 1641 fel aberth i gadw’r heddwch a sicrhau’r Goron. Roedd yn dal eisiau osgoi gwrthdaro â’i wrthwynebwyr yn y Senedd. Fel y bu pethau, methiant oedd ei ymdrech i ddangos parodrwydd i gydweithredu. A chymryd ymddygiad ymosodol y Brenin cyn iddo ildio Strafford, mae’n debygol nad oedd y weithred aberthol hon yn ddim mwy nag ‘arwydd gwag’ *(gesture)*. Canlyniad y bennod hon oedd tanseilio’r Goron ymhellach gan fod yr ymgynghorwyr brenhinol oedd ar ôl yn rhoi ychydig llai o ymddiriedaeth yn Siarl tra bod ei elynion yn y Senedd yn ei gasáu ychydig yn fwy. Roedd y diffyg ymddiriedaeth rhwng y ddwy ochr gymaint nes bod gwrthdaro arfog bron yn anochel. Roedd y ddwy ochr yn aros yn amyneddgar am y gwreichionyn a fyddai’n cynnau’r rhyfel arfaethedig.

[M. F. Keeler, hanesydd modern ac arbenigwr ar hanes gwleidyddol yr 17eg ganrif, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr arbenigol, *The Long Parliament,1640–1641* (1954)]

Mae haneswyr wedi llunio dehongliadau gwahanol o'r berthynas rhwng y Brenin a'r Senedd hyd at 1642. Dadansoddwch, gwerthuswch a defnyddiwch y ddau ddarn uchod, a defnyddio'r hyn rydych chi'n ei ddeall am y ddadl hanesyddol, i ateb y cwestiwn canlynol:

Pa mor ddilys yw’r safbwynt bod y Brenin yn barod i gydweithredu â’r Senedd hyd at 1642? [30]

© WJEC CBAC Ltd.

**UNED 2**

**ASTUDIAETH FANWL 2**

**RHAN 1: Y PWYSAU AR Y FRENHINIAETH A'R SYMUDIAD I GYFEIRIAD RHYFEL CARTREF, tua 1625–1642**

**CYNLLUN MARCIO**

**Canllaw marcio i arholwyr ar gyfer Cwestiwn 1**

### Crynodeb o'r amcanion asesu ar gyfer Cwestiwn 1

Mae Cwestiwn 1 yn asesu amcan asesu 2. Elfen unigol yw'r amcan asesu hwn sy'n canolbwyntio ar y gallu i ddadansoddi a gwerthuso deunydd ffynhonnell cyfoes yn ei gyd-destun hanesyddol. Y marc a ddyfernir i Gwestiwn 1 yw 30.

### Strwythur y cynllun marcio

Mae dwy ran i'r cynllun marcio ar gyfer Cwestiwn 1:

- cyngor ar y cwestiwn penodol yn amlinellu awgrymiadau ar gyfer cynnwys y gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd yr ymateb penodol. Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd sydd ynddo. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth dderbyniol bellach a gynigir gan ymgeiswyr.

- grid asesu sy'n rhoi cyngor ar ba fandiau a marciau y dylid eu rhoi i ymatebion sy'n dangos y nodweddion angenrheidiol ar gyfer amcan asesu 2.

### Penderfynu ar y marc i'w ddyfarnu o fewn band

Y cam cyntaf i arholwr yw penderfynu ar y band cyffredinol. Yr ail gam yw penderfynu pa mor gadarn mae'r nodweddion a ddisgwylir ar y band hwnnw yn cael eu cyfleu. Yna, yn drydydd, gellir rhoi'r marc terfynol ar gyfer y cwestiwn.

© WJEC CBAC Ltd.

**AWGRYMIADAU AR GYFER CYNNWYS CWESTIWN 1**

*NODER: Nid yw’r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o’r deunydd a welir isod. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth berthnasol bellach a gynigir gan ymgeiswyr. Dylid asesu pob ateb yn ôl ei haeddiant, yn unol â’r grid asesu yn ogystal â’r awgrymiadau ar gyfer cynnwys.*

**Gan gyfeirio at y ffynonellau a defnyddio'r hyn rydych yn ei ddeall am y cyd-destun hanesyddol, aseswch werth y tair ffynhonnell hyn i hanesydd sy’n astudio arwyddocâd crefydd fel un o achosion y Rhyfel Cartref.**

Disgwylir i ymgeiswyr arddangos eu gallu i ddadansoddi a gwerthuso amrediad o ddeunydd ffynhonnell gyda mesur helaeth o ddidoli. Dylai’r sgiliau gwerthuso ffynonellau ganolbwyntio ar drafod cryfderau a chyfyngiadau’r ffynonellau a nodir. Ar gyfer barnu eu defnyddioldeb, dylid ystyried cynnwys ac awduraeth y ffynonellau a nodir er mwyn trafod eu dibynadwyedd, gogwydd, pwrpas a dilysrwydd, fel bo’n briodol.

Bydd ymgeiswyr yn ystyried gwerth y ffynonellau i hanesydd sy’n astudio arwyddocâd crefydd fel un o achosion y Rhyfel Cartref. Dylai'r ymgeisydd ddefnyddio'r hyn mae'n ei wybod am y cyd-destun hanesyddol i ddadansoddi a gwerthuso cryfderau a chyfyngiadau’r ffynonellau. Gellir gwneud sylwadau priodol wrth ddadansoddi a gwerthuso’r ffynonellau yn cynnwys:

- Mae peth defnydd i Ffynhonnell A o ran ystyried arwyddocâd crefydd fel un o achosion y Rhyfel Cartref. Mae’r ffynhonnell hon yn darlunio’r math o gyhoeddiadau dienw oedd yn cylchredeg yn ystod canol a diwedd yr 1630au; cyhoeddiadau oedd yn collfarnu’r cosbau llym a roddwyd i feirniaid fel Prynne. Mae’n debyg y gwelir sylwadau ar natur y gosb a’i chreulondeb gweledig. Mae’r ffynhonnell hon yn awgrymu bod drwgdeimlad cynyddol yn erbyn y driniaeth lem a roddwyd i’r rhai oedd yn meiddio cyhoeddi pamffledi oedd yn beirniadu’r Goron a’i gweinidogion. Mae natur weledol y dystiolaeth yn dangos i hanesydd sy’n astudio’r mater hwn y gellid creu beirniadaeth ddifrifol ar ffurf darlun ac y byddai hynny’n debygol o gyrraedd cynulleidfa ehangach na beirniadaeth ysgrifenedig.
- Mae Ffynhonnell B yn sôn am ymateb treisgar yng Nghaeredin a achoswyd gan adwaith y bobl i gyflwyno llyfr gweddi diwygiedig yn yr Alban gan y Brenin Siarl I yn 1637. Ffynhonnell ddisgrifiadol sydd yma ond mae’n rhoi arwydd clir o gryfder teimladau pobl ynglŷn â’r datblygiad hwn. Awdur y ffynhonnell oedd Walter Balcanquall, Comisiynydd y Brenin yn yr Alban. Roedd ef yn amlwg wedi’i ddychryn yn fawr gan y digwyddiadau mae’n eu disgrifio ac mae’n tynnu sylw amlwg at ymateb treisgar y gynulleidfa. Mae ei dystiolaeth yn dangos i’r hanesydd pa mor bwysig oedd crefydd fel ffynhonnell gwrthdaro ar y pryd a’r ffordd roedd yn codi teimladau cryfion yn yr Alban yn enwedig. Efallai bydd ymgeiswyr yn gallu cysylltu’r digwyddiad hwn â Rhyfeloedd yr Esgobion yn yr Alban a’i ran yn nechreuad y Rhyfel Cartref yn Lloegr.
- Mae Ffynhonnell C yn ymwneud â’r ddeiseb Wreiddyn a Changen yn 1641, a’i chyd-destun oedd ei bod yn fesur i gael gwared ar y system o esgobion yn Lloegr. Rhan ydoedd o gyfres o ddadleuon ynglŷn â chrefydd rhwng y Senedd a’r Brenin. Roedd Ffynhonnell C yn rhan o ddadl yn y Senedd. Mae tystiolaeth Digby yn dangos eto bod crefydd yn faes dadleuol enfawr yn Lloegr gyda’r Senedd yn dymuno lleihau grym yr esgobion. Mae naws cyfraniad Digby serch hynny’n ymddangos yn gymodlon ac mae’n dangos bod y mater crefyddol yn codi sbectrwm eang o ran ymateb. Mae’r ffynhonnell hon yn werthfawr i hanesydd sy’n astudio arwyddocâd crefydd gan ei bod yn arwydd o’r anghydfod parhaol rhwng y Brenin a’r Senedd a fyddai’n achosi i ryfel cartref gychwyn y flwyddyn ganlynol.

Yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn asesu gwerth y ffynonellau i hanesydd sy’n astudio arwyddocâd crefydd fel un o achosion y Rhyfel Cartref. Byddant yn gallu dangos y gwerth hwnnw drwy ystyried cynnwys, tarddiad a thôn un o’r ffynonellau a gyflwynwyd, gan gyfeirio’n briodol at y cyd-destun hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r ffynonellau.

© WJEC CBAC Ltd.

**GRID ASESU AR GYFER CWESTIWN 1**

*Targed: AA2* *Marc uchaf: 30*

*Ffocws:* *Dadansoddi a gwerthuso deunydd ffynhonnell priodol, cynradd a/neu cyfoes, o fewn ei gyd-destun hanesyddol*

| Band | Marc | Disgrifydd |
|---|---|---|
| **6** | **26-30** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad cyson a chywir o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *darparu ffocws cyson ar werthuso'r ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn gyson ynghylch gwerth y ffynonellau ar gyfer yr ymholiad penodol* |
| **5** | **21-25** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos ffocws amlwg a chywir ar y dadansoddiad a'r gwerthusiad o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *darparu ffocws clir ar y cyfan ar werthuso'r ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn ddilys ynghylch gwerth y ffynonellau ar gyfer yr ymholiad penodol* |
| **4** | **16-20** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad dilys o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *gosod y ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn glir ynghylch gwerth y ffynonellau ar gyfer yr ymholiad penodol* |
| **3** | **11-15** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos peth dadansoddiad a gwerthusiad priodol o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *gwneud ymgais i osod y ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn gyfyngedig ynghylch gwerth dwy o leiaf o'r ffynonellau* |
| **2** | **6-10** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *deall a thynnu allan wybodaeth o'r ffynonellau gyda pheth cyfeiriad at awduraeth y deunydd a ddarparwyd*<br>• *gwneud ymgais gyfyngedig i osod y ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad*<br>• *cynnig barn gyfyngedig ynghylch gwerth un o leiaf o'r ffynonellau* |
| **1** | **1-5** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *deall a thynnu allan beth o'r deunydd ffynhonnell* |
| **Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol** | | |

© WJEC CBAC Ltd.

**Canllaw marcio i arholwyr ar gyfer Cwestiwn 2**

**Crynodeb o'r amcanion asesu ar gyfer Cwestiwn 2**

Mae Cwestiwn 2 yn asesu amcan asesu 3. Elfen unigol yw'r amcan asesu hwn sy'n canolbwyntio ar y gallu i ddadansoddi a gwerthuso sut a pham y cafodd dehongliadau hanesyddol gwahanol eu gwneud. Y marc a ddyfernir i Gwestiwn 2 yw 30.

**Strwythur y cynllun marcio**

Mae dwy ran i'r cynllun marcio ar gyfer Cwestiwn 2:

- cyngor ar y cwestiwn penodol yn amlinellu awgrymiadau ar gyfer cynnwys y gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd yr ymateb penodol. Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd sydd ynddo. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth dderbyniol bellach a gynigir gan ymgeiswyr.

- grid asesu sy'n rhoi cyngor ar ba fandiau a marciau y dylid eu rhoi i ymatebion sy'n dangos y nodweddion angenrheidiol ar gyfer amcan asesu 3.

**Penderfynu ar y marc i'w ddyfarnu o fewn band**

Y cam cyntaf i arholwr yw penderfynu ar y band cyffredinol. Yr ail gam yw penderfynu pa mor gadarn mae'r nodweddion a ddisgwylir ar y band hwnnw yn cael eu cyfleu. Yna, yn drydydd, gellir rhoi'r marc terfynol ar gyfer y cwestiwn.

© WJEC CBAC Ltd.

**AWGRYMIADAU AR GYFER CYNNWYS CWESTIWN 2**

*NODER: Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd a welir isod. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth berthnasol bellach a gynigir gan ymgeiswyr. Dylid asesu pob ateb yn ôl ei haeddiant, yn unol â'r grid asesu yn ogystal â'r awgrymiadau ar gyfer cynnwys.*

## Pa mor ddilys yw'r safbwynt bod y Brenin yn barod i gydweithredu â'r Senedd hyd at 1642?

Disgwylir i ymgeiswyr arddangos dealltwriaeth o'r ffordd y cafodd agweddau ar y gorffennol eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol. Bydd yr atebion yn ystyried y deunydd a ddarparwyd ynghyd â'r hyn y mae'r ymgeisydd yn ei ddeall am y cyd-destun hanesyddol a'r ddadl hanesyddol ehangach wrth lunio barn am ddilysrwydd y safbwynt bod y Brenin yn barod i gydweithredu â'r Senedd hyd at 1642.

Gwahoddir ymgeiswyr i gymryd ran mewn dadl ar y safbwynt bod y Brenin yn barod i gydweithredu â'r Senedd hyd at 1642. Bydd y dysgwyr yn ystyried dehongliadau o'r mater hwn o fewn y ddadl hanesyddol ehangach ynglŷn â'r berthynas rhwng y Brenin a'r Senedd hyd at 1642. Gall rhai o'r materion i'w hystyried gynnwys:

- Mae Dehongliad 1 yn dadlau bod y Brenin wedi colli amynedd erbyn dechrau 1642. Bryd hynny roedd y Brenin yn benderfynol o uchelgyhuddo chwech o'i brif wrthwynebwyr am uchel frad. Ceisiodd wneud hynny gyda chefnogaeth milwyr arfog. Ar ôl i'r ymgais hon fethu, roedd Siarl yn benderfynol o ddinistrio'r Senedd unwaith ac am byth.
- Wrth ddadansoddi a gwerthuso Dehongliad 1 gall yr atebion ddadlau ei fod yn ddehongliad dilys gan fod yr awdur yn dweud bod Siarl yn amlwg yn ceisio cael gwared ar rai gwrthwynebwyr trafferthus o'r Senedd. Roedd ef o leiaf eisiau gallu rheoli'r aelodau Seneddol hyn. Dim ond ar ôl i'r Senedd wrthod ei helpu i arestio'r chwech y penderfynodd y Brenin i gau'r sefydliad. Pe bai wedi cydweithredu, gallai'r Brenin fod wedi gweithredu'n wahanol. Go brin fod gweithredoedd y Brenin, yn ôl darlun Wroughton, yn debyg i waith brenin oedd eisiau cydweithredu. Byddai awdur y ffynhonnell, arbenigwr ar hanes y cyfnod hwn, yn amlwg yn 1997 wedi gallu tynnu ar amrediad o ffynonellau cynradd a gwaith haneswyr cynharach. Er ei fod yn ysgrifennu mewn llyfr ar hanes cyffredinol yr 17$^{eg}$ ganrif dichon ei fod yn cyflwyno ei ddehongliad mewn termau mwy cyffredinol at gyfer ei gynulleidfa.
- Mae Dehongliad 2 yn dadlau bod y Brenin yn benderfynol o osgoi gwrthdaro hyd at ddechrau 1642. Roedd ei awydd i wneud hynny fodd bynnag yn ddiffygiol gan fod ei berthynas mor fregus fel byddai unrhyw ymdrechion ganddo i sefydlogi'r sefyllfa yn cael eu gweld yn ddim mwy nag arwyddion gweigion.
- Wrth ddadansoddi a gwerthuso Dehongliad 2, mae'r hanesydd yn awgrymu bod y berthynas rhwng y Brenin a'r Senedd mor fregus a chymhleth erbyn dechrau 1642 nes bod unrhyw gydweithrediad rhyngddynt yn annhebygol. Bwriad ymgais y Brenin i sicrhau bargen drwy aberthu Wentworth oedd ennill mwy o amser mae'n debyg tra byddai'n cynllwynio i danseilio grym ac awdurdod y Senedd. Nid yw ei safbwynt yn wahanol iawn i un Wroughton ond mae'r cefndir yn cael ei ddisgrifio'n gliriach yn y darn. Roedd yr awdur yn ysgrifennu yn yr 1950au, ond astudiaeth arbenigol iawn ar y Senedd Hir yw ei waith ac mae ei ddehongliad yn debygol o roi mwy o sylw o lawer i'r mater penodol hwnnw.
- Gall ymgeiswyr ddangos ymwybyddiaeth o'r ddadl hanesyddol ehangach ynglŷn â'r mater hwn megis natur yr hanesyddiaeth ynghylch y berthynas rhwng y Brenin a'r Senedd. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol yn enwedig o ddehongliadau eraill megis y safbwynt mwy traddodiadol nad oedd gan y Brenin unrhyw fwriad i gydweithredu â'i Senedd a'i fod yn benderfynol o chwalu unrhyw ymgais ganddi i ennill mwy o rym.

Bydd ymgeiswyr yn gyffredinol yn dadansoddi'r ddau ddehongliad gan ddefnyddio'r hyn maen nhw'n ei ddeall am y ddadl ynglŷn â'r mater hwn, yn cynnig gwerthuso dilysrwydd y dehongliadau a roddwyd a rhoi barn am y mater yn y cwestiwn, sef bod y Brenin yn barod i gydweithredu â'r Senedd hyd at 1642.

© WJEC CBAC Ltd.

**GRID ASESU AR GYFER CWESTIWN 2**

*Targed: AA3* *Marc uchaf: 30*

*Ffocws:* *Mewn perthynas â'r cyd-destun hanesyddol, dadansoddi a gwerthuso'r ffyrdd gwahanol y cafodd agweddau ar y gorffennol eu dehongli*

| Band | Marc | Disgrifydd |
|---|---|---|
| **6** | **26-30** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad cyson o'r deunydd a roddwyd ac yn ei ddefnyddio'n effeithiol i drafod sut a pham y cafodd dehongliadau gwahanol eu ffurfio*<br>• *darparu ffocws cyson ar werthuso'r dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *arddangos ymwybyddiaeth glir o ddehongliadau gwahanol o'r mater a osodwyd* |
| **5** | **21-25** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos ffocws clir a chywir yn y dadansoddiad a'r gwerthusiad o'r deunydd a roddwyd i ddangos sut a pham y cafodd dehongliadau gwahanol eu ffurfio*<br>• *darparu ffocws clir ar y cyfan ar werthuso'r dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *dangos sut y cafodd y mater ei ddehongli mewn ffyrdd gwahanol* |
| **4** | **16-20** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad dilys o'r deunydd a roddwyd i nodi dehongliadau gwahanol*<br>• *gosod y ddau ddehongliad yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *dangos ymwybyddiaeth o ddehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **3** | **11-15** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos rhai sylwadau priodol mewn perthynas â'r dadansoddiad a'r gwerthusiad o'r deunydd a roddwyd i nodi dehongliadau gwahanol*<br>• *gwneud ymgais i osod y dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *dangos peth ymwybyddiaeth o ddehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **2** | **6-10** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *deall peth o'r deunydd a roddwyd gan ddangos dadansoddiad cyfyngedig yn unig*<br>• *gwneud ymgais gyfyngedig i osod y dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad*<br>• *dangos peth ymwybyddiaeth o'r dehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **1** | **1-5** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *tynnu gwybodaeth o'r deunydd a roddwyd*<br>• *cynnwys cyfeiriad gwan at ddehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol** | | |

© WJEC CBAC Ltd.

**HANES UG**

**UNED 2**

**ASTUDIAETH FANWL 3**

# DIWYGIAD A PHROTEST YNG NGHYMRU A LLOEGR, tua 1783–1832

## RHAN 1: RADICALIAETH A'R YMGYRCH O BLAID DIWYGIO'R SENEDD, tua 1783–1832

**PAPUR ENGHREIFFTIOL**

**1 awr 45 munud**

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch y **ddau** gwestiwn ar y papur.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.

Dylech dreulio tua 45 munud ar bob cwestiwn.

Mae'n bosibl fod y ffynonellau a'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

© WJEC CBAC Ltd.

**UNED 2**

**ASTUDIAETH FANWL 3**

**DIWYGIAD A PHROTEST YNG NGHYMRU A LLOEGR, tua 1783–1832**

**RHAN 1: RADICALIAETH A'R YMGYRCH O BLAID DIWYGIO'R SENEDD, tua 1783–1832**

Atebwch y **ddau** gwestiwn ar y papur hwn

**CWESTIWN 1**

Astudiwch y ffynonellau isod ac atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.

**Ffynhonnell A**

SYR,
Mae gwybodaeth newydd ddod i law, eich bod chi'n un o berchenogion y Fframiau Gwelleifio (*Shearing Frames*) atgas hynny, a derbyniais gais gan fy ngwŷr i ysgrifennu atoch, i chi gael rhybudd teg i'w tynnu i lawr, ac i'r perwyl hwnnw rwyf am i chi ddeall rydwyf yn ysgrifennu atoch, rydych yn cael rhybudd os na fyddant wedi'u tynnu i lawr erbyn diwedd yr wythnos nesaf, byddaf fi'n anfon un o'm cydswyddogion gyda 300 o ddynion o leiaf i'w dinistrio, ac ar ben hynny rydym yn eich rhybuddio os byddwch yn ein trafferthu i ddod cyn belled â hyn, byddwn yn cynyddu eich helyntion drwy losgi eich adeiladau'n ulw, ac os byddwch yn ddigon haerllug i danio ar unrhyw un o'm dynion, maen nhw dan orchymyn i'ch llofruddio chi a llosgi'r cwbl o'ch adeiladau. Rydym yn gobeithio cael cymorth oddi wrth Ymerawdwr Ffrainc i fwrw ymaith Iau y Llywodraeth fwyaf Llwgr, fwyaf Drygionus a mwyaf Gormesol a fu erioed, yna i lawr â Theyrnedd Hanofer a'n holl deyrnedd ni o'r mwyaf i'r lleiaf, a byddwn yn cael ein llywodraethu gan Weriniaeth gyfiawn. Ni fyddwn byth yn gollwng ein harfau nes bydd Tŷ'r Cyffredin yn pasio deddf i wahardd yr holl beiriannau sy'n niweidiol i'r Gymuned a diddymu honno ar gyfer y Torwyr Fframiau.
Llofnodwyd gan Gadfridog Byddin yr Unionwyr
NED LUDD
Clerc

[Llythyr dienw a gafodd ei anfon at feistr tir yn Swydd Efrog yn 1812 a'i roi yn ffeiliau'r llywodraeth]

**Ffynhonnell B**

Bron yn union ar ôl gwahardd y Cymdeithasau Unedig, a gafodd eu sefydlu mewn trefi gwahanol yn yr ardal hon er sicrhau diwygio'r Senedd, mae'n ymddangos bod rhai o'r aelodau mwyaf treisgar wedi cyfarfod â'i gilydd, a hynny'n breifat a chyfrinachol. Yn y cyfarfodydd hyn, mae'n debyg bod trafodaeth wedi'i chynnal ar y cwestiwn, a allai newid yn y gynrychiolaeth gael ei roi mewn grym heb ymyrraeth gan y Senedd, ac mae'n ymddangos i gynnig gael ei esbonio iddynt gan un o'r enw Mr Oliver. Dywedir fod y person hwn wedi rhoi ar ddeall i'r dynion hygoelus hyn fod yr holl bobl yn y Brifddinas yn ffafrio newid y llywodraeth yn llwyr, a'i fod wedi'i setlo'n bendant y byddai gwrthryfel cyffredinol yn digwydd ar noson 8fed Mehefin.

[Rhan o'r papur newydd, *The Leeds Mercury*, ar 14 Mehefin 1817,
yn sôn am Wrthryfel Swydd Derby]

© WJEC CBAC Ltd.

**Ffynhonnell C**

Ddeng munud ar ôl i'r helynt ddechrau, roedd y maes yn wag heb neb bron o gwmpas y lle. Roedd yr haul i'w weld yn tywynnu drwy awyr glòs a di-awel. Roedd y llwyfan yno o hyd, gydag ychydig o goesau fflagiau toredig yn sefyll, ac un neu ddwy faner rwygedig yn hongian yn llipa; ac wedi'u gwasgaru dros y maes cyfan roedd capiau, boneti, hetiau, sioliau, ac esgidiau, a darnau eraill o ddillad dynion a menywod; wedi'u sathru a'u rhwygo a'u staenio gan waed. Roedd yr iwmyn wedi disgyn oddi ar eu ceffylau – roedd rhai yn llacio cenglau eu ceffylau, ac eraill yn llacio eu harneisi; roedd rhai yn sychu eu cleddyfau. Roedd rhai pentyrrau o fodau dynol yno o hyd yn dal lle roedden nhw wedi disgyn, wedi'u gwasgu a'u mygu. Roedd rhai ohonynt yn dal i riddfan – ac eraill gyda'u llygaid yn rhythu, yn brwydro am anadl, ac eraill na fyddent yn anadlu byth eto. Roedd popeth yn ddistaw ar wahân i'r synau isel hyn, a sŵn ambell i geffyl yn gweryru a symud eu traed. Roedd rhai pobl i'w gweld weithiau yn cymryd cipolwg o groglofftydd neu dros gribau uchel y tai, ond symud oddi yno'n sydyn yr oeddynt, fel pe baent yn ofni cael eu gweld, neu'n methu â dal i edrych yn llawn ar olygfa mor erchyll a gwrthun.

[Rhan o lyfr gan y radical brwd, Samuel Bamford, *Passages in the Life of a Radical*, a gafodd ei gyhoeddi yn 1844. Yn y llyfr hwn mae Bamford yn dwyn i gof yr hyn ddigwyddodd yn union ar ôl Cyflafan Peterloo yn 1819.]

Gan gyfeirio at y ffynonellau a defnyddio'r hyn rydych yn eich ddeall am y cyd-destun hanesyddol, aseswch werth y tair ffynhonnell hyn i hanesydd sy'n astudio protestiadau'r bobl yn y cyfnod 1812–1822. [30]

© WJEC CBAC Ltd.

**CWESTIWN 2**

Astudiwch y darnau isod ac atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.

**Dehongliad 1**

Roedd y Ddeddf Diwygio wedi creu tirlun etholiadol hollol wahanol. Nid cynyddu nifer y pleidleiswyr yn unig a wnaeth (yn achos yr Alban, roedd yn fwy na thair gwaith ar ddeg), ond wrth i reolaeth noddwyr wanhau, bu cynnydd amlwg hefyd yn y nifer o etholiadau oedd yn mynd i bleidlais. Yn yr etholiad cyffredinol cyntaf a gynhaliwyd dan y drefn newydd yn 1832, roedd dros 43,000 o Albanwyr yn gallu bwrw pleidlais. A'r un modd yn yr etholiad nesaf yn 1835, roedd mwy na 9,000 o Gymry. I raddau felly, roedd trefn gynrychiadol fwy unffurf drwy Brydain, wedi'i harolygu'n fwy trylwyr gan y wladwriaeth, a llawer mwy democrataidd, wedi cymryd lle un oedd yn ffafrio Lloegr, yn ffafrio'r de, ac yn ffafrio grymoedd allgyrchol buddiannau lleol a noddwyr etholiadol unigol. Roedd y drwgarferion a'r anghysondebau amlycaf wedi'u hysgubo ymaith, ac roedd grwpiau cymdeithasol a rhanbarthau a wnaeth gyfraniad enfawr i gyfoeth Prydain, ond heb gael eu cynrychioli yn uniongyrchol cyn hynny, wedi'i ennill bellach. Yn ôl safonau Ewrop, roedd cyfanswm newydd yr etholwyr ym Mhrydain, sef 656,000, yn fawr iawn, o gofio nad oedd yr un cynulliad deddfwriaethol cenedlaethol etholedig yn bod yn Awstria, Denmarc, Rwsia na Groeg. Roedd cyfran uwch o ddynion yn gallu pleidleisio ym Mhrydain nag yn Ffrainc, Sbaen, Gwlad Belg na'r Iseldiroedd.

[Linda Colley, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes Prydain yn y 18fed ganrif, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr, *Britons: Forging the Nation 1701–1837* (1992)]

**Dehongliad 2**

Roedd y diwygiad gwleidyddol wedi cryfhau safle'r sefydliad. O bosib bod Deddf Diwygio 1832 wedi ehangu'r bleidlais ond gwnaeth hynny mewn ffordd ofalus. Roedd y 'consesiynau' a wnaed er budd y dosbarth canol trefol ac mewn ardaloedd gwledig gallai grym y meistr tir yn hawdd fod wedi'i gynyddu. Mae'n ymddangos bod cymal Chandos wedi helpu'r Torïaid yn y siroedd er nad oedd ei effeithiau yn dyngedfennol yn aml. Roedd digon o rydd-ddeiliaid yr un mor ddibynnol ar feistri tir Torïaidd ag unrhyw denant wrth ewyllys. Pan fyddai etholaethau sirol yn rhai diwrthwynebiad – ac roedd 60% yn ddiwrthwynebiad yn 1847 – a'r meistri tir wedi cytuno ar ymgeiswyr, roedd Deddf 1832 yn amherthnasol. Er hynny, ychydig o'r pleidleiswyr newydd oedd eisiau herio'r bendefigaeth dirfeddiannol. Roedd y dosbarth canol yn ymostyngol i raddau o hyd. Doedd y Ddeddf heb ddiorseddu'r tir na gwneud diwydiant yn ben.

[Richard Brown, arbenigwr ar hanes Prydain yn y 19eg ganrif, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr, *Change and Continuity in British Society 1800–50* (1987)]

Mae haneswyr wedi llunio dehongliadau gwahanol ynghylch Deddf Diwygio 1832. Dadansoddwch, gwerthuswch a defnyddiwch y ddau ddarn uchod, a defnyddio'r hyn rydych chi'n ei ddeall am y ddadl hanesyddol, i ateb y cwestiwn canlynol:

Pa mor ddilys yw'r safbwynt mai mesur ceidwadol oedd Deddf Diwygio 1832? [30]

© WJEC CBAC Ltd.

**UNED 2**

**ASTUDIAETH FANWL 3**

**DIWYGIAD A PHROTEST YNG NGHYMRU A LLOEGR, tua 1783–1832**

**RHAN 1: RADICALIAETH A'R YMGYRCH O BLAID DIWYGIO'R SENEDD, tua 1783–1832**

## CYNLLUN MARCIO

### Canllaw marcio i arholwyr ar gyfer Cwestiwn 1

### Crynodeb o'r amcanion asesu ar gyfer Cwestiwn 1

Mae Cwestiwn 1 yn asesu amcan asesu 2. Elfen unigol yw'r amcan asesu hwn sy'n canolbwyntio ar y gallu i ddadansoddi a gwerthuso deunydd ffynhonnell cyfoes yn ei gyd-destun hanesyddol. Y marc a ddyfernir i Gwestiwn 1 yw 30.

### Strwythur y cynllun marcio

Mae dwy ran i'r cynllun marcio ar gyfer Cwestiwn 1:

- cyngor ar y cwestiwn penodol yn amlinellu awgrymiadau ar gyfer cynnwys y gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd yr ymateb penodol. Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd sydd ynddo. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth dderbyniol bellach a gynigir gan ymgeiswyr.

- grid asesu sy'n rhoi cyngor ar ba fandiau a marciau y dylid eu rhoi i ymatebion sy'n dangos y nodweddion angenrheidiol ar gyfer amcan asesu 2.

### Penderfynu ar y marc i'w ddyfarnu o fewn band

Y cam cyntaf i arholwr yw penderfynu ar y band cyffredinol. Yr ail gam yw penderfynu pa mor gadarn mae'r nodweddion a ddisgwylir ar y band hwnnw yn cael eu cyfleu. Yna, yn drydydd, gellir rhoi'r marc terfynol ar gyfer y cwestiwn.

© WJEC CBAC Ltd.

**AWGRYMIADAU AR GYFER CYNNWYS CWESTIWN 1**

*NODER: Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd a welir isod. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth berthnasol bellach a gynigir gan ymgeiswyr. Dylid asesu pob ateb yn ôl ei haeddiant, yn unol â'r grid asesu yn ogystal â'r awgrymiadau ar gyfer cynnwys.*

## Gan gyfeirio at y ffynonellau a defnyddio'r hyn rydych yn ei ddeall am y cyd-destun hanesyddol, aseswch werth y tair ffynhonnell hyn i hanesydd sy'n astudio protestiadau'r bobl yn y cyfnod 1812–1822.

Disgwylir i ymgeiswyr arddangos eu gallu i ddadansoddi a gwerthuso amrediad o ddeunydd ffynhonnell gyda mesur helaeth o ddidoli. Dylai'r sgiliau gwerthuso ffynonellau ganolbwyntio ar drafod cryfderau a chyfyngiadau'r ffynonellau a nodir. Ar gyfer barnu eu defnyddioldeb, dylid ystyried cynnwys ac awduraeth y ffynonellau a nodir er mwyn trafod eu dibynadwyedd, gogwydd, pwrpas a dilysrwydd, fel bo'n briodol.

Bydd ymgeiswyr yn ystyried gwerth y ffynonellau i hanesydd sy'n astudio protestiadau'r bobl yn y cyfnod 1812–1822. Dylai'r ymgeisydd ddefnyddio'r hyn mae'n ei wybod am y cyd-destun hanesyddol i ddadansoddi a gwerthuso cryfderau a chyfyngiadau'r ffynonellau. Gellir gwneud sylwadau priodol wrth ddadansoddi a gwerthuso'r ffynonellau yn cynnwys:

- Mae Ffynhonnell A yn enghraifft o lythyr gan y Ludiaid sydd wedi'i gadw yn ffeiliau'r Swyddfa Gartref. Mae'r ffynhonnell yn rhoi esboniad clir o achosion cwynion y Ludiaid, yn enwedig dyfodiad peiriannau newydd ac anobaith y mudiad o ran ei fygythiadau i ddinistrio'r peiriannau newydd hyn, cyflawni llosgi bwriadol a gorfodi dial difrifol, pe bai angen, ar rai fyddai'n defnyddio grym yn eu herbyn. Mae'n cynnwys cyfeiriad diddorol at Napoleon, mor ddiweddar â 1812, fel ffynhonnell bosibl o help i wrthwynebu'r hyn oedd yn cael ei ystyried yn llywodraeth a brenhiniaeth ormesol. Mae ieithwedd y ffynhonnell yn rhoi tystiolaeth uniongyrchol o fygythiad y Ludiaid, eu hamcanion a'u gobeithion, ond byddai hanesydd yn ymwybodol bod ochr arall i'r mater, er enghraifft, effeithiolrwydd y technegau diwydiannol newydd a'r elw i'w wneud ohonynt, yr ofn a achoswyd gan y Chwyldro Ffrengig diweddar a blaenoriaethau llywodraeth oedd yn ceisio gwrthwynebu unrhyw anhrefn tebygol.
- Adroddiad papur newydd cyfoes ar wrthryfel Swydd Derby yn 1817 yw Ffynhonnell B. Mae'r ffynhonnell yn egluro'r cyswllt â diwygio'r senedd yn glir a gweithgaredd Mr. Oliver yn codi aflonyddwch. Y cyd-destun yw protestiadau'r bobl ynglŷn â diwygiadau neu ddiffyg hynny a'r ffaith i'r llywodraeth ddefnyddio cudd-gynhyrfwr (*agent provocateur*): mae'r papur newydd yn gofnod werthfawr o ddigwyddiad allweddol yn hanes protestiadau'r bobl ar ôl y rhyfel. Mae ieithwedd yr adroddiad yn arwydd o safbwyntiau'r papur newydd gyda'i sylwadau ar gynulliadau preifat a chyfrinachol dynion treisgar a'u hygoeledd. Byddai hanesydd yn ymwybodol o agwedd y papur newydd a byddai'n cymryd hynny i ystyriaeth wrth werthuso cofnod ddefnyddiol gyfoes o ddigwyddiad allweddol.
- Mae Ffynhonnell C yn atgof gwerthfawr o ddigwyddiad allweddol o'r cyfnod 1812–1822, sef Cyflafan Peterloo 1819. Mae adroddiad Bamford yn annog cydymdeimlad â'r gwrthdystwyr gyda'i ddisgrifiadau o weddillion truenus eiddo'r protestwyr, y llwyfan wedi'i ddinistrio a'r pentwr erchyll o gyrff. Mae'r ddelwedd o'r iwmyn yn sychu eu cleddyfau gwaedlyd yn rymus a'r un modd eiriau disgrifiadol Bamford fel "erchyll" a naws teimladol ei ddisgrifiad. Byddai hanesydd yn ymwybodol o radicaliaeth Bamford a'i dueddiadau a byddai'n cymryd hynny i ystyriaeth wrth ystyried yr adroddiad hwn yn erbyn rhai eraill a fyddai'n rhoi ystyriaeth i amcanion a bwriadau'r ynadon a'r iwmyn.

Yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn asesu gwerth y ffynonellau i hanesydd sy'n astudio protestiadau'r bobl yn y cyfnod 1812–1822. Byddant yn gallu dangos y gwerth hwnnw drwy ystyried cynnwys, tarddiad a thôn un o'r ffynonellau a gyflwynwyd, gan gyfeirio'n briodol at y cyd-destun hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r ffynonellau.

© WJEC CBAC Ltd.

**GRID ASESU AR GYFER CWESTIWN 1**

*Targed: AA2* *Marc uchaf: 30*

*Ffocws:* *Dadansoddi a gwerthuso deunydd ffynhonnell priodol, cynradd a/neu cyfoes, o fewn ei gyd-destun hanesyddol*

| Band | Marc | Disgrifydd |
|---|---|---|
| **6** | **26-30** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad cyson a chywir o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *darparu ffocws cyson ar werthuso'r ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn gyson ynghylch gwerth y ffynonellau ar gyfer yr ymholiad penodol* |
| **5** | **21-25** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos ffocws amlwg a chywir ar y dadansoddiad a'r gwerthusiad o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *darparu ffocws clir ar y cyfan ar werthuso'r ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn ddilys ynghylch gwerth y ffynonellau ar gyfer yr ymholiad penodol* |
| **4** | **16-20** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad dilys o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *gosod y ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn glir ynghylch gwerth y ffynonellau ar gyfer yr ymholiad penodol* |
| **3** | **11-15** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos peth dadansoddiad a gwerthusiad priodol o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *gwneud ymgais i osod y ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn gyfyngedig ynghylch gwerth dwy o leiaf o'r ffynonellau* |
| **2** | **6-10** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *deall a thynnu allan wybodaeth o'r ffynonellau gyda pheth cyfeiriad at awduraeth y deunydd a ddarparwyd*<br>• *gwneud ymgais gyfyngedig i osod y ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad*<br>• *cynnig barn gyfyngedig ynghylch gwerth un o leiaf o'r ffynonellau* |
| **1** | **1-5** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *deall a thynnu allan beth o'r deunydd ffynhonnell* |
| **Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol** | | |

© WJEC CBAC Ltd.

**Canllaw marcio i arholwyr ar gyfer Cwestiwn 2**

**Crynodeb o'r amcanion asesu ar gyfer Cwestiwn 2**

Mae Cwestiwn 2 yn asesu amcan asesu 3. Elfen unigol yw'r amcan asesu hwn sy'n canolbwyntio ar y gallu i ddadansoddi a gwerthuso sut a pham y cafodd dehongliadau hanesyddol gwahanol eu gwneud. Y marc a ddyfernir i Gwestiwn 2 yw 30.

**Strwythur y cynllun marcio**

Mae dwy ran i'r cynllun marcio ar gyfer Cwestiwn 2:

- cyngor ar y cwestiwn penodol yn amlinellu awgrymiadau ar gyfer cynnwys y gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd yr ymateb penodol. Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd sydd ynddo. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth dderbyniol bellach a gynigir gan ymgeiswyr.

- grid asesu sy'n rhoi cyngor ar ba fandiau a marciau y dylid eu rhoi i ymatebion sy'n dangos y nodweddion angenrheidiol ar gyfer amcan asesu 3.

**Penderfynu ar y marc i'w ddyfarnu o fewn band**

Y cam cyntaf i arholwr yw penderfynu ar y band cyffredinol. Yr ail gam yw penderfynu pa mor gadarn mae'r nodweddion a ddisgwylir ar y band hwnnw yn cael eu cyfleu. Yna, yn drydydd, gellir rhoi'r marc terfynol ar gyfer y cwestiwn.

© WJEC CBAC Ltd.

**AWGRYMIADAU AR GYFER CYNNWYS CWESTIWN 2**

*NODER: Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd a welir isod. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth berthnasol bellach a gynigir gan ymgeiswyr. Dylid asesu pob ateb yn ôl ei haeddiant, yn unol â'r grid asesu yn ogystal â'r awgrymiadau ar gyfer cynnwys.*

## Pa mor ddilys yw'r safbwynt mai mesur ceidwadol oedd Deddf Diwygio 1832?

Disgwylir i ymgeiswyr arddangos dealltwriaeth o'r ffordd y cafodd agweddau ar y gorffennol eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol. Bydd yr atebion yn ystyried y deunydd a ddarparwyd ynghyd â'r hyn y mae'r ymgeisydd yn ei ddeall am y cyd-destun hanesyddol a'r ddadl hanesyddol ehangach wrth lunio barn am ddilysrwydd y safbwynt mai mesur ceidwadol oedd Deddf Diwygio 1832.

Gwahoddir ymgeiswyr i gymryd ran mewn dadl ar y safbwynt mai mesur ceidwadol oedd Deddf Diwygio 1832. Bydd y dysgwyr yn ystyried dehongliadau o'r mater hwn o fewn y ddadl hanesyddol ehangach am Ddeddf Diwygio 1832. Gall rhai o'r materion i'w hystyried gynnwys:

- Mae Dehongliad 1 yn dadlau bod Deddf Diwygio 1832 wedi sicrhau newid sylweddol yn nifer y rhai oedd yn pleidleisio – roedd cael 656,000 o etholwyr yn gyfanswm mawr iawn yn ôl safonau Ewrop ac felly'n arwyddocaol yn ôl cyfran.
- Wrth ddadansoddi a gwerthuso Dehongliad 1 gall yr atebion ddadlau bod hwn yn ddehongliad dilys gan ei fod wedi'i seilio'n gadarn ar y cyd-destun sef y rhesymau dros ddiwygio, yn enwedig drwg arferion yr hen drefn seneddol, y diffyg cynrychiolaeth ar gyfer grwpiau cymdeithasol allweddol a'r awydd i sicrhau dosbarthiad daearyddol tecach ar gyfer cynrychiolaeth seneddol. Roedd nifer yr ymgyrchoedd etholiadol wedi cynyddu yn ogystal, roedd drwg arferion gwaethaf yr hen drefn wedi'u hysgubo ymaith a'r dosbarthiadau canol a'u dawn i greu cyfoeth wedi'u rhyddfreinio. Roedd rhain yn cael eu hystyried yn newidiadau radicalaidd o bwys oedd yn arwain at gymdeithas fwy democrataidd o lawer. Mae'r awdur yn hanesydd uchel ei pharch sydd wedi casglu tystiolaeth feintiol a chymharol i gefnogi ei dehongliad.
- Mae Dehongliad 2 yn dadlau bod Deddf Diwygio 1832 wedi cryfhau'r sefydliad. Cyfyngedig oedd y cynnydd yn y bleidlais: gallai grym y meistri tir yn hawdd fod wedi'i ehangu. Heb sôn am ryddfreinio'r dosbarthiadau diwydiannol, roedd y bendefigaeth dirfeddiannol yn dal yn ben a'r dosbarthiadau canol yn ymostyngol.
- Wrth ddadansoddi a gwerthuso Dehongliad 2 gall yr atebion ddadlau bod hyn yn ddehongliad dilys gan ei fod wedi'i seilio'n gadarn ar dystiolaeth o weithrediad cymal Chandos, y nifer o etholiadau sirol diwrthwynebiad a'r diffyg sialens o du'r pleidleiswyr newydd. Mae ymchwil ac arbenigedd yr awdur yn awgrymu ei fod wedi defnyddio tystiolaeth yn ofalus i cynhyrchu ei gasgliadau.
- Gall ymgeiswyr ddangos ymwybyddiaeth o'r ddadl hanesyddol ehangach ynglŷn â'r mater hwn, megis adferiad y Chwigiaid fel grym gwleidyddol ar ôl dymchweliad y llywodraeth Doriaidd yn 1830, ofn gwrthryfel y bobl, yr aflonyddwch yn yr ardaloedd gwledig a'r dadleuon grymus o blaid diwygio er mwyn cynnal hanfodion llywodraeth sefydledig.

Bydd ymgeiswyr yn gyffredinol yn dadansoddi'r ddau ddehongliad gan ddefnyddio'r hyn maen nhw'n ei ddeall am y ddadl ynglŷn â'r mater hwn, yn cynnig gwerthuso dilysrwydd y dehongliadau a roddwyd a rhoi barn am y mater yn y cwestiwn, sef mai mesur ceidwadol oedd Deddf Diwygio 1832.

© WJEC CBAC Ltd.

**GRID ASESU AR GYFER CWESTIWN 2**

*Targed: AA3* *Marc uchaf: 30*

*Ffocws:* *Mewn perthynas â'r cyd-destun hanesyddol, dadansoddi a gwerthuso'r ffyrdd gwahanol y cafodd agweddau ar y gorffennol eu dehongli*

| Band | Marc | Disgrifydd |
|---|---|---|
| **6** | **26-30** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad cyson o'r deunydd a roddwyd ac yn ei ddefnyddio'n effeithiol i drafod sut a pham y cafodd dehongliadau gwahanol eu ffurfio*<br>• *darparu ffocws cyson ar werthuso'r dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *arddangos ymwybyddiaeth glir o ddehongliadau gwahanol o'r mater a osodwyd* |
| **5** | **21-25** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos ffocws clir a chywir yn y dadansoddiad a'r gwerthusiad o'r deunydd a roddwyd i ddangos sut a pham y cafodd dehongliadau gwahanol eu ffurfio*<br>• *darparu ffocws clir ar y cyfan ar werthuso'r dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *dangos sut y cafodd y mater ei ddehongli mewn ffyrdd gwahanol* |
| **4** | **16-20** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad dilys o'r deunydd a roddwyd i nodi dehongliadau gwahanol*<br>• *gosod y ddau ddehongliad yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *dangos ymwybyddiaeth o ddehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **3** | **11-15** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos rhai sylwadau priodol mewn perthynas â'r dadansoddiad a'r gwerthusiad o'r deunydd a roddwyd i nodi dehongliadau gwahanol*<br>• *gwneud ymgais i osod y dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *dangos peth ymwybyddiaeth o ddehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **2** | **6-10** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *deall peth o'r deunydd a roddwyd gan ddangos dadansoddiad cyfyngedig yn unig*<br>• *gwneud ymgais gyfyngedig i osod y dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad*<br>• *dangos peth ymwybyddiaeth o'r dehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **1** | **1-5** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *tynnu gwybodaeth o'r deunydd a roddwyd*<br>• *cynnwys cyfeiriad gwan at ddehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol** | | |

© WJEC CBAC Ltd.

**HANES UG**

**UNED 2**

**ASTUDIAETH FANWL 4**

**GWLEIDYDDIAETH A CHYMDEITHAS YNG NGHYMRU A LLOEGR, tua 1900–1939**

**RHAN 1: GWLEIDYDDIAETH, CYMDEITHAS A'R RHYFEL: CYMRU A LLOEGR, tua 1900–1918**

**PAPUR ENGHREIFFTIOL**

**1 awr 45 munud**

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch y **ddau** gwestiwn ar y papur.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.

Dylech dreulio tua 50 munud ar bob cwestiwn.

Mae'n bosibl fod y ffynonellau a'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

© WJEC CBAC Ltd.

## UNED 2

## ASTUDIAETH FANWL 4

## GWLEIDYDDIAETH A CHYMDEITHAS YNG NGHYMRU A LLOEGR, tua 1900–1939

## RHAN 1: GWLEIDYDDIAETH, CYMDEITHAS A'R RHYFEL: CYMRU A LLOEGR, tua 1900–1918

Atebwch yr **ddau** gwestiwn ar y papur

### CWESTIWN 1

Astudiwch y ffynonellau isod ac atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.

**Ffynhonnell A**

Mae Caerdydd yn y bôn yn ddinas daclus sydd wedi'i llywodraethu'n dda. Mae'r ymwelydd yn cyrraedd yno dan yr argraff y bydd yn gweld dinas wedi'i staenio â phechodau ei masnach lo, y bydd ei strydoedd yn frwnt a di-raen, ond mae'n darganfod yn fuan iawn bod ei syniadau blaenorol wedi'u chwalu gan y gwirionedd. Mae'r ddinas wedi'i gwella'n fawr yn y blynyddoedd diwethaf, ac mae elfennau is y gymdeithas wedi'u cyfyngu i'w hardaloedd priodol eu hunain. Mae yno adeiladau a pharciau newydd, mannau agored eang, tai ac eiddo masnachol sylweddol. Mae'r ddinas yn cyfleu i'r ymwelydd ymdeimlad o falchder dinesig ac addewid am ddyfodol ffyniannus.

[Rhan o erthygl dan y teitl, "Tourism in Wales - Visiting Cardiff", a gafodd ei chyhoeddi yn *Mayfair*, cylchgrawn ffasiynol a gynhyrchwyd yn Lloegr a'i ddarllen gan fwyaf gan aelodau o'r dosbarth uchaf (1912)]

**Ffynhonnell B**

Mae'n wir bod angen sylw ar y tai yn yr ardal, ond mae golwg agosach ar yr amodau cyffredinol yn rhoi'r argraff clir i ddyn nad cyflwr y tai eu hunain yw'r broblem, ond yn hytrach arferion diffygiol y bobl eu hunain a'u plant o ran glanweithdra. Ar y cyfan cefais fod y sefyllfa dai yn dda a'r rhenti yn rhesymol a fforddiadwy. Mae'r mudiad glanweithiol a diwygiadau mewn iechyd cyhoeddus, ynghyd ag agwedd dadol y cyflogwyr, wedi cyfrannu'n helaeth at leddfu effeithiau tebygol diwydiannaeth ac at wella iechyd pobl yr ardal.

[Dr. F. H. Smith, arolygydd meddygol yn gweithio i'r perchenogion glo lleol, yn ysgrifennu mewn adroddiad ar amodau byw pobl yng Nghwm Rhondda (1913)]

© WJEC CBAC Ltd.

**Ffynhonnell C**

> Mewn trefi a phentrefi ledled yr ardal, mae tlodi'n achosi esgeulustod enfawr. Mae mamau yn gorfod gweithio er mwyn crafu bywoliaeth ac yn gadael eu plant gartref eu hunain neu yng ngofal rhai eraill sy'n rhy hen neu'n rhy ifanc i ofalu amdanynt yn briodol. Mae swyddogion meddygol yn tystio nad oes modd magu plant iach dan yr amodau hyn. Yn Senghennydd, mae llawer o deuluoedd yn byw mewn cytiau pren a phrin bod ganddyn nhw ddigon o fwyd ar gyfer un pryd y dydd. Yn llawer o'r cytiau hyn mae cyrff marw. Yn un tŷ roedd corff dyn yn gorwedd yn yr unig ystafell yn y tŷ ar gyfer y wraig weddw, ei phedwar o blant a lletywr, a phob un ohonynt yn gwisgo carpiau yn hytrach na dillad.

[Rhan o erthygl yn y *South Wales Daily News*, papur newydd adain chwith oedd yn cefnogi hawliau'r gweithwyr (1910)]

Gan gyfeirio at y ffynonellau a defnyddio'r hyn rydych yn ei ddeall am y cyd-destun hanesyddol, aseswch werth y tair ffynhonnell hyn i hanesydd sy'n astudio amodau byw yng Nghymru cyn 1918.
[30]

© WJEC CBAC Ltd.

**CWESTIWN 2**

Astudiwch y darnau isod ac atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.

**Dehongliad 1**

Doedd dim rhaglen bendant ar gyfer diwygiad cymdeithasol a gwleidyddol yn bod yn 1906 pan ddaeth y Ryddfrydwyr i rym. Fe ddaeth yn amlwg y fuan fodd bynnag i'r Rhyddfrydwyr Newydd bod grym gwleidyddol newydd wedi ymddangos yng ngwleidyddiaeth Prydain a bod angen ymagwedd newydd arnynt os oeddynt i ddal eu gafael yn y wladwriaeth ddemocrataidd oedd ar ddod. Yng nghyllideb 1909 aeth Lloyd George ati'n fwriadol i godi ddadl drwy droi ar y meistri tir cyfoethog, oedd yn gwrthod cyfrannu cyfran deg at gostau lles cymdeithasol. Drwy wneud hynny, byddai Lloyd George yn sicrhau y byddai'r Blaid Ryddfrydol yn ymrwymedig i newid radicalaidd. Un rhan allweddol o'i gynllun oedd ennill mantais ar y Blaid Lafur. Doedd hynny ddim yn golygu pregethu sosialaeth na chychwyn rhyfel dosbarth. Drwy ymosod ar y meistri tir barus, roedd Lloyd George yn gobeithio uno pobl o bob dosbarth y tu ôl iddo'i hun a'r Ryddfrydwyr.

[Martin Pugh, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes Prydain yn yr 20fed ganrif, yn ysgrifennu mewn bywgraffiad ar Lloyd George (1988)]

**Dehongliad 2**

Roedd Lloyd George yn amlwg yn ddyn oedd wedi'i fwriadu ar gyfer swydd uwch. Roedd e'n credu'n wir ei fod wedi'i ddewis ar gyfer y dasg o ofalu am y dyn cyffredin a bod yn amddiffynnydd i'r mwyafrif tawel. Gwelir hynny yn ei rôl yn niwygiadau'r llywodraeth ar ôl 1906. Roedd e'n edrych i lawr ar y rhai oedd wedi'u geni yn freintiedig ac roedd yn gwawdio eu syniadau gan ei fod yn credu nad oedden nhw'n gwybod dim am y byd real. Roedd e'n ymosodol a phenderfynol o fynd â phethau ymlaen i'r pen. Ar y llaw arall, roedd Lloyd George yn haerllug ac ar brydiau'n eithaf gormesol o ran ei ymddygiad.

[Henry Jones, arbenigwr ar hanes Cymru, yn ysgrifennu mewn erthygl fer dan y teitl, *Lloyd George – the man and the mission* (1956)]

Mae haneswyr wedi llunio dehongliadau gwahanol ynghylch Lloyd George. Dadansoddwch, gwerthuswch a defnyddiwch y ddau ddarn uchod, a defnyddio'r hyn rydych chi'n ei ddeall am y ddadl hanesyddol, i ateb y cwestiwn canlynol:

Pa mor ddilys yw'r safbwynt bod Lloyd George yn wleidydd effeithiol? [30]

© WJEC CBAC Ltd.

**ASTUDIAETH FANWL 4**

**GWLEIDYDDIAETH A CHYMDEITHAS YNG NGHYMRU A LLOEGR, tua 1900–1939**

**RHAN 1: GWLEIDYDDIAETH, CYMDEITHAS A'R RHYFEL: CYMRU A LLOEGR, tua 1900–1918**

**CYNLLUN MARCIO**

**Canllaw marcio i arholwyr ar gyfer Cwestiwn 1**

## Crynodeb o'r amcanion asesu ar gyfer Cwestiwn 1

Mae Cwestiwn 1 yn asesu amcan asesu 2. Elfen unigol yw'r amcan asesu hwn sy'n canolbwyntio ar y gallu i ddadansoddi a gwerthuso deunydd ffynhonnell cyfoes yn ei gyd-destun hanesyddol. Y marc a ddyfernir i Gwestiwn 1 yw 30.

## Strwythur y cynllun marcio

Mae dwy ran i'r cynllun marcio ar gyfer Cwestiwn 1:

- cyngor ar y cwestiwn penodol yn amlinellu awgrymiadau ar gyfer cynnwys y gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd yr ymateb penodol. Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd sydd ynddo. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth dderbyniol bellach a gynigir gan ymgeiswyr.

- grid asesu sy'n rhoi cyngor ar ba fandiau a marciau y dylid eu rhoi i ymatebion sy'n dangos y nodweddion angenrheidiol ar gyfer amcan asesu 2.

## Penderfynu ar y marc i'w ddyfarnu o fewn band

Y cam cyntaf i arholwr yw penderfynu ar y band cyffredinol. Yr ail gam yw penderfynu pa mor gadarn mae'r nodweddion a ddisgwylir ar y band hwnnw yn cael eu cyfleu. Yna, yn drydydd, gellir rhoi'r marc terfynol ar gyfer y cwestiwn.

© WJEC CBAC Ltd.

**AWGRYMIADAU AR GYFER CYNNWYS CWESTIWN 1**

*NODER: Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd a welir isod. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth berthnasol bellach a gynigir gan ymgeiswyr. Dylid asesu pob ateb yn ôl ei haeddiant, yn unol â'r grid asesu yn ogystal â'r awgrymiadau ar gyfer cynnwys.*

**Gan gyfeirio at y ffynonellau a defnyddio'r hyn rydych yn ei ddeall am y cyd-destun hanesyddol, aseswch werth y tair ffynhonnell hyn i hanesydd sy'n astudio amodau byw yng Nghymru cyn 1918.**

Disgwylir i ymgeiswyr arddangos eu gallu i ddadansoddi a gwerthuso amrediad o ddeunydd ffynhonnell gyda mesur helaeth o ddidoli. Dylai'r sgiliau gwerthuso ffynonellau ganolbwyntio ar drafod cryfderau a chyfyngiadau'r ffynonellau a nodir. Ar gyfer barnu eu defnyddioldeb, dylid ystyried cynnwys ac awduraeth y ffynonellau a nodir er mwyn trafod eu dibynadwyedd, gogwydd, pwrpas a dilysrwydd, fel bo'n briodol.

Bydd ymgeiswyr yn ystyried gwerth y ffynonellau i hanesydd sy'n astudio amodau byw yng Nghymru cyn 1918. Dylai'r ymgeisydd ddefnyddio'r hyn mae'n ei wybod am y cyd-destun hanesyddol i ddadansoddi a gwerthuso cryfderau a chyfyngiadau'r ffynonellau. Gellir gwneud sylwadau priodol wrth ddadansoddi a gwerthuso'r ffynonellau yn cynnwys:

- Mae Ffynhonnell A yn awgrymu bod yr amodau byw yng Nghymru lawer yn well na'r hyn roedd yr awdur yn ei ddisgwyl ar ei ymweliad â Chaerdydd. Mae hyn yn werthfawr i hanesydd gan ei fod yn dangos bod syniadau rhai pobl ar y pryd ynglŷn â Chymru yn amlwg yn hollol groes i'r amodau yng Nghaerdydd. Mae'r ffynhonnell yn gyfyngedig gan ei bod yn canolbwyntio ar Gaerdydd yn unig heb roi ystyriaeth i'r ardaloedd sydd i'w gweld yn Ffynonellau B ac C. Mae naws y ffynhonnell yn awgrymu y dylai'r hanesydd fod yn ymwybodol o'r gwahaniaeth dosbarth rhwng darllenwyr yr erthygl a'u syniadau nhw ynglŷn â'r amodau byw yn ardaloedd diwydiannol y dosbarth gweithiol yn ôl yr hyn roedden nhw'n ei gredu oedd yn bodoli yng Nghymru. Mae'r ffynhonnell yn rhoi tystiolaeth gywir a dibynadwy, sydd o werth i hanesydd, am yr amodau yng Nghaerdydd os nad yn ardaloedd eraill Cymru.
- Mae Ffynhonnell B yn werthfawr i hanesydd gan ei bod yn cyfleu safbwynt y perchenogion glo a'u swyddogion oedd yn awyddus i roi'r bai am yr amodau byw gwael ar y bobl eu hunain tra'n tynnu sylw at rai o'r gwelliannau a wnaed gan y perchenogion ac eraill. Dylai'r hanesydd fod yn ymwybodol o natur unochrog tystiolaeth y meddyg oedd yn gweithio i'r perchenogion a byddai'n ei chael yn anodd i gysoni hynny â'r dystiolaeth yn Ffynhonnell C. Mae naws y ffynhonnell yn ymddangos yn unochrog gyda'i sylwadau ffafriol am y cyflogwyr a'i beirniadaeth o'r gweithwyr, gan y byddai'r hanesydd yn deall, yng nghyd-destun y Gymru ddiwydiannol, fod yr isadeiledd mewn ardaloedd fel Cwm Rhondda yn achosi pryder ar y pryd. Byddai'r hanesydd yn ymwybodol hefyd o bwrpas yr adroddiad ac amcanion posibl yr awdur.
- Mae Ffynhonnell C yn ymddangos ei bod yn rhoi tystiolaeth i hanesydd bod yr amodau byw mewn rhai ardaloedd yng Nghymru yn anodd iawn er ei bod yn sôn, fel Ffynonellau A a B, am ran fach o Gymru, heb gyffwrdd â'r rhan fwyaf o arwynebedd daearyddol y wlad. Dylai'r hanesydd fod yn ymwybodol o'r ogwydd posibl mewn erthygl o bapur newydd cefnogol i hawliau'r gweithwyr, yn enwedig o gofio anghydfodau diwydiannol 1910. Byddai naws yr erthygl, yr ieithwedd emosiynol, y manylion am y corff marw ac yn enwedig y ffocws ar drueni un teulu yn achosi i'r hanesydd edrych yn fanwl ar bwrpas y dystiolaeth a roddwyd, er mwyn gallu cadarnhau gwirionedd y gosodiadau a cheisio gosod y dystiolaeth honno yng nghyd-destun yr amodau yng Nghaerdydd a Chymoedd y Rhondda yn ogystal ag yng ngweddill Cymru.

Yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn asesu gwerth y ffynonellau i hanesydd sy'n astudio'r amodau byw yng Nghymru cyn 1918. Byddant yn gallu dangos y gwerth hwnnw drwy ystyried cynnwys, tarddiad a thôn un o'r ffynonellau a gyflwynwyd, gan gyfeirio'n briodol at y cyd-destun hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r ffynonellau.

© WJEC CBAC Ltd.

**GRID ASESU AR GYFER CWESTIWN 1**

*Targed: AA2* *Marc uchaf: 30*

*Ffocws:* *Dadansoddi a gwerthuso deunydd ffynhonnell priodol, cynradd a/neu cyfoes, o fewn ei gyd-destun hanesyddol*

| Band | Marc | Disgrifydd |
|---|---|---|
| **6** | **26-30** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad cyson a chywir o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *darparu ffocws cyson ar werthuso'r ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn gyson ynghylch gwerth y ffynonellau ar gyfer yr ymholiad penodol* |
| **5** | **21-25** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos ffocws amlwg a chywir ar y dadansoddiad a'r gwerthusiad o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *darparu ffocws clir ar y cyfan ar werthuso'r ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn ddilys ynghylch gwerth y ffynonellau ar gyfer yr ymholiad penodol* |
| **4** | **16-20** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad dilys o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *gosod y ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn glir ynghylch gwerth y ffynonellau ar gyfer yr ymholiad penodol* |
| **3** | **11-15** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos peth dadansoddiad a gwerthusiad priodol o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *gwneud ymgais i osod y ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn gyfyngedig ynghylch gwerth dwy o leiaf o'r ffynonellau* |
| **2** | **6-10** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *deall a thynnu allan wybodaeth o'r ffynonellau gyda pheth cyfeiriad at awduraeth y deunydd a ddarparwyd*<br>• *gwneud ymgais gyfyngedig i osod y ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad*<br>• *cynnig barn gyfyngedig ynghylch gwerth un o leiaf o'r ffynonellau* |
| **1** | **1-5** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *deall a thynnu allan beth o'r deunydd ffynhonnell* |
| **Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol** | | |

© WJEC CBAC Ltd.

## Canllaw marcio i arholwyr ar gyfer Cwestiwn 2

### Crynodeb o’r amcanion asesu ar gyfer Cwestiwn 2

Mae Cwestiwn 2 yn asesu amcan asesu 3. Elfen unigol yw’r amcan asesu hwn sy’n canolbwyntio ar y gallu i ddadansoddi a gwerthuso sut a pham y cafodd dehongliadau hanesyddol gwahanol eu gwneud. Y marc a ddyfernir i Gwestiwn 2 yw 30.

### Strwythur y cynllun marcio

Mae dwy ran i’r cynllun marcio ar gyfer Cwestiwn 2:

- cyngor ar y cwestiwn penodol yn amlinellu awgrymiadau ar gyfer cynnwys y gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd yr ymateb penodol. Nid yw’r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o’r deunydd sydd ynddo. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth dderbyniol bellach a gynigir gan ymgeiswyr.

- grid asesu sy’n rhoi cyngor ar ba fandiau a marciau y dylid eu rhoi i ymatebion sy’n dangos y nodweddion angenrheidiol ar gyfer amcan asesu 3.

### Penderfynu ar y marc i’w ddyfarnu o fewn band

Y cam cyntaf i arholwr yw penderfynu ar y band cyffredinol. Yr ail gam yw penderfynu pa mor gadarn mae’r nodweddion a ddisgwylir ar y band hwnnw yn cael eu cyfleu. Yna, yn drydydd, gellir rhoi’r marc terfynol ar gyfer y cwestiwn.

© WJEC CBAC Ltd.

**AWGRYMIADAU AR GYFER CYNNWYS CWESTIWN 2**

*NODER: Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd a welir isod. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth berthnasol bellach a gynigir gan ymgeiswyr. Dylid asesu pob ateb yn ôl ei haeddiant, yn unol â'r grid asesu yn ogystal â'r awgrymiadau ar gyfer cynnwys.*

## Pa mor ddilys yw'r safbwynt bod Lloyd George yn wleidydd effeithiol?

Disgwylir i ymgeiswyr arddangos dealltwriaeth o'r ffordd y cafodd agweddau ar y gorffennol eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol. Bydd yr atebion yn ystyried y deunydd a ddarparwyd ynghyd â'r hyn y mae'r ymgeisydd yn ei ddeall am y cyd-destun hanesyddol a'r ddadl hanesyddol ehangach wrth lunio barn am ddilysrwydd y safbwynt bod Lloyd George yn wleidydd effeithiol.

Gwahoddir ymgeiswyr i gymryd ran mewn dadl ar y safbwynt i ba raddau roedd Lloyd George yn wleidydd effeithiol. Bydd y dysgwyr yn ystyried dehongliadau o'r mater hwn o fewn y ddadl hanesyddol ehangach am effeithiolrwydd Lloyd George fel gwleidydd. Gall rhai o'r materion i'w hystyried gynnwys:

- Mae Dehongliad 1 yn dadlau bod Lloyd George yn wleidydd effeithiol oedd yn wynebu'r sialens oddi wrth lafur cyfundrefnol, ac esgyniad y mudiad Llafur fel grym gwleidyddol newydd drwy geisio ennill cefnogaeth o bob carfan o'r etholwyr drwy ganolbwyntio ar y ddadl ar y "meistri tir barus" yn hytrach nag ar y Pwyllgor Cynrychioli Llafur (*LRC*) newydd oedd yn honni ei fod yn cynrychioli'r dosbarthiadau gweithiol.
- Wrth ddadansoddi a gwerthuso Dehongliad 1 gall yr atebion ddadlau bod hwn yn ddehongliad dilys oherwydd bod Lloyd George yn aelod amlwg o lywodraethau Rhyddfrydol 1906-1914 a bod ganddo ran allweddol yn nigwyddiadau Cyllideb y Bobl a'r Argyfwng Cyfansoddiadol. Gellir gosod ei ymgyrch, sef "Y Bobl yn erbyn yr Arglwyddi", yng nghyd-destun y dadleuon etholiadol rhwng y Rhyddfrydwyr, y Ceidwadwyr a'r Blaid Lafur newydd. Byddai awdur y ffynhonnell yn gallu tynnu ar amrediad o ffynonellau cynradd a gwaith haneswyr arbenigol eraill, a gan ei fod yn ysgrifennu mewn bywgraffiad a fyddai'n cael ei adolygu'n eang roedd yn gorfod cynnig dehongliad gyda chefnogaeth lawn.
- Mae Dehongliad 2 yn dadlau er bod Lloyd George wedi'i ysgogi gan ddirmyg tuag at y dosbarth uchaf roedd e'n wleidydd effeithiol, wedi'i ymrwymo i newid pethau er budd y dyn cyffredin. Er hynny, mae'r ffynhonnell yn awgrymu y gallai ei effeithiolrwydd fod wedi'i gyfyngu oherwydd ei gymeriad a'i ymddygiad.
- Wrth ddadansoddi a gwerthuso Dehongliad 2 gall yr atebion ddadlau bod hwn yn ddehongliad dilys gan fod yr awdur yn awgrymu er y gallai gwendidau Lloyd George fod wedi cyfyngu ei effeithiolrwydd roedd yn gallu mynd â phethau ymlaen i'r pen – fel yn yr Argyfwng Cyfansoddiadol ac yna fel Gweinidog Arfau a Phrif Weinidog yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd Lloyd George yn effeithiol yn gwthio cyfres o ddiwygiadau yn y Bwrdd Masnach, yn y Trysorlys ac yn Stryd Downing, ac roedd gofyn iddo fod yn wleidydd effeithiol i godi o'i safle ef mewn bywyd i swydd y Prif Weinidog. Roedd yr awdur wedi cynhyrchu ei waith tua degawd ar ôl marwolaeth Lloyd George a byddai'n ymwybodol iawn o'r cyhuddiadau o fod yn oportiwnydd a wnaed yn erbyn Lloyd George yn y cyfnod ar ôl iddo wthio Asquith o'i swydd yn 1916, a'i fod wedi achosi rhwyg yn y Blaid Ryddfrydol a'i gwymp yn 1922, ond hefyd honiadau ei gefnogwyr sy'n ei ystyried fel amddiffynnydd y dyn cyffredin ac yn 1918 fel yr arweinydd effeithiol – y "Dyn a enillodd y Rhyfel."
- Gall ymgeiswyr ddangos ymwybyddiaeth o'r ddadl hanesyddol ehangach ynglŷn â'r mater hwn, megis safbwyntiau gwahanol y rhai sy'n portreadu Lloyd George fel gwleidydd effeithiol ac egwyddorol a'r rhai sy'n ei weld fel oportiwnydd gwleidyddol hunanfanteisiol.

Bydd ymgeiswyr yn gyffredinol yn dadansoddi'r ddau ddehongliad gan ddefnyddio'r hyn maen nhw'n ei ddeall am y ddadl ynglŷn â'r mater hwn, yn cynnig gwerthuso dilysrwydd y dehongliadau a roddwyd a rhoi barn am y mater yn y cwestiwn, sef bod Lloyd George yn wleidydd effeithiol.

© WJEC CBAC Ltd.

**GRID ASESU AR GYFER CWESTIWN 2**

*Targed: AA3* *Marc uchaf: 30*

*Ffocws:* *Mewn perthynas â'r cyd-destun hanesyddol, dadansoddi a gwerthuso'r ffyrdd gwahanol y cafodd agweddau ar y gorffennol eu dehongli*

| Band | Marc | Disgrifydd |
|---|---|---|
| **6** | **26-30** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad cyson o'r deunydd a roddwyd ac yn ei ddefnyddio'n effeithiol i drafod sut a pham y cafodd dehongliadau gwahanol eu ffurfio*<br>• *darparu ffocws cyson ar werthuso'r dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *arddangos ymwybyddiaeth glir o ddehongliadau gwahanol o'r mater a osodwyd* |
| **5** | **21-25** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos ffocws clir a chywir yn y dadansoddiad a'r gwerthusiad o'r deunydd a roddwyd i ddangos sut a pham y cafodd dehongliadau gwahanol eu ffurfio*<br>• *darparu ffocws clir ar y cyfan ar werthuso'r dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *dangos sut y cafodd y mater ei ddehongli mewn ffyrdd gwahanol* |
| **4** | **16-20** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad dilys o'r deunydd a roddwyd i nodi dehongliadau gwahanol*<br>• *gosod y ddau ddehongliad yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *dangos ymwybyddiaeth o ddehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **3** | **11-15** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos rhai sylwadau priodol mewn perthynas â'r dadansoddiad a'r gwerthusiad o'r deunydd a roddwyd i nodi dehongliadau gwahanol*<br>• *gwneud ymgais i osod y dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *dangos peth ymwybyddiaeth o ddehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **2** | **6-10** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *deall peth o'r deunydd a roddwyd gan ddangos dadansoddiad cyfyngedig yn unig*<br>• *gwneud ymgais gyfyngedig i osod y dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad*<br>• *dangos peth ymwybyddiaeth o'r dehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **1** | **1-5** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *tynnu gwybodaeth o'r deunydd a roddwyd*<br>• *cynnwys cyfeiriad gwan at ddehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol** | | |

© WJEC CBAC Ltd.

**HANES UG**

**UNED 2**

**ASTUDIAETH FANWL 5**

**Y DIWYGIAD CREFYDDOL YN EWROP, tua 1500–1564**

**RHAN 1: DECHREUAD A LLEDAENIAD Y DIWYGIAD PROTESTANNAIDD YN YR ALMAEN, tua 1500–1531**

**PAPUR ENGHREIFFTIOL**

**1 awr 45 munud**

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â’r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch y **ddau** gwestiwn ar y papur.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.

Dylech dreulio tua 50 munud ar bob cwestiwn.

Mae’n bosibl fod y ffynonellau a’r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi’u diwygio neu eu haddasu o’r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

© WJEC CBAC Ltd.

**UNED 2**

**ASTUDIAETH FANWL 5**

**Y DIWYGIAD CREFYDDOL YN EWROP, tua 1500–1564**

**RHAN 1: DECHREUAD A LLEDAENIAD Y DIWYGIAD PROTESTANNAIDD YN YR ALMAEN, tua 1500–1531**

Atebwch y **ddau** gwestiwn ar y papur hwn

**CWESTIWN 1**

Astudiwch y ffynonellau isod ac atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.

**Ffynhonnell A**

Gan na all gwirionedd wrthddweud gwirionedd, rydym yn datgan bod pob gosodiad sy'n groes i wirionedd goleuedig ffydd yn hollol ffug ac rydym yn gwahardd ei addysgu yn gyfan gwbl. Rydym yn ordeinio y dylai pob un sy'n glynu wrth osodiadau ffug fel hyn, ac sydd felly'n hau heresïau sydd i'w condemnio yn llwyr, gael eu hosgoi ym mhob ffordd a'u cosbi fel hereticiaid atgas ac aflan ac fel anghredinwyr sy'n tanseilio'r ffydd Gatholig. Yn ogystal, rydym yn rhoi gorchymyn caeth i bob athronydd sy'n addysgu'n gyhoeddus yn y prifysgolion a mannau eraill, pan fyddant yn egluro egwyddorion neu gasgliadau athronwyr i'w cynulleidfa (lle mae'n wybyddus fod y rhain yn wahanol i'r ffydd wirioneddol, drwy awgrymu marwoldeb yr enaid er enghraifft neu sôn am fodolaeth un enaid yn unig), maent dan rwymedigaeth i gysegru pob ymdrech o'u heiddo i egluro gwirionedd y grefydd Gristnogol i'w gwrandawyr.

[Rhan o archddyfarniad dan y teitl: 'Condemniad ar Bob Gosodiad sy'n Groes i Wirionedd y Ffydd Gristnogol', a gafodd ei gyhoeddi gan y Pumed Gyngor Lateran (Rhagfyr 1513)]

**Ffynhonnell B**

6. Nid yw'r Pab yn gallu maddau unrhyw euogrwydd, ac eithrio drwy ddatgan a dangos bod hynny wedi'i faddau gan Dduw.

13. Mae'r rhai sydd ar farw yn rhydd o bob cosb, maent yn farw eisoes cyhyd â bod y cyfreithiau canonaidd yn y cwestiwn ac mae hawl ganddynt i gael eu rhyddhau o euogrwydd.

21. Mae pregethwyr maddeuebau yn anghywir pan ddywedant bod dyn wedi'i ryddhau o bob cosb drwy faddeuebau'r Pab.

43. Dylai Cristnogion gael eu haddysgu bod rhywun sy'n rhoi i'r tlodion, neu sy'n rhoi benthyg i'r anghenus, yn gweithredu'n well nag y byddai pe bai'n prynu pardynau.

45. Dylai Cristnogion gael eu haddysgu nad prynu maddeuebau pabaidd ond digofaint Duw mae'r hwn sy'n gweld dyn anghenus ac yna'n mynd heibio iddo, ac wedyn yn rhoi ei arian am faddeuebau.

[Martin Luther yn ysgrifennu yn ei Naw Deg a Phum Pwnc (1517)]

© WJEC CBAC Ltd.

**Ffynhonnell C**

> Puro crefydd fyddwn i'n ei wneud heb ddinistrio awdurdod. Gallai arferion yr Eglwys sydd wedi mynd yn llwgr o gael eu defnyddio cyhyd gael eu cywiro'n raddol heb greu dryswch cyffredinol. Mae Luther yn ystyried bod rhai pethau, fel gwerthu maddeuebau, yn ddrygionus, ac wrth ymosod ar hynny mae'n achosi mwy o ddrwg na'r hyn sydd eisiau arno. Trefnwch chi fodau dynol fel y mynnwch, bydd digon o feiau ar ôl o hyd ac mae rhai meddyginiaethau sy'n waeth na'r afiechyd. Byddai'n dda o beth pe bai Luther wedi ceisio cyn galeted i wella pabau a thywysogion ag i ddatgelu eu beiau. Efallai y daw i ofidio pabau ac esgobion. Mae'r diafol yn greadur cyfrwys a gallai llwyddiant fel y cafodd Luther andwyo'r mwyaf diymhongar o blith dynion.

[Erasmus, dyneiddiwr blaenllaw, yn ysgrifennu mewn llythyr at y diwygiwr, Philip Melanchthon (1524)]

Gan gyfeirio at y ffynonellau a defnyddio'r hyn rydych yn ei ddeall am y cyd-destun hanesyddol, aseswch werth y tair ffynhonnell hyn i hanesydd sy'n astudio'r feirniadaeth ar yr Eglwys Gatholig erbyn 1524. [30]

© WJEC CBAC Ltd.

**CWESTIWN 2**

Astudiwch y darnau isod ac atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.

**Dehongliad 1**

Roedd meddylfryd Martin Luther yn arbennig, ei emosiwn dwys a'r syniadau a sefydlodd i gyd wedi helpu'r Diwygiad fel mudiad i ddilyn y llwybr a wnaeth, ac i chwalu undod Gwledydd Cred. Roedd e'n ymateb i anfodlonrwydd eang â chrefydd gyfoes ac yna aeth y mudiad a ddechreuodd Luther o nerth i nerth dan bwysau defosiwn crefyddol ac uchelgais seciwlar a dechreuodd hynny chwyldro byd-eang. Roedd diwygwyr eraill yn dibynnu i raddau mwy neu lai ar yr hyn roedd Luther wedi'i gyflawni eisoes. Syniadau Martin Luther a osododd y sail ar gyfer unigolyddiaeth wleidyddol ac economaidd. Roedd e wedi chwalu undod yr Eglwys.

[V. H. H. Green, hanesydd academaidd, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr cyffredinol ar newid yn Ewrop, *Renaissance and Reformation* (1964)]

**Dehongliad 2**

Does dim amheuaeth nad oedd llawer o fomentwm cynnar helynt Luther i'w briodoli i'r ffaith fod yr helynt yn cael ei ystyried yn ddigwyddiad cenedlaethol. I lawer o bobl, doedd yn ddim mwy na chystadleuaeth arall rhwng y genedl Almaenig a Rhufain. Mewn llawer ffordd, roedd Luther yn cael ei weld yn ddim mwy nag arweinydd mewn enw neu lefarydd ar gyfer buddiannau cenedlaethol. Nid helynt Luther chwaith oedd yr achlysur cyntaf i feirniadaeth gael ei hanelu at y diwinyddwyr sgolastig. Roedd dyneiddwyr a diwinyddwyr wedi bod yn ymosod ar ei gilydd ers degawdau, ac i lawer o gefnogwyr cynharaf Luther roedd y ddadl yn cael ei hystyried fel pennod arall eto yn y gynnen hirhoedlog honno.

[C. Scott Dixon, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes Ewrop, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr arbenigol, *The Reformation in Germany* (2002)]

Mae haneswyr wedi llunio dehongliadau gwahanol ynghylch rôl Martin Luther yn nechreuad y Diwygiad Protestannaidd yn yr Almaen. Dadansoddwch, gwerthuswch a defnyddiwch y ddau ddarn uchod, a defnyddio'r hyn rydych chi'n ei ddeall am y ddadl hanesyddol, i ateb y cwestiwn canlynol:

Pa mor ddilys yw'r safbwynt mai Martin Luther oedd yn gyfrifol am ddechrau'r Diwygiad Protestannaidd yn yr Almaen? [30]

© WJEC CBAC Ltd.

**UNED 2**

**ASTUDIAETH FANWL 5**

**Y DIWYGIAD CREFYDDOL YN EWROP, tua 1500–1564**

**RHAN 1: DECHREUAD A LLEDAENIAD Y DIWYGIAD PROTESTANNAIDD YN YR ALMAEN, tua 1500–1531**

**CYNLLUN MARCIO**

**Canllaw marcio i arholwyr ar gyfer Cwestiwn 1**

**Crynodeb o'r amcanion asesu ar gyfer Cwestiwn 1**

Mae Cwestiwn 1 yn asesu amcan asesu 2. Elfen unigol yw'r amcan asesu hwn sy'n canolbwyntio ar y gallu i ddadansoddi a gwerthuso deunydd ffynhonnell cyfoes yn ei gyd-destun hanesyddol. Y marc a ddyfernir i Gwestiwn 1 yw 30.

**Strwythur y cynllun marcio**

Mae dwy ran i'r cynllun marcio ar gyfer Cwestiwn 1:

- cyngor ar y cwestiwn penodol yn amlinellu awgrymiadau ar gyfer cynnwys y gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd yr ymateb penodol. Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd sydd ynddo. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth dderbyniol bellach a gynigir gan ymgeiswyr.

- grid asesu sy'n rhoi cyngor ar ba fandiau a marciau y dylid eu rhoi i ymatebion sy'n dangos y nodweddion angenrheidiol ar gyfer amcan asesu 2.

**Penderfynu ar y marc i'w ddyfarnu o fewn band**

Y cam cyntaf i arholwr yw penderfynu ar y band cyffredinol. Yr ail gam yw penderfynu pa mor gadarn mae'r nodweddion a ddisgwylir ar y band hwnnw yn cael eu cyfleu. Yna, yn drydydd, gellir rhoi'r marc terfynol ar gyfer y cwestiwn.

© WJEC CBAC Ltd.

**AWGRYMIADAU AR GYFER CYNNWYS CWESTIWN 1**

*NODER: Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd a welir isod. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth berthnasol bellach a gynigir gan ymgeiswyr. Dylid asesu pob ateb yn ôl ei haeddiant, yn unol â'r grid asesu yn ogystal â'r awgrymiadau ar gyfer cynnwys.*

**Gan gyfeirio at y ffynonellau a defnyddio'r hyn rydych yn ei ddeall am y cyd-destun hanesyddol, aseswch werth y tair ffynhonnell hyn i hanesydd sy'n astudio'r feirniadaeth ar yr Eglwys Gatholig erbyn 1524.**

Disgwylir i ymgeiswyr arddangos eu gallu i ddadansoddi a gwerthuso amrediad o ddeunydd ffynhonnell gyda mesur helaeth o ddidoli. Dylai'r sgiliau gwerthuso ffynonellau ganolbwyntio ar drafod cryfderau a chyfyngiadau'r ffynonellau a nodir. Ar gyfer barnu eu defnyddioldeb, dylid ystyried cynnwys ac awduraeth y ffynonellau a nodir er mwyn trafod eu dibynadwyedd, gogwydd, pwrpas a dilysrwydd, fel bo'n briodol.

Bydd ymgeiswyr yn ystyried gwerth y ffynonellau i hanesydd sy'n astudio'r feirniadaeth ar yr Eglwys Gatholig erbyn 1524. Dylai'r ymgeisydd ddefnyddio'r hyn mae'n ei wybod am y cyd-destun hanesyddol i ddadansoddi a gwerthuso cryfderau a chyfyngiadau'r ffynonellau. Gellir gwneud sylwadau priodol wrth ddadansoddi a gwerthuso'r ffynonellau yn cynnwys:

- Archddyfarniad swyddogol yw Ffynhonnell A oddi wrth yr hierarchaeth eglwysig. Cafodd ei hysgrifennu cyn ymosodiad Luther ond ar ôl i waith Erasmus gael ei gyhoeddi. Ymgais ydyw i wrthwynebu'r feirniadaeth ar yr Eglwys Gatholig. Mae'r Eglwys yn ei gweld ei hun yn benderfynol o ymosod ar yr hyn mae hi'n ei ystyried sy'n ddysgeidiaeth ffug a heresi, ac felly mae'n cadarnhau dysgeidiaeth Gatholig unwaith eto. Mae naws y ffynhonnell yn amddiffynnol gan ei bod yn ei hanfod yn bropaganda Catholig wedi'i chyhoeddi'n fwriadol i ennyn teyrngarwch a chydymffurfiad tuag at y 'ffydd wirioneddol'. Mae teitl yr archddyfarniad yn dangos amharodrwydd llwyr ar ran yr Eglwys Gatholig i dderbyn beirniadaeth a'i phenderfyniad i fynnu bod unrhyw gynnig arall yn ddim mwy na chelwydd. Mae'r ffynhonnell er hynny yn dystiolaeth werthfawr i hanesydd sy'n astudio'r Eglwys Gatholig a'i hamharodrwydd i dderbyn y feirniadaeth a anelwyd ati.
- Mae Ffynhonnell B yn rhan o Naw Deg a Phump Pwnc Luther. Mae'r Pynciau hyn yn cael eu hystyried fel rheol yn osodiadau cywir o'i bryderon ac maen nhw'n ffeithiol ar y cyfan ac wedi'u cefnogi. Mae'r dyfyniad hwn o'r 'Pynciau' yn canolbwyntio ar fater y maddeuebau oedd yn ganolog i'r feirniadaeth ar yr Eglwys ond rhan yn unig oedd hynny o feirniadaeth ehangach. Mae'r ffynhonnell hon yn werthfawr i haneswyr gan fod Pynciau Martin Luther yn cael eu hystyried yn aml fel y ddogfen a osododd yr her i'r Eglwys, ac yna a ddwysaodd y ddadl ynghylch hawl awdurdod estron i drethu pobl yr Almaen. Heriodd Luther y rhagosodiad y gallai rhywun gael maddeuant drwy werthiant maddeuebau. Roedd e'n gweld maddeuebau fel cynllun i godi arian gan awdurdod o'r tu allan i'r Almaen.
- Mae Ffynhonnell C yn rhan o waith Erasmus, yr ysgolhaig dyneiddiol blaenllaw. Mae'n rhoi safbwynt beirniadol ynglŷn â rhai o arferion yr Eglwys sefydledig ond nid yw'n mynd cyn belled â galw am rwygo'r Eglwys Gatholig. Cafodd y ffynhonnell hon ei hysgrifennu yn 1524, ac mae'n enghraifft nodweddiadol o'r ohebiaeth oedd yn cylchredeg ar y pryd rhwng beirniaid yr Eglwys Gatholig. Mae llythyrau fel hyn sy'n debygol o ddatgelu meddyliau personol rhywun yn dangos hefyd bod gwahaniaethau barn gwirioneddol yn bod rhwng y diwygwyr hyd yn oed ynglŷn â'r ffordd ymlaen. Yn yr achos hwn, mae Erasmus yn awyddus i ddiwygio pabau ac esgobion yn hytrach na datgelu eu gwendidau yn unig. Mae naws y ffynhonnell yn dangos rhwystredigaeth a diffyg amynedd Erasmus tuag at Luther, sydd wedi mynd â'i feirniadaethau ef ymhellach nag oedd wedi'i ddychmygu erioed. Felly mae'r ffynhonnell hon yn ddibynadwy i haneswyr sy'n astudio'r feirniadaeth ar yr Eglwys Gatholig gan ei bod yn dangos y gwahaniaethau rhwng natur a maint y beirniadaethau hynny.

Bydd ymgeiswyr yn gyffredinol yn asesu gwerth y ffynonellau i hanesydd sy'n astudio'r feirniadaeth ar yr Eglwys Gatholig erbyn 1524. Byddant yn gallu arddangos y gwerth hwnnw drwy ystyried cynnwys, tarddiad a naws y ffynonellau a roddwyd gyda chyfeiriadau priodol at y cyd-destun hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r ffynonellau.

© WJEC CBAC Ltd.

**GRID ASESU AR GYFER CWESTIWN 1**

*Targed: AA2* *Marc uchaf: 30*

*Ffocws:* *Dadansoddi a gwerthuso deunydd ffynhonnell priodol, cynradd a/neu cyfoes, o fewn ei gyd-destun hanesyddol*

| Band | Marc | Disgrifydd |
|---|---|---|
| **6** | **26-30** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad cyson a chywir o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *darparu ffocws cyson ar werthuso'r ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn gyson ynghylch gwerth y ffynonellau ar gyfer yr ymholiad penodol* |
| **5** | **21-25** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos ffocws amlwg a chywir ar y dadansoddiad a'r gwerthusiad o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *darparu ffocws clir ar y cyfan ar werthuso'r ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn ddilys ynghylch gwerth y ffynonellau ar gyfer yr ymholiad penodol* |
| **4** | **16-20** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad dilys o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *gosod y ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn glir ynghylch gwerth y ffynonellau ar gyfer yr ymholiad penodol* |
| **3** | **11-15** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos peth dadansoddiad a gwerthusiad priodol o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *gwneud ymgais i osod y ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn gyfyngedig ynghylch gwerth dwy o leiaf o'r ffynonellau* |
| **2** | **6-10** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *deall a thynnu allan wybodaeth o'r ffynonellau gyda pheth cyfeiriad at awduraeth y deunydd a ddarparwyd*<br>• *gwneud ymgais gyfyngedig i osod y ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad*<br>• *cynnig barn gyfyngedig ynghylch gwerth un o leiaf o'r ffynonellau* |
| **1** | **1-5** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *deall a thynnu allan beth o'r deunydd ffynhonnell* |
| **Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol** | | |

© WJEC CBAC Ltd.

## Canllaw marcio i arholwyr ar gyfer Cwestiwn 2

### Crynodeb o'r amcanion asesu ar gyfer Cwestiwn 2

Mae Cwestiwn 2 yn asesu amcan asesu 3. Elfen unigol yw'r amcan asesu hwn sy'n canolbwyntio ar y gallu i ddadansoddi a gwerthuso sut a pham y cafodd dehongliadau hanesyddol gwahanol eu gwneud. Y marc a ddyfernir i Gwestiwn 2 yw 30.

### Strwythur y cynllun marcio

Mae dwy ran i'r cynllun marcio ar gyfer Cwestiwn 2:

- cyngor ar y cwestiwn penodol yn amlinellu awgrymiadau ar gyfer cynnwys y gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd yr ymateb penodol. Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd sydd ynddo. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth dderbyniol bellach a gynigir gan ymgeiswyr.

- grid asesu sy'n rhoi cyngor ar ba fandiau a marciau y dylid eu rhoi i ymatebion sy'n dangos y nodweddion angenrheidiol ar gyfer amcan asesu 3.

### Penderfynu ar y marc i'w ddyfarnu o fewn band

Y cam cyntaf i arholwr yw penderfynu ar y band cyffredinol. Yr ail gam yw penderfynu pa mor gadarn mae'r nodweddion a ddisgwylir ar y band hwnnw yn cael eu cyfleu. Yna, yn drydydd, gellir rhoi'r marc terfynol ar gyfer y cwestiwn.

© WJEC CBAC Ltd.

**AWGRYMIADAU AR GYFER CYNNWYS CWESTIWN 2**

*NODER: Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd a welir isod. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth berthnasol bellach a gynigir gan ymgeiswyr. Dylid asesu pob ateb yn ôl ei haeddiant, yn unol â'r grid asesu yn ogystal â'r awgrymiadau ar gyfer cynnwys.*

## Pa mor ddilys yw'r safbwynt mai Martin Luther oedd yn gyfrifol am ddechrau'r Protestannaidd Diwygiad yn yr Almaen?

Disgwylir i ymgeiswyr arddangos dealltwriaeth o'r ffordd y cafodd agweddau ar y gorffennol eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol. Bydd yr atebion yn ystyried y deunydd a ddarparwyd ynghyd â'r hyn y mae'r ymgeisydd yn ei ddeall am y cyd-destun hanesyddol a'r ddadl hanesyddol ehangach wrth lunio barn am ddilysrwydd y safbwynt mai Martin Luther oedd yn gyfrifol am ddechrau'r Diwygiad Protestannaidd yn yr Almaen.

Gwahoddir ymgeiswyr i gymryd ran mewn dadl ar y safbwynt mai Martin Luther oedd yn gyfrifol am ddechrau'r Diwygiad yn yr Almaen. Bydd y dysgwyr yn ystyried dehongliadau o'r mater hwn o fewn y ddadl hanesyddol ehangach am gyfrifoldeb am y Diwygiad Protestannaidd. Gall rhai o'r materion i'w hystyried gynnwys:

- Mae Dehongliad 1 yn dadlau bod Luther wedi cael dylanwad mawr ar y Diwygiad Protestannaidd gan ei fod wedi rhoi undod i'r feirniadaeth gyffredinol ar yr Eglwys ac wedi dechrau chwyldro byd-eang.
- Wrth ddadansoddi a gwerthuso Dehongliad 1 gall yr atebion ddadlau bod Green yn dangos dehongliad oedd yn dderbyniol i haneswyr oedd yn astudio yn yr 1960au, ond sydd wedi'i herio erbyn hyn. Llyfr cyffredinol ar gyfer darllenwyr yn gyffredinol sydd ganddo hefyd ac mae'n rhoi crynodeb o'r safbwynt traddodiadol ynglŷn â Luther ei fod yn ddyn mawr ac yn arweinydd ysbrydoledig. O ganlyniad i hynny cafodd ddylanwad enfawr ar gyfeiriad y Diwygiad Protestannaidd yn yr Almaen a thu hwnt i'r wlad honno. O'i weld felly, Luther oedd yn gyfrifol am y Diwygiad Protestannaidd. Mae safbwynt felly'n trafod y Diwygiad Protestannaidd o fewn cyd-destun cyfyngedig sydd wedi dod yn fater dadleuol erbyn hyn.
- Mae Dehongliad 2 yn dadlau mai arweinydd mewn enw yn unig ar y Diwygiad Protestannaidd oedd Luther, a'i fod yn ymwneud mwy â chenedlaetholdeb a'r ymgyrch wleidyddol hirhoedlog rhwng yr Almaen a'r Fatican.
- Wrth ddadansoddi a gwerthuso Dehongliad 2 mae'n ymddangos mai cyfrannu un bennod arall yn unig mewn ymgyrch hirhoedlog â'r Eglwys Gatholig a wnaeth Luther. Roedd y diwinyddwyr sgolastig wedi bod yn darged i feirniadaeth ers degawdau. O'i weld felly, roedd dadl Luther yn cael ei gweld fel pennod arall mewn cynnen hirhoedlog. Dyma yw barn hanesydd adolygiadol sydd wedi ystyried mae'n debyg ddehongliadau haneswyr cynharach. O gofio'r angen am gydbwysedd, rhoddir sylw i gyd-destun y Diwygiad Protestannaidd. Byddai awdur y ffynhonnell, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes Ewrop, yn 2014 wedi gallu cael amrediad o ffynonellau cynradd a gwaith haneswyr fel Green i'w hystyried. Mae ef hefyd yn ysgrifennu mewn astudiaeth arbenigol sydd wedi'i chanolbwyntio'n gyfan gwbl ar y Diwygiad Protestannaidd yn yr Almaen.
- Gall ymgeiswyr ddangos ymwybyddiaeth o'r ddadl hanesyddol ehangach ynglŷn â'r mater hwn, megis natur gyfnewidiol yr hanesyddiaeth ynglŷn â newid crefyddol ar y pryd a'r diddymu yn enwedig. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol yn arbennig o ddehongliadau eraill megis y gynnen economaidd a chymdeithasol a achosodd i'r Almaen fod yn barod ac yn agored ar gyfer newid neu'r safbwynt mai llygredd yr Eglwys Gatholig oedd y catalydd ar gyfer y diwygiad. Gellir sôn hefyd fel rhan o'r ddadl ehangach am y syniadau newydd a ddaeth yn sgil y ddadl ehangach.

Bydd ymgeiswyr yn gyffredinol yn dadansoddi'r ddau ddehongliad gan ddefnyddio'r hyn maen nhw'n ei ddeall am y ddadl ynglŷn â'r mater hwn, yn cynnig gwerthuso dilysrwydd y dehongliadau a roddwyd a rhoi barn am y mater yn y cwestiwn, sef mai Martin Luther oedd yn gyfrifol am ddechrau'r Diwygiad Protestannaidd yn yr Almaen.

© WJEC CBAC Ltd.

**GRID ASESU AR GYFER CWESTIWN 2**

*Targed: AA3* *Marc uchaf: 30*

*Ffocws:* *Mewn perthynas â'r cyd-destun hanesyddol, dadansoddi a gwerthuso'r ffyrdd gwahanol y cafodd agweddau ar y gorffennol eu dehongli*

| Band | Marc | Disgrifydd |
|---|---|---|
| **6** | **26-30** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad cyson o'r deunydd a roddwyd ac yn ei ddefnyddio'n effeithiol i drafod sut a pham y cafodd dehongliadau gwahanol eu ffurfio*<br>• *darparu ffocws cyson ar werthuso'r dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *arddangos ymwybyddiaeth glir o ddehongliadau gwahanol o'r mater a osodwyd* |
| **5** | **21-25** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos ffocws clir a chywir yn y dadansoddiad a'r gwerthusiad o'r deunydd a roddwyd i ddangos sut a pham y cafodd dehongliadau gwahanol eu ffurfio*<br>• *darparu ffocws clir ar y cyfan ar werthuso'r dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *dangos sut y cafodd y mater ei ddehongli mewn ffyrdd gwahanol* |
| **4** | **16-20** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad dilys o'r deunydd a roddwyd i nodi dehongliadau gwahanol*<br>• *gosod y ddau ddehongliad yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *dangos ymwybyddiaeth o ddehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **3** | **11-15** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos rhai sylwadau priodol mewn perthynas â'r dadansoddiad a'r gwerthusiad o'r deunydd a roddwyd i nodi dehongliadau gwahanol*<br>• *gwneud ymgais i osod y dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *dangos peth ymwybyddiaeth o ddehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **2** | **6-10** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *deall peth o'r deunydd a roddwyd gan ddangos dadansoddiad cyfyngedig yn unig*<br>• *gwneud ymgais gyfyngedig i osod y dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad*<br>• *dangos peth ymwybyddiaeth o'r dehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **1** | **1-5** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *tynnu gwybodaeth o'r deunydd a roddwyd*<br>• *cynnwys cyfeiriad gwan at ddehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol** | | |

© WJEC CBAC Ltd.

**HANES UG**

**UNED 2**

**ASTUDIAETH FANWL 6**

**FFRAINC YNG NGHYFNOD Y CHWYLDRO, tua 1774–1815**

**RHAN 1: FFRAINC: ACHOSION A HYNT Y CHWYLDRO, tua 1774–1792**

**PAPUR ENGHREIFFTIOL**

**1 awr 45 munud**

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch y **ddau** gwestiwn ar y papur.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.

Dylech dreulio tua 50 munud ar bob cwestiwn.

Mae'n bosibl fod y ffynonellau a'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

© WJECCBAC Ltd.

**UNED 2**

**ASTUDIAETH FANWL 6**

**FFRAINC YNG NGHYFNOD Y CHWYLDRO, tua 1774–1815**

**RHAN 1: FFRAINC: ACHOSION A HYNT Y CHWYLDRO, tua 1774–1792**

Atebwch y **ddau** gwestiwn ar y papur.

**CWESTIWN 1**

Astudiwch y ffynonellau isod ac atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.

**Ffynhonnell A**




[Print o'r cyfnod yn dangos pobl o'r Drydedd Stad yn dwyn baich ariannol y trethi yn ystod yr *ancien régime*. Ystyr y capsiwn yw 'Y bobl dan yr *ancien régime*' (tua 1789)]

© WJECCBAC Ltd.

**Ffynhonnell B**

Mae llais y bobl i'w glywed yn egwan o bryd i'w gilydd yn y gwrthdystiadau sy'n cael eu cyhoeddi gan y *parlement*, sy'n parhau i gael eu hysgogi gan yr un meddylfryd gwrthwynebol i fesurau'r Llys. Yn gyffredinol serch hynny mae mynediad at yr orsedd yn gyfyngedig iawn. Rwy'n gwybod ei fod wedi cael ei ddweud nad yw maint dylanwad plaid y Frenhines yn mynd ymhellach na gweinyddu rhai swyddi a phensiynau, heb i hynny ymyrryd â phrif orchwylion busnes cyhoeddus na materion tramor yn arbennig. Ond pan maen nhw'n rhoi gorchymyn i'r person sy'n dal pwrs y wlad, maen nhw'n meddu ar y dylanwad uniongyrchol mwyaf o angenrheidrwydd ar faterion cartref o bob math ac ar gyfran sylweddol o faterion tramor.

[Daniel Hales, diplomydd o Brydain ym Mharis, yn ysgrifennu mewn neges gyfrinachol at yr Arglwydd Carmarthen, Ysgrifennydd Tramor Prydain (16 Awst 1787)]

**Ffynhonnell C**

Roedd yr amodau yn Ffrainc yn barod ar gyfer chwyldro democrataidd pan esgynnodd yr anffodus Louis XVI i'r orsedd: roedd gweithredoedd y llywodraeth wedi hwyluso'r ffrwydrad a ddaeth. Roedd y ddwy urdd freintiedig oedd yn dal i reoli'r llywodraeth wedi'u difetha oherwydd eu chwaeth am foethusrwydd. Roedd y Drydedd Stad i'r gwrthwyneb wedi cynhyrchu meddylwyr goleuedig ac wedi dod i feddiannu cyfoeth enfawr. Eu harferion gwasaidd yn unig oedd yn cadw'r bobl yn ôl a hefyd y gobaith gwan oedd ganddynt am chwalu eu cadwynau. Roedd y llywodraeth wedi llwyddo i ffrwyno'r gobaith hwn, ond roedd yn dal i ffynnu yng nghalon y genedl. Er mwyn i rym brenhinol allu parhau'n gyflawn dan y fath amgylchiadau, byddai gofyn cael teyrn neu wladweinydd mawr ar yr orsedd. Doedd Louis XVI yn naill na'r llall o'r rheiny: roedd yn rhy dda ei fwriad i beidio â cheisio cywiro drwgarferion oedd wedi achosi dychryn iddo, ond doedd ganddo'r cymeriad na'r talentau i reoli cenedl fyrbwyll oedd yn galw'n uchel am ddiwygiad. Roedd ei deyrnasiad yn gyfres o ymdrechion egwan i wneud daioni, arddangosiadau o wendid, a thystiolaeth amlwg o'i ddiffygion fel rheolwr.

[Antoine Barnave, aelod amlwg o'r Cynulliad Cenedlaethol ar un adeg, ond cafodd ei ddienyddio ym mis Tachwedd 1793, yn fuan ar ôl iddo gwblhau ei adroddiad ar ddechreuadau'r Chwyldro Ffrengig, *Introduction to the French Revolution* (1793)

Gan gyfeirio at y ffynonellau a defnyddio'r hyn rydych yn ei ddeall am y cyd-destun hanesyddol, aseswch werth y tair ffynhonnell hyn i hanesydd sy'n astudio achosion y Chwyldro Ffrengig. [30]

© WJECCBAC Ltd.

**CWESTIWN 2**

Astudiwch y darnau isod ac atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.

**Dehongliad 1**

Yn ystod y ddwy flynedd ers ei sefydlu, cyflawnodd y Cynulliad Cenedlaethol lawer iawn. Yn gyntaf, cafodd Cyfansoddiad 1791 ei basio. Roedd hwnnw'n sefydlu cynulliad deddfwriaethol sofran, yn sicrhau hawliau sifil, yn rhannu'r boblogaeth wrywaidd yn ddinasyddion "gweithredol" (â hawl i bleidleisio) a dinasyddion "goddefol", ac yn caniatáu i'r brenin barhau fel brenin cyfansoddiadol. Yn ail, sefydlodd y Cynulliad eglwys genedlaethol. Roedd offeiriaid i gael eu hethol, byddai'r wladwriaeth yn talu eu cyflogau (cafodd y degwm ei ddiddymu), a chafodd archesgobaethau eu diddymu, a hynny'n golygu na allai esgobion fod yn atebol bellach i'r Pab. Yn drydydd, aildrefnodd y Cynulliad Cyfansoddol weinyddiaeth y wlad drwy ddiddymu cyfundrefn yr *intendants* a sefydlu *départements* unffurf*.* Y Cynulliad hefyd osododd y system fetrig yn lle'r amrywiaeth ddiddiwedd o systemau mesur lleol er mwyn hyrwyddo canoli ac undod ymhellach. Erbyn diwedd Medi 1791, cyhoeddodd y Cynulliad Cenedlaethol fod ei waith ar ben. Mewn llawer ffordd, roedd Cyfansoddiad 1791 yn ymddangos ei fod wedi cyflawni'r addewidion am ddiwygiad a fynegwyd yn gyntaf gan wŷr 1789. Gallai pob Ffrancwr ymfalchïo bellach fod yr hawliau canlynol wedi'u sicrhau: cydraddoldeb o flaen y gyfraith, gyrfaoedd agored i dalent, cyfansoddiad ysgrifenedig a llywodraeth seneddol.

[Gregory Brown, darlithydd prifysgol ac awdur, yn ysgrifennu mewn canllaw astudio ar gyfer myfyrwyr ar hanes Ewrop fodern (2014)]

**Dehongliad 2**

Yn ystod y Chwyldro Ffrengig bu llawer o drobwyntiau; un o'r rheiny, os nad y mwyaf ohonynt yn ddiamau, oedd llw'r clerigwyr. Dyna oedd camgymeriad mwyaf difrifol y Cynulliad Cenedlaethol. Am y tro cyntaf gorfododd y chwyldrowyr eu cyd-ddinasyddion i ddewis: i ddatgan yn gyhoeddus eu bod o blaid neu yn erbyn y drefn newydd. Ac er bod gwrthodwyr yn datgan eu hunain yn anghymwys i weithredu swydd gyhoeddus yn y Genedl Ffrengig atgyfodedig, roedd eu rhyddid i wrthod yn gydnabyddiaeth baradocsaidd o'u hawl i ymwrthod â gwaith y Chwyldro. Wrth geisio dod ag anghytundeb i'r amlwg, roedd y chwyldrowyr ar un ystyr yn ei gyfreithloni. Prin y byddai hynny'n cyfrif pe bai cyfanswm yr annhyngwyr, fel roedd y dirprwyon yn ei ddisgwyl, yn ddim ond dyrnaid. Ond yna, rai misoedd yn hytrach na'r ychydig wythnosau disgwyliedig yn ddiweddarach, pan ddaeth y patrwm cyffredinol ar gyfer cymryd y llw yn glir, cafwyd bod tua hanner clerigwyr Ffrainc yn teimlo na allent gydsynio.

[William Doyle, hanesydd academaidd o Brydain ac arbenigwr ar y Chwyldro Ffrengig, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr arbenigol, *The Oxford History of the French Revolution* (1989)]

Mae haneswyr wedi llunio dehongliadau gwahanol ynghylch diwygiadau'r Cynulliad Cenedlaethol. Dadansoddwch, gwerthuswch a defnyddiwch y ddau ddarn uchod, a defnyddio'r hyn rydych chi'n ei ddeall am y ddadl hanesyddol, i ateb y cwestiwn canlynol:

Pa mor ddilys yw'r safbwynt bod diwygiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn llwyddiannus? [30]

© WJECCBAC Ltd.

**UNED 2**

**ASTUDIAETH FANWL 6**

**FFRAINC YNG NGHYFNOD Y CHWYLDRO, tua 1774–1815**

**RHAN 1: FFRAINC: ACHOSION A HYNT Y CHWYLDRO, tua 1774–1792**

**CYNLLUN MARCIO**

**Canllaw marcio i arholwyr ar gyfer Cwestiwn 1**

**Crynodeb o'r amcanion asesu ar gyfer Cwestiwn 1**

Mae Cwestiwn 1 yn asesu amcan asesu 2. Elfen unigol yw'r amcan asesu hwn sy'n canolbwyntio ar y gallu i ddadansoddi a gwerthuso deunydd ffynhonnell cyfoes yn ei gyd-destun hanesyddol. Y marc a ddyfernir i Gwestiwn 1 yw 30.

**Strwythur y cynllun marcio**

Mae dwy ran i'r cynllun marcio ar gyfer Cwestiwn 1:

- cyngor ar y cwestiwn penodol yn amlinellu awgrymiadau ar gyfer cynnwys y gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd yr ymateb penodol. Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd sydd ynddo. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth dderbyniol bellach a gynigir gan ymgeiswyr.

- grid asesu sy'n rhoi cyngor ar ba fandiau a marciau y dylid eu rhoi i ymatebion sy'n dangos y nodweddion angenrheidiol ar gyfer amcan asesu 2.

**Penderfynu ar y marc i'w ddyfarnu o fewn band**

Y cam cyntaf i arholwr yw penderfynu ar y band cyffredinol. Yr ail gam yw penderfynu pa mor gadarn mae'r nodweddion a ddisgwylir ar y band hwnnw yn cael eu cyfleu. Yna, yn drydydd, gellir rhoi'r marc terfynol ar gyfer y cwestiwn.

© WJECCBAC Ltd.

**AWGRYMIADAU AR GYFER CYNNWYS CWESTIWN 1**

*NODER: Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd a welir isod. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth berthnasol bellach a gynigir gan ymgeiswyr. Dylid asesu pob ateb yn ôl ei haeddiant, yn unol â'r grid asesu yn ogystal â'r awgrymiadau ar gyfer cynnwys.*

**Gan gyfeirio at y ffynonellau a defnyddio'r hyn rydych yn ei ddeall am y cyd-destun hanesyddol, aseswch werth y tair ffynhonnell hyn i hanesydd sy'n astudio achosion y Chwyldro Ffrengig.**

Disgwylir i ymgeiswyr arddangos eu gallu i ddadansoddi a gwerthuso amrediad o ddeunydd ffynhonnell gyda mesur helaeth o ddidoli. Dylai'r sgiliau gwerthuso ffynonellau ganolbwyntio ar drafod cryfderau a chyfyngiadau'r ffynonellau a nodir. Ar gyfer barnu eu defnyddioldeb, dylid ystyried cynnwys ac awduraeth y ffynonellau a nodir er mwyn trafod eu dibynadwyedd, gogwydd, pwrpas a dilysrwydd, fel bo'n briodol.

Bydd ymgeiswyr yn ystyried gwerth y ffynonellau i hanesydd sy'n astudio achosion y Chwyldro Ffrengig. Dylai'r ymgeisydd ddefnyddio'r hyn mae'n ei wybod am y cyd-destun hanesyddol i ddadansoddi a gwerthuso cryfderau a chyfyngiadau'r ffynonellau. Gellir gwneud sylwadau priodol wrth ddadansoddi a gwerthuso'r ffynonellau gan gynnwys:

- Mae Ffynhonnell A yn portreadu beichiau'r dyn cyffredin fel un o achosion y Chwyldro, gan awgrymu bod y Drydedd Stad yn cael ei hecsploetio gan y Brenin a'r Stadau Cyntaf ac Ail. Roedd hynny'n elfen gyffredin yn y *cahiers* bod y beichiau a osodwyd gan fywyd gwaith dyrys yn cael eu gwaethygu gan drethi cynyddol a rhwymedigaethau ffiwdal. Mae'r ffynhonnell yn nodweddiadol o'r propaganda a gyhoeddwyd gan fudiad y bobl yn ystod Rhyfel y Pamffledi yn 1788–1789 ac felly mae'n darparu tystiolaeth gywir a dibynadwy, sydd o werth i hanesydd sy'n astudio achosion y Chwyldro, hanesydd a fyddai'n ymwybodol o natur unochrog y darlun.

- Mae Ffynhonnell B yn darparu i hanesydd sylwadau swyddogol ond cyfrinachol sylwebydd o'r tu allan i'r digwyddiadau dan sylw sy'n debygol o fod yn cyfleu safbwynt cywir a dibynadwy am ddylanwad Brenhines a gafodd ei geni yn Awstria, safbwynt cyffredin yn Ffrainc ers iddi briodi Louis. Mae'r ffynhonnell yn ymddangos ei bod yn darlunio materion llosg o'r cyfnod cyn y Chwyldro gan fod y diffyg ymddiriedaeth yn y Brenin a'r Frenhines i'w weld. Mae hynny'n darparu tystiolaeth bellach sydd o werth i hanesydd sy'n astudio achosion ehangach y Chwyldro ac a fyddai'n ymwybodol o bwrpas yr adroddiad.

- Mae Ffynhonnell C yn ymddangos ei bod yn rhoi tystiolaeth i hanesydd bod rhai o achosion y Chwyldro yn mynd yn ôl flynyddoedd lawer. Ffynhonnell naratif ydyw ar y cyfan ond mae wedi'i hysgrifennu gan wleidydd oedd â rhan bwysig yng ngwaith y Cynulliad Cenedlaethol ac sydd yn naturiol yn canmol y Drydedd Stad gan dynnu sylw at y ffaith bod cadwyni i'w cael yn ystod yr *ancien régime*, fel mae'r ddelwedd yn Ffynhonnell A yn ei wneud, ac sy'n ategu mater rôl y frenhiniaeth, y sonnir amdano yn Ffynhonnell B, fel achosion tymor byrrach. Mae natur y ffynhonnell a'i tharddiad yn cynnig tystiolaeth gywir a dibynadwy sydd o werth i hanesydd a fyddai'n ymwybodol o yrfa a marwolaeth drychinebus Barnave.

Yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn asesu gwerth y ffynonellau i hanesydd sy'n astudio achosion y Chwyldro Ffrengig. Byddant yn gallu dangos y gwerth hwnnw drwy ystyried cynnwys, tarddiad a thôn un o'r ffynonellau a gyflwynwyd, gan gyfeirio'n briodol at y cyd-destun hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r ffynonellau.

© WJECCBAC Ltd.

**GRID ASESU AR GYFER CWESTIWN 1**

*Targed: AA2* *Marc uchaf: 30*

*Ffocws:* *Dadansoddi a gwerthuso deunydd ffynhonnell priodol, cynradd a/neu cyfoes, o fewn ei gyd-destun hanesyddol*

| Band | Marc | Disgrifydd |
|---|---|---|
| **6** | **26-30** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad cyson a chywir o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *darparu ffocws cyson ar werthuso'r ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn gyson ynghylch gwerth y ffynonellau ar gyfer yr ymholiad penodol* |
| **5** | **21-25** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos ffocws amlwg a chywir ar y dadansoddiad a'r gwerthusiad o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *darparu ffocws clir ar y cyfan ar werthuso'r ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn ddilys ynghylch gwerth y ffynonellau ar gyfer yr ymholiad penodol* |
| **4** | **16-20** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad dilys o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *gosod y ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn glir ynghylch gwerth y ffynonellau ar gyfer yr ymholiad penodol* |
| **3** | **11-15** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos peth dadansoddiad a gwerthusiad priodol o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *gwneud ymgais i osod y ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn gyfyngedig ynghylch gwerth dwy o leiaf o'r ffynonellau* |
| **2** | **6-10** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *deall a thynnu allan wybodaeth o'r ffynonellau gyda pheth cyfeiriad at awduraeth y deunydd a ddarparwyd*<br>• *gwneud ymgais gyfyngedig i osod y ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad*<br>• *cynnig barn gyfyngedig ynghylch gwerth un o leiaf o'r ffynonellau* |
| **1** | **1-5** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *deall a thynnu allan beth o'r deunydd ffynhonnell* |
| **Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol** | | |

© WJECCBAC Ltd.

## Canllaw marcio i arholwyr ar gyfer Cwestiwn 2

### Crynodeb o'r amcanion asesu ar gyfer Cwestiwn 2

Mae Cwestiwn 2 yn asesu amcan asesu 3. Elfen unigol yw'r amcan asesu hwn sy'n canolbwyntio ar y gallu i ddadansoddi a gwerthuso sut a pham y cafodd dehongliadau hanesyddol gwahanol eu gwneud. Y marc a ddyfernir i Gwestiwn 2 yw 30.

### Strwythur y cynllun marcio

Mae dwy ran i'r cynllun marcio ar gyfer Cwestiwn 2:

- cyngor ar y cwestiwn penodol yn amlinellu awgrymiadau ar gyfer cynnwys y gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd yr ymateb penodol. Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd sydd ynddo. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth dderbyniol bellach a gynigir gan ymgeiswyr.

- grid asesu sy'n rhoi cyngor ar ba fandiau a marciau y dylid eu rhoi i ymatebion sy'n dangos y nodweddion angenrheidiol ar gyfer amcan asesu 3.

### Penderfynu ar y marc i'w ddyfarnu o fewn band

Y cam cyntaf i arholwr yw penderfynu ar y band cyffredinol. Yr ail gam yw penderfynu pa mor gadarn mae'r nodweddion a ddisgwylir ar y band hwnnw yn cael eu cyfleu. Yna, yn drydydd, gellir rhoi'r marc terfynol ar gyfer y cwestiwn.

© WJECCBAC Ltd.

**AWGRYMIADAU AR GYFER CYNNWYS CWESTIWN 2**

*NODER: Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd a welir isod. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth berthnasol bellach a gynigir gan ymgeiswyr. Dylid asesu pob ateb yn ôl ei haeddiant, yn unol â'r grid asesu yn ogystal â'r awgrymiadau ar gyfer cynnwys.*

## Pa mor ddilys yw'r safbwynt bod diwygiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn llwyddiannus?

Disgwylir i ymgeiswyr arddangos dealltwriaeth o'r ffordd y cafodd agweddau ar y gorffennol eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol. Bydd yr atebion yn ystyried y deunydd a ddarparwyd ynghyd â'r hyn y mae'r ymgeisydd yn ei ddeall am y cyd-destun hanesyddol a'r ddadl hanesyddol ehangach wrth lunio barn am ddilysrwydd y safbwynt bod diwygiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn llwyddiannus.

Gwahoddir ymgeiswyr i gymryd ran mewn dadl ar y safbwynt bod diwygiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn llwyddiannus. Bydd y dysgwyr yn ystyried dehongliadau o'r mater hwn o fewn y ddadl hanesyddol ehangach am lwyddiant diwygiadau'r Cynulliad Cenedlaethol. Gall rhai o'r materion i'w hystyried gynnwys:

- Mae Dehongliad 1 yn dadlau bod diwygiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn llwyddiannus am eu bod wedi creu cyfansoddiad newydd, wedi diwygio'r Eglwys, y drefn weinyddol yn lleol a chenedlaethol a llywodraeth y wladwriaeth, wedi canoli a dod ag unffurfiaeth i'r wlad, a rhoi llais i'w phobl.
- Wrth ddadansoddi a gwerthuso Dehongliad 1 gall yr atebion ddadlau bod hwn yn ddehongliad dilys gan ei fod yn sôn am res o ddiwygiadau llwyddiannus, ac yng nghyd-destun yr helyntion ffyrnig o 1789 hyd at 1791, roedd hynny'n golygu bod ad-drefnu strwythur yr *ancien régime* wedi'i gyflawni'n llwyddiannus mewn cyfnod byr iawn. Mae'n amlwg y byddai awdur y ffynhonnell, darlithydd prifysgol ac awdur yn 2014, wedi gallu defnyddio amrediad o ffynonellau cynradd ynghyd â gwaith haneswyr fel Doyle, er gan ei fod yn ysgrifennu canllaw astudio i fyfyrwyr, dichon ei fod yn cyflwyno ei ddehongliad mewn termau symlach na'r hyn a wna Doyle yn ei lyfr.
- Mae Dehongliad 2 yn dadlau er bod Ffrainc wedi'i hadfywio roedd y Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud rhai camgymeriadau yn ei raglen ddiwygio ac roedd yr un pwysicaf o'r rheiny yn ymwneud â llw'r clerigwyr, cam sy'n dangos nad oedd pob un o'r diwygiadau yn llwyddiannus.
- Wrth ddadansoddi a gwerthuso Dehongliad 2 gall yr atebion ddadlau bod hwn hefyd yn ddehongliad dilys gan fod yr awdur yn awgrymu bod y Cynulliad Cenedlaethol yn llwyddiannus ar y cyfan wrth adfywio Ffrainc ond roedd cyfyngiadau a methiannau ynglŷn â rhai o'r diwygiadau fel Llw'r Clerigwyr, a ddilynodd gyfres o ddiwygiadau llwyddiannus yn yr Eglwys a'r urddau mynachaidd. Roedd Cyfansoddiad Sifil y Clerigwyr yn llwyddiannus iawn mewn rhai ffyrdd – er enghraifft yng ngweinyddiaeth yr Eglwys – ond cododd helynt y Llw faterion yn ymwneud â ffyddlondeb a chred ymysg y clerigwyr a'u cefnogwyr yn Ffrainc. Cynhyrchodd yr awdur ei waith yn 1989 yng nghyfnod daucanmlwyddiant y Chwyldro a byddai'n ymwybodol iawn o'r hanesyddiaeth a'r amrediad o dystiolaeth am ddiwygiadau'r Cynulliad Cenedlaethol.
- Gall yr ymgeiswyr ddangos ymwybyddiaeth o'r ddadl hanesyddol ehangach ynglŷn â'r mater hwn fel y newid yn natur hanesyddiaeth y Chwyldro ar y pryd. Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol yn enwedig o safbwyntiau gwahanol Traddodiad Mawreddog Hanesyddiaeth Farcsaidd ar y naill law a'r her oddi wrth haneswyr adolygiadol ers yr 1960au ar y llaw arall.

Bydd ymgeiswyr yn gyffredinol yn dadansoddi'r ddau ddehongliad gan ddefnyddio'r hyn maen nhw'n ei ddeall am y ddadl ynglŷn â'r mater hwn, yn cynnig gwerthuso dilysrwydd y dehongliadau a roddwyd a rhoi barn am y mater yn y cwestiwn bod diwygiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn llwyddiannus.

© WJECCBAC Ltd.

**GRID ASESU AR GYFER CWESTIWN 2**

*Targed: AA3* *Marc uchaf: 30*

*Ffocws:* *Mewn perthynas â'r cyd-destun hanesyddol, dadansoddi a gwerthuso'r ffyrdd gwahanol y cafodd agweddau ar y gorffennol eu dehongli*

| Band | Marc | Disgrifydd |
|---|---|---|
| 6 | 26-30 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad cyson o'r deunydd a roddwyd ac yn ei ddefnyddio'n effeithiol i drafod sut a pham y cafodd dehongliadau gwahanol eu ffurfio*<br>• *darparu ffocws cyson ar werthuso'r dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *arddangos ymwybyddiaeth glir o ddehongliadau gwahanol o'r mater a osodwyd* |
| 5 | 21-25 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos ffocws clir a chywir yn y dadansoddiad a'r gwerthusiad o'r deunydd a roddwyd i ddangos sut a pham y cafodd dehongliadau gwahanol eu ffurfio*<br>• *darparu ffocws clir ar y cyfan ar werthuso'r dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *dangos sut y cafodd y mater ei ddehongli mewn ffyrdd gwahanol* |
| 4 | 16-20 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad dilys o'r deunydd a roddwyd i nodi dehongliadau gwahanol*<br>• *gosod y ddau ddehongliad yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *dangos ymwybyddiaeth o ddehongliadau gwahanol o'r mater* |
| 3 | 11-15 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos rhai sylwadau priodol mewn perthynas â'r dadansoddiad a'r gwerthusiad o'r deunydd a roddwyd i nodi dehongliadau gwahanol*<br>• *gwneud ymgais i osod y dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *dangos peth ymwybyddiaeth o ddehongliadau gwahanol o'r mater* |
| 2 | 6-10 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *deall peth o'r deunydd a roddwyd gan ddangos dadansoddiad cyfyngedig yn unig*<br>• *gwneud ymgais gyfyngedig i osod y dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad*<br>• *dangos peth ymwybyddiaeth o'r dehongliadau gwahanol o'r mater* |
| 1 | 1-5 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *tynnu gwybodaeth o'r deunydd a roddwyd*<br>• *cynnwys cyfeiriad gwan at ddehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol** | | |

© WJECCBAC Ltd.

**HANES UG**

**UNED 2**

**ASTUDIAETH FANWL 7**

**ARGYFWNG Y WERINIAETH AMERICANAIDD, tua 1840–1877**

**RHAN 1: GWAHANIAETHAU ADRANNOL A'R LLWYBR I RYFEL CARTREF, tua 1840–1861**

**PAPUR ENGHREIFFTIOL**

**1 awr 45 munud**

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch y **ddau** gwestiwn ar y papur.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.

Dylech dreulio tua 50 munud ar bob cwestiwn.

Mae'n bosibl fod y ffynonellau a'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

© WJECCBAC Ltd.

**UNED 2**

**ASTUDIAETH FANWL 7**

**ARGYFWNG Y WERINIAETH AMERICANAIDD, tua 1840–1877**

**RHAN 1: GWAHANIAETHAU ADRANNOL A'R LLWYBR I RYFEL CARTREF, tua 1840–1861**

Atebwch y **ddau** gwestiwn ar y papur.

**CWESTIWN 1**

Astudiwch y ffynonellau isod ac atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.

**Ffynhonnell A**

Mae ein gwlad yn theatr sy'n arddangos yn llawn ddwy system wleidyddol hollol wahanol i'w gilydd yn gweithredu: y naill wedi'i seilio ar lafur caethion, a'r llall wedi'i seilio ar lafur gwirfoddol gwŷr rhydd. Mae'r systemau gwrthwynebol hyn yn symud yn agosach at ei gilydd, a'r canlyniad yw gwrthdaro.
Gâi ddweud wrthych beth mae gwrthdaro yn ei olygu? Mae'r rhai sy'n meddwl ei fod yn ddamweiniol, yn ddianghenraid, yn waith cynhyrfwyr hunanol neu benboeth, ac felly'n fyrhoedlog, yn camgymryd yr achos yn hollol. Mae'n wrthdaro direol rhwng grymoedd gwrthwynebol a pharhaol, ac mae hynny'n golygu y bydd yr Unol Daleithiau i gyd yn gorfod dod yn hwyr neu'n hwyrach naill ai yn genedl gaethiwol neu'n genedl â'i llafur yn rhydd. Methiant i ddeall y gwirionedd mawr hwn sydd wrth wraidd cymaint o ymdrechion aflwyddiannus i sicrhau cyfaddawdau terfynol rhwng y taleithiau caethiwol a'r taleithiau rhydd. Roedd ein cyndadau yn gwybod mai dyna'r gwir a byddai'n rhaid i'r naill system neu'r llall ddod yn ben.

[William Seward, Seneddwr Gweriniaethol blaenllaw gydag uchelgais i ddod yn arweinydd y blaid, yn rhoi araith yn Efrog Newydd (25 Hydref 1858)]

**Ffynhonnell B**

Mae'r taleithiau gogleddol wedi meddiannu'r hawl i benderfynu ar briodoldeb ein sefydliadau cartref, ac wedi gwadu'r hawl i eiddo sydd wedi'i sefydlu mewn 15 o'r taleithiau a'i gydnabod gan y Cyfansoddiad; maen nhw wedi collfarnu caethwasiaeth fel sefydliad pechadurus. Maen nhw wedi annog a chynorthwyo miloedd o'n caethion ni i adael eu cartrefi, a chafodd y rhai sydd ar ôl eu hysgogi gan swyddogion, llyfrau a darluniau i godi mewn gwrthryfel caethion. Mae'r cynnwrf hwn wedi cynyddu'n raddol ers 25 mlynedd nes iddo lwyddo i sicrhau grym y llywodraeth gyffredin o'i blaid. Mae llinell ddaearyddol wedi'i thynnu ar draws yr Undeb, ac mae'r holl Daleithiau i'r gogledd o'r llinell honno wedi uno i ethol i swydd aruchel Arlywydd yr Unol Daleithiau ddyn sydd â'i safbwyntiau a'i amcanion yn elyniaethus tuag at gaethwasiaeth.

[O Gynulliad De Carolina, *Declaration of Causes of Secession* (24 Rhagfyr 1860)]

© WJECCBAC Ltd.

**Ffynhonnell C**

Ar y 21ain roedd Kellogg, aelod Gweriniaethol o'r gyngres, yma i geisio sicrhau i ba raddau y byddwn i fy hun yn caniatáu i'n ffrindiau fynd i gyfeiriad cyfaddawd ar yr hyn sy'n gwestiwn llosg bellach sef ehangu caethwasiaeth. Rwy'n dweud nawr fy mod yn hollol ddiwyro ar y cwestiwn tiriogaethol. Nid wyf o blaid unrhyw gyfaddawd sy'n hwyluso neu'n caniatáu ymestyn y sefydliad ar ddaear sydd ym meddiant ein cenedl Americanaidd. Ac mae unrhyw dric sy'n caniatáu i'n cenedl feddiannu tiriogaeth, ac yna'n gosod rhyw awdurdod lleol trosto, yr un mor wrthun ag unrhyw un arall; rwy'n cymryd mai sicrhau rhyw ganlyniad tebyg i hyn, a'n rhoi ni eto ar y briffordd i ymerodraeth gaethiwol yw bwriad yr holl gyfaddawdau hyn sy'n cael eu cynnig. Rwyf fi'n eu gwrthwynebu. Ynglŷn â chaethion ar ffo, Rhanbarth Columbia, y fasnach gaethion yn y Taleithiau caethiwol a beth bynnag sy'n codi o angenrheidrwydd o'r ffaith fod y sefydliad yn ein plith eisoes, 'does fawr o ots gen i – ac eithrio y dylai'r hyn a wneir fod yn briodol ac nid yn hollol waradwyddus. 'Does fawr o ots gen i am New Mexico chwaith, pe bai'n cael ei gwarchod yn erbyn estyniad pellach.

[Abraham Lincoln, yr Arlywydd Etholedig, mewn llythyr at yr uwch-wleidydd Gweriniaethol, William Seward (1 Chwefror 1861)]

Gan gyfeirio at y ffynonellau a defnyddio'r hyn rydych yn ei ddeall am y cyd-destun hanesyddol, aseswch werth y tair ffynhonnell hyn i hanesydd sy'n astudio dechreuad y Rhyfel Cartref. [30]

© WJECCBAC Ltd.

**CWESTIWN 2**

Astudiwch y darnau isod ac atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.

**Dehongliad 1**

Fel mae llawer o haneswyr wedi nodi, byddai cymryd golwg agosach ar y ffordd y gwnaeth aelodau o'r gyngres bleidleisio yn dangos nad cyfaddawd oedd hyn mewn gwirionedd. Y cyfraniad mwyaf a wnaeth Douglas tuag at basio'r mesurau oedd rhannu mesur cyfansawdd Clay i'w gydrannau unigol a chreu clymbleidiau ar wahân i gefnogi bob un. Aeth Deheuwyr yn groes i'w plaid a phleidleisio yn erbyn unrhyw gyfyngiad ar gaethwasiaeth, a gwnaeth nifer sylweddol o Ddemocratiaid y gogledd ymuno â Chwigiaid y gogledd i'w gwrthwynebu. Dim ond lleiafrif o aelodau'r gyngres, Chwigiaid o'r de gan fwyaf, rhai Democratiaid o'r gogledd a lleiafrif o Chwigiaid ceidwadol o'r gogledd, a ffurfiodd garfan wirioneddol o blaid y cyfaddawd, gan gefnogi pob un o'r mesurau. O edrych yn ôl rydym yn gwybod nad oedd parhad i'r ateb i gwestiwn caethwasiaeth a saernïwyd gyda'r fath ymdrech yn 1850. Ond ar y pryd cafodd ei ganmol yn eang oherwydd y datrysiad doeth roedd yn ei gynnig ar gyfer problem anhydrin i bob golwg. Roedd y Cyfaddawd yn tynnu dolur caethwasiaeth allan o wleidyddiaeth y wlad, am gyfnod byr o leiaf. Roedd radicaliaid y de a Milwyr Rhydd y gogledd wedi'u gwthio i'r cyrion.

[Adam Smith, darlithydd prifysgol ac awdur, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr, *The American Civil War* (2007)]

**Dehongliad 2**

Gellir disgrifio Cyfaddawd 1850 yn gywirach fel cadoediad rhwng gwleidyddion. Ond go brin bod gan ei delerau enw da ymhlith pawb. Beth bynnag oedd cydbwysedd union y grym gwleidyddol roedd y Cyfaddawd yn ei bwyso, does fawr o amheuaeth ynglŷn â natur *amodol* y cytundeb cyn belled ag oedd y De yn y cwestiwn. Roedd hynny'n dibynnu yn y lle cyntaf ar ymddygiad etholwyr y gogledd a'u gwleidyddion. Roedd y De yn disgwyl yr olaf i reoli'r cyntaf; drwy osod yn y gyfraith ddarpariaeth i orfodi pobl ddu i gael eu caethiwo unwaith eto a mynnu bod cyrff deddfwriaethol a barnwriaethau taleithiau'r gogledd yn gorfodi hynny gyda'r un brwdfrydedd â phe baent yn daleithiau caethiwol, roedd gafael symbolaidd y system gaethiwol yn cael ei ymestyn i daleithiau rhydd y gogledd. Yn y ddaear honno, oedd wedi'i gwrteithio gan waed a chwys caethion a ddychwelodd, y tyfodd y pryder am dwf 'grym y caethion'. Y gwir oedd na wnaeth Cyfaddawd 1850 'setlo' mater llosg caethwasiaeth, unwaith ac am byth. Camargraff fyddai disgwyl y byddai datganiadau deddfol, â'u hymadroddion coeth derbyniol i wleidyddion, yn argyhoeddi'r pleidleiswyr oedd â daliadau cryf ac argyhoeddiadau dwfn am anfoesoldeb caethwasiaeth. Doedd ganddo fawr o siawns o lwyddiant yn y tymor hir.

[Brian Holden Reid, hanesydd academaidd o Brydain ac arbenigwr ar hanes rhyfela a Rhyfel Cartref America, yn ysgrifennu mewn gwerslyfr arbenigol, *The Origins of the American Civil War* (1996)]

Mae haneswyr wedi llunio dehongliadau gwahanol ynghylch Cyfaddawd 1850. Dadansoddwch, gwerthuswch a defnyddiwch y ddau ddarn uchod, a defnyddio'r hyn rydych chi'n ei ddeall am y ddadl hanesyddol, i ateb y cwestiwn canlynol:

Pa mor ddilys yw'r safbwynt bod methiant Cyfaddawd 1850 yn anochel? [30]

© WJECCBAC Ltd.

**UNED 2**

**ASTUDIAETH FANWL 7**

**ARGYFWNG Y WERINIAETH AMERICANAIDD, tua 1840–1877**

**RHAN 1: GWAHANIAETHAU ADRANNOL A'R LLWYBR I RYFEL CARTREF, tua 1840–1861**

**CYNLLUN MARCIO**

**Canllaw marcio i arholwyr ar gyfer Cwestiwn 1**

**Crynodeb o'r amcanion asesu ar gyfer Cwestiwn 1**

Mae Cwestiwn 1 yn asesu amcan asesu 2. Elfen unigol yw'r amcan asesu hwn sy'n canolbwyntio ar y gallu i ddadansoddi a gwerthuso deunydd ffynhonnell cyfoes yn ei gyd-destun hanesyddol. Y marc a ddyfernir i Gwestiwn 1 yw 30.

**Strwythur y cynllun marcio**

Mae dwy ran i'r cynllun marcio ar gyfer Cwestiwn 1:

- cyngor ar y cwestiwn penodol yn amlinellu awgrymiadau ar gyfer cynnwys y gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd yr ymateb penodol. Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd sydd ynddo. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth dderbyniol bellach a gynigir gan ymgeiswyr.

- grid asesu sy'n rhoi cyngor ar ba fandiau a marciau y dylid eu rhoi i ymatebion sy'n dangos y nodweddion angenrheidiol ar gyfer amcan asesu 2.

**Penderfynu ar y marc i'w ddyfarnu o fewn band**

Y cam cyntaf i arholwr yw penderfynu ar y band cyffredinol. Yr ail gam yw penderfynu pa mor gadarn mae'r nodweddion a ddisgwylir ar y band hwnnw yn cael eu cyfleu. Yna, yn drydydd, gellir rhoi'r marc terfynol ar gyfer y cwestiwn.

© WJECCBAC Ltd.

**AWGRYMIADAU AR GYFER CYNNWYS CWESTIWN 1**

*NODER: Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd a welir isod. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth berthnasol bellach a gynigir gan ymgeiswyr. Dylid asesu pob ateb yn ôl ei haeddiant, yn unol â'r grid asesu yn ogystal â'r awgrymiadau ar gyfer cynnwys.*

**Gan gyfeirio at y ffynonellau a defnyddio'r hyn rydych yn ei ddeall am y cyd-destun hanesyddol, aseswch werth y tair ffynhonnell hyn i hanesydd sy'n astudio dechreuad y Rhyfel Cartref.**

Disgwylir i ymgeiswyr arddangos eu gallu i ddadansoddi a gwerthuso amrediad o ddeunydd ffynhonnell gyda mesur helaeth o ddidoli. Dylai'r sgiliau gwerthuso ffynonellau ganolbwyntio ar drafod cryfderau a chyfyngiadau'r ffynonellau a nodir. Ar gyfer barnu eu defnyddioldeb, dylid ystyried cynnwys ac awduraeth y ffynonellau a nodir er mwyn trafod eu dibynadwyedd, gogwydd, pwrpas a dilysrwydd, fel bo'n briodol.
Bydd ymgeiswyr yn ystyried gwerth y ffynonellau i hanesydd sy'n astudio dechreuad y Rhyfel Cartref. Dylai'r ymgeisydd ddefnyddio'r hyn mae'n ei wybod am y cyd-destun hanesyddol i ddadansoddi a gwerthuso cryfderau a chyfyngiadau'r ffynonellau. Gellir gwneud sylwadau priodol wrth ddadansoddi a gwerthuso'r ffynonellau yn cynnwys:

- Araith gan wleidydd Gweriniaethol blaenllaw yw Ffynhonnell A yng nghanol y tensiwn adrannol newydd a ddilynodd achos Dred Scott a'r dadleuon rhwng Lincoln a Douglas. Mae'n rhoi disgrifiad huawdl o draddodiadau a diwylliannau gwleidyddol gwahanol y gogledd a'r de, gan egluro anesmwythyd hirhoedlog arweinwyr America â sefydliad caethwasiaeth. Mae'n collfarnu'r ymdrechion a wnaed yn ddiweddar i gyfaddawdu, a fethodd â rhoi sylw i'r anghysondeb sylfaenol rhwng caethwasiaeth a llafur rhydd. Mae'r ffynhonnell yn nodweddiadol o ddadleuon adain radicalaidd y Blaid Weriniaethol ac, er yn unochrog, mae'n dystiolaeth ddibynadwy a chywir o'r daliadau hynny. Byddai hanesydd yn ymwybodol o'r gogwydd hwn a hefyd o uchelgais Seward fel aelod hŷn o'r blaid.
- Cofnod cyfoes o'r rhesymau a roddodd De Carolina am ymwahanu o'r Undeb yw Ffynhonnell B. Mae'r ffynhonnell yn egluro'r anfodlonrwydd â'r ymgyrchoedd yn erbyn caethwasiaeth a'r posibilrwydd y byddai hynny'n annog y caethion i wrthryfela. Rhan gryfaf y ddogfen serch hynny yw'r esboniad bod ethol Lincoln wedi bod yn ffactor a wnaeth uno'r taleithiau hynny oedd yn dymuno cadw caethwasiaeth. Mae cyd-destun y gwahaniaethau adrannol, y mudiad diddymol ac etholiad Lincoln yn ddefnyddiol iawn i'r hanesydd a fyddai'n ymwybodol o ogwydd cynhenid y ffynhonnell o blaid caethwasiaeth, ieithwedd y dystiolaeth sydd ynddi'n gwneud caethion yn gyfystyr ag eiddo, a dileu yn gyfystyr a chynhyrfu, a'r Arlywydd newydd fel gelyn i gaethwasiaeth. Er hynny mae'n dystiolaeth bwerus o feddylfryd yr ymwahanwyr deheuol yn 1860.
- Llythyr preifat oddi wrth yr Arlywydd Etholedig Lincoln at gydweithiwr blaenllaw, William Seward, yw Ffynhonnell C. Mae Lincoln yn egluro'n bendant ei fod yn erbyn ymestyn caethwasiaeth i'r tiriogaethau newydd, ond nid yw'n poeni cymaint am fater y caethion ar ffo a chyn belled â bod y taleithiau deheuol yn peidio â bod yn rhy eithafol yn cynnal caethwasiaeth, does ganddo ddim awydd i ymyrryd. Ynglŷn â hyn, gall yr atebion dynnu sylw at y gwahaniaeth â'r safbwynt yn Ffynhonnell B. Mae natur y ffynhonnell, sef llythyr preifat, yn cynnig tystiolaeth gywir o safbwyntiau Lincoln ar y pryd hwnnw'n arbennig. Cyd-destun hynny yw'r ymwahanu sy'n digwydd a Lincoln yn gwneud ei orau i gynnal yr undeb ac i beidio ag ymddangos, yn gyhoeddus hyd yn hyn, ei fod yn rhy feirniadol o sefydliad caethwasiaeth. Mae'r ieithwedd yn rhoi amcan o safbwynt Lincoln ar y pryd a'r pwyslais a roddodd fwy nag unwaith ar fod yn gadarn wrth wrthod cyfaddawdu ynglŷn ag ymestyn caethwasiaeth. Byddai hanesydd yn asesu'r ffynhonnell fel cyfraniad gwerthfawr at ddeall meddylfryd Lincoln ar adeg dyngedfennol yn y digwyddiadau a arweiniodd at ddechrau'r Rhyfel Cartref; gan ei fod yn llythyr preifat ar gydweithiwr agos mae'n rhoi canllaw cywir a dibynadwy ynglŷn â bwriadau Lincoln ar ddechrau 1861.

Yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn asesu gwerth y ffynonellau i hanesydd sy'n astudio dechreuad y Rhyfel Cartref. Byddant yn gallu dangos y gwerth hwnnw drwy ystyried cynnwys, tarddiad a thôn un o'r ffynonellau a gyflwynwyd, gan gyfeirio'n briodol at y cyd-destun hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r ffynonellau.

© WJECCBAC Ltd.

## GRID ASESU AR GYFER CWESTIWN 1

*Targed: AA2* *Marc uchaf: 30*

*Ffocws:* *Dadansoddi a gwerthuso deunydd ffynhonnell priodol, cynradd a/neu cyfoes, o fewn ei gyd-destun hanesyddol*

| Band | Marc | Disgrifydd |
|---|---|---|
| 6 | 26-30 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad cyson a chywir o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *darparu ffocws cyson ar werthuso'r ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn gyson ynghylch gwerth y ffynonellau ar gyfer yr ymholiad penodol* |
| 5 | 21-25 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos ffocws amlwg a chywir ar y dadansoddiad a'r gwerthusiad o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *darparu ffocws clir ar y cyfan ar werthuso'r ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn ddilys ynghylch gwerth y ffynonellau ar gyfer yr ymholiad penodol* |
| 4 | 16-20 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad dilys o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *gosod y ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn glir ynghylch gwerth y ffynonellau ar gyfer yr ymholiad penodol* |
| 3 | 11-15 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos peth dadansoddiad a gwerthusiad priodol o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *gwneud ymgais i osod y ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn gyfyngedig ynghylch gwerth dwy o leiaf o'r ffynonellau* |
| 2 | 6-10 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *deall a thynnu allan wybodaeth o'r ffynonellau gyda pheth cyfeiriad at awduraeth y deunydd a ddarparwyd*<br>• *gwneud ymgais gyfyngedig i osod y ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad*<br>• *cynnig barn gyfyngedig ynghylch gwerth un o leiaf o'r ffynonellau* |
| 1 | 1-5 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *deall a thynnu allan beth o'r deunydd ffynhonnell* |
| **Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol** | | |

© WJECCBAC Ltd.

## Canllaw marcio i arholwyr ar gyfer Cwestiwn 2

### Crynodeb o'r amcanion asesu ar gyfer Cwestiwn 2

Mae Cwestiwn 2 yn asesu amcan asesu 3.  Elfen unigol yw'r amcan asesu hwn sy'n canolbwyntio ar y gallu i ddadansoddi a gwerthuso sut a pham y cafodd dehongliadau hanesyddol gwahanol eu gwneud. Y marc a ddyfernir i Gwestiwn 2 yw 30.

### Strwythur y cynllun marcio

Mae dwy ran i'r cynllun marcio ar gyfer Cwestiwn 2:

- cyngor ar y cwestiwn penodol yn amlinellu awgrymiadau ar gyfer cynnwys y gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd yr ymateb penodol. Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd sydd ynddo. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth dderbyniol bellach a gynigir gan ymgeiswyr.

- grid asesu sy'n rhoi cyngor ar ba fandiau a marciau y dylid eu rhoi i ymatebion sy'n dangos y nodweddion angenrheidiol ar gyfer amcan asesu 3.

### Penderfynu ar y marc i'w ddyfarnu o fewn band

Y cam cyntaf i arholwr yw penderfynu ar y band cyffredinol. Yr ail gam yw penderfynu pa mor gadarn  mae'r nodweddion a ddisgwylir ar y band hwnnw yn cael eu cyfleu. Yna, yn drydydd, gellir rhoi'r marc terfynol ar gyfer y cwestiwn.

© WJECCBAC Ltd.

**AWGRYMIADAU AR GYFER CYNNWYS CWESTIWN 2**

*NODER: Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd a welir isod. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth berthnasol bellach a gynigir gan ymgeiswyr. Dylid asesu pob ateb yn ôl ei haeddiant, yn unol â'r grid asesu yn ogystal â'r awgrymiadau ar gyfer cynnwys.*

## Pa mor ddilys yw'r safbwynt bod methiant Cyfaddawd 1850 yn anochel?

Disgwylir i ymgeiswyr arddangos dealltwriaeth o'r ffordd y cafodd agweddau ar y gorffennol eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol. Bydd yr atebion yn ystyried y deunydd a ddarparwyd ynghyd â'r hyn y mae'r ymgeisydd yn ei ddeall am y cyd-destun hanesyddol a'r ddadl hanesyddol ehangach wrth lunio barn am ddilysrwydd y safbwynt bod methiant Cyfaddawd 1850 yn anochel.

Gwahoddir ymgeiswyr i gymryd ran mewn dadl ar y safbwynt bod methiant Cyfaddawd 1850 yn anochel. Bydd y dysgwyr yn ystyried dehongliadau o'r mater hwn o fewn y ddadl hanesyddol ehangach am Gyfaddawd 1850. Gall rhai o'r materion i'w hystyried gynnwys:

- Mae Dehongliad 1 yn dadlau nad oedd Cyfaddawd 1850 yn gyfaddawd cyffredinol. Yn hytrach roedd yn gyfres o bleidleisiau gwahanol ar gydrannau unigol, gydag ychydig iawn o wleidyddion yn ffurfio bloc pleidleisio clymbleidiol gwirioneddol. Er na pharhaodd, doedd ei fethiant ddim yn anochel.
- Wrth ddadansoddi a gwerthuso Dehongliad 1 gall yr atebion ddadlau bod hwn yn ddehongliad dilys gan ei fod yn rhybuddio rhag defnyddio synnwyr ddoe wrth werthuso'r cyfaddawd – er iddo fethu yn y diwedd, ond roedd yn cael ei ystyried yn fwy cadarnhaol o lawer ar y pryd. Roedd ateb wedi'i gael i broblem anhydrin drwy gael gwared dros dro ar gaethwasiaeth fel mater llosg. Mae Adam Smith yn ein hatgoffa bod angen i'r hanesydd wneud mwy na nodi tueddiadau tymor hir ond deall datblygiadau allweddol hefyd yng nghyd-destun eu cyfnod, yn yr achos hwn, y teimlad o ryddhad yn 1850 nad oedd gwahaniaethau adrannol difrifol wedi arwain at chwalu'r undeb. Mae e'n hanesydd uchel ei barch sydd wedi trefnu'r dystiolaeth yn ofalus ynglŷn â'r clymbleidiau cymhleth a ddaeth ynghyd yn 1850 i sefydlu rhyw fath o gyfaddawd. Mae'r dehongliad hwn yn rhoi sylw llawn i rôl Stephen Douglas a Henry Clay yng nghanlyniad Cyfaddawd 1850.
- Mae Dehongliad 2 yn dadlau na chafodd telerau Cyfaddawd 1850 ganmoliaeth mor arwyddocaol ar y pryd. Doedd ganddo fawr o siawns o lwyddo.
- Wrth ddadansoddi a gwerthuso Dehongliad 2 gall yr atebion ddadlau bod hwn hefyd yn ddehongliad dilys gan fod Holden Reid yn nodi bod y cwbl yn dibynnu ar y ffordd byddai etholwyr y gogledd yn ymateb ac mai camargraff fyddai dychmygu byddai'r ddeddf Caethion ar Ffo yn gwneud dim ond cythruddo'r rhai oedd â theimladau cryfion ynglŷn â chaethwasiaeth yn y gogledd. Mae e'n disgrifio Cyfaddawd 1850 fel cadoediad yn hytrach na chyfaddawd. Wrth ddod i'r casgliad hwn mewn gwaith hanesyddol cyfunol byddai Reid wedi ymgorffori safbwyntiau haneswyr eraill i'w ddadansoddiad, sy'n awgrymu'n gryf bod y gwleidyddion wedi twyllo'u hunain y byddai'r cyfaddawd yn gweithio.
- Gall ymgeiswyr ddangos ymwybyddiaeth o'r ddadl hanesyddol ehangach ynglŷn â'r mater hwn, megis iddo achosi anfodlonrwydd pellach yn y gogledd unwaith y daeth y ddarpariaeth ar gyfer Caethion ar Ffo i rym, a safbwyntiau nifer sylweddol o haneswyr nad oedd Cyfaddawd 1850 yn gyfaddawd gwirioneddol o gwbl, ond yn hytrach yn gadoediad ansicr a byrhoedlog.

Bydd ymgeiswyr yn gyffredinol yn dadansoddi'r ddau ddehongliad gan ddefnyddio'r hyn maen nhw'n ei ddeall am y ddadl ynglŷn â'r mater hwn, yn cynnig gwerthuso dilysrwydd y dehongliadau a roddwyd a rhoi barn ar y mater yn y cwestiwn bod methiant Cyfaddawd 1850 yn anochel.

© WJECCBAC Ltd.

**GRID ASESU AR GYFER CWESTIWN 2**

*Targed: AA3* *Marc uchaf: 30*

*Ffocws:* *Mewn perthynas â'r cyd-destun hanesyddol, dadansoddi a gwerthuso'r ffyrdd gwahanol y cafodd agweddau ar y gorffennol eu dehongli*

| Band | Marc | Disgrifydd |
|---|---|---|
| 6 | 26-30 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad cyson o'r deunydd a roddwyd ac yn ei ddefnyddio'n effeithiol i drafod sut a pham y cafodd dehongliadau gwahanol eu ffurfio*<br>• *darparu ffocws cyson ar werthuso'r dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *arddangos ymwybyddiaeth glir o ddehongliadau gwahanol o'r mater a osodwyd* |
| 5 | 21-25 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos ffocws clir a chywir yn y dadansoddiad a'r gwerthusiad o'r deunydd a roddwyd i ddangos sut a pham y cafodd dehongliadau gwahanol eu ffurfio*<br>• *darparu ffocws clir ar y cyfan ar werthuso'r dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *dangos sut y cafodd y mater ei ddehongli mewn ffyrdd gwahanol* |
| 4 | 16-20 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad dilys o'r deunydd a roddwyd i nodi dehongliadau gwahanol*<br>• *gosod y ddau ddehongliad yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *dangos ymwybyddiaeth o ddehongliadau gwahanol o'r mater* |
| 3 | 11-15 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos rhai sylwadau priodol mewn perthynas â'r dadansoddiad a'r gwerthusiad o'r deunydd a roddwyd i nodi dehongliadau gwahanol*<br>• *gwneud ymgais i osod y dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *dangos peth ymwybyddiaeth o ddehongliadau gwahanol o'r mater* |
| 2 | 6-10 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *deall peth o'r deunydd a roddwyd gan ddangos dadansoddiad cyfyngedig yn unig*<br>• *gwneud ymgais gyfyngedig i osod y dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad*<br>• *dangos peth ymwybyddiaeth o'r dehongliadau gwahanol o'r mater* |
| 1 | 1-5 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *tynnu gwybodaeth o'r deunydd a roddwyd*<br>• *cynnwys cyfeiriad gwan at ddehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol** | | |

© WJECCBAC Ltd.

**HANES UG**

**UNED 2**

**ASTUDIAETH FANWL 8**

**YR ALMAEN: DEMOCRATIAETH AC UNBENNAETH,
tua 1918–1945**

**RHAN 1: WEIMAR A'I SIALENSIAU, tua 1918–1933**

**PAPUR ENGHREIFFTIOL**

**1 awr 45 munud**

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Atebwch y **ddau** gwestiwn ar y papur.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.

Dylech dreulio tua 50 munud ar bob cwestiwn.

Mae'n bosibl fod y ffynonellau a'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

© WJECCBAC Ltd.

**UNED 2**

**ASTUDIAETH FANWL 8**

**YR ALMAEN: DEMOCRATIAETH AC UNBENNAETH, tua 1918–1945**


**RHAN 1: WEIMAR A'I SIALENSIAU, tua 1918–1933**

Atebwch y **ddau** gwestiwn ar y papur.

**CWESTIWN 1**

Astudiwch y ffynonellau isod ac atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.

**Ffynhonnell A**



[Cartŵn dychanol, o bapur newydd cenedlaetholgar yn yr Almaen dan y teitl, *Clemenceau y Fampir,* a gafodd ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 1919. Mae'r ffigur sy'n gorwedd ar y gwely yn cynrychioli'r Almaen. Clemenceau oedd Prif Weinidog Ffrainc. Mae e'n cael ei ddarlunio fel fampir sy'n sugno gwaed allan o'r Almaen.]

**Ffynhonnell B**

Roedd gwrthsafiad goddefol yn golygu peidio â chydweithredu o gwbl â'r Ffrancwyr a'r Belgiaid. Roedd yn golygu gwrthod ufuddhau i unrhyw un o'u galwadau, a pheidio â chyflawni dim un o'u gorchmynion. Gwrthododd y gweithwyr post, y telegraff a'r teleffon wneud unrhyw gysylltiad â'r Ffrancwyr a'r Belgiaid, nag anfon eu llythyrau, na gwerthu stampiau iddyn nhw, ac felly ymlaen. Gwrthododd y gweithwyr rheilffordd redeg y trenau angenrheidiol ar gyfer y milwyr. Roedd swyddogion Almaenig o bob gradd yn esgus nad oedden nhw'n ymwybodol o bresenoldeb y Ffrancwyr a'r Belgiaid. Gall y gorchymyn i gynnal streic gyffredinol fod wedi ymddangos yn wladgarol, ond achosodd hynny ganlyniadau trychinebus i economi'r Almaen ac i'r bobl.

[Rhan o adroddiad swyddogol gan fyddin Ffrainc am feddiannu'r Ruhr, dan y teitl, *A Year of Occupation: Franco-Belgian Operations in the Ruhr in 1923*, a gafodd ei gyhoeddi yn 1924]

© WJECCBAC Ltd.

**Ffynhonnell C**

Am unarddeg y bore canodd seiren. Aeth pawb allan i iard y ffatri lle'r oedd lorri bum tunnell wedi cyrraedd, yn llawn o arian papur. Dringodd y prif ariannwr a'i gynorthwywyr i ben y llwyth. Darllenon nhw enwau'r gweithwyr a thaflu allan wedyn fwndeli o bapurau. Cyn gynted ag y byddech chi'n dal un, roeddech chi'n rhuthro i'r siop agosaf ac yn prynu unrhyw beth oedd ar gael. Yn aml byddech chi'n prynu pethau nad oeddech eu hangen. Ond gyda'r pethau hynny gallech chi ddechrau cyfnewid. Byddech chi'n mynd o gwmpas a chyfnewid pâr o esgidiau am grys, neu bâr o sanau am sach o datws; rhai darnau o cytleri neu lestri er enghraifft am de neu goffi neu fenyn.

[Willy Derkow, myfyriwr yn yr Almaen yn 1923, yn dwyn i gof ei brofiadau o'r gorchwyddiant yn ei ddyddiadur ym mis Tachwedd 1923]

Gan gyfeirio at y ffynonellau a defnyddio'r hyn rydych yn ei ddeall am y cyd-destun hanesyddol, aseswch werth y tair ffynhonnell hyn i hanesydd sy'n astudio problemau economaidd Gweriniaeth Weimar. [30]

© WJECCBAC Ltd.

**CWESTIWN 2**

Astudiwch y darnau isod ac atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.

**Dehongliad 1**

Yn y tymor hirach, ychydig iawn a gyflawnodd Stresemann. Erbyn 1929, roedd ef ei hun yn siomedig bod cymaint o Gytundeb Versailles yn dal mewn grym. Y cwbl a lwyddodd i'w wneud oedd gohirio talu'r iawndaliadau a sicrhau ymadawiad cynnar milwyr y Cynghreiriaid o'r Rheindir. Roedd pris i'w dalu am yr ymadawiad hwnnw. Yn 1928, galwodd dirprwyaeth o'r Almaen i Gynghrair y Cenhedloedd am ymgiliad llawn heb rwymedigaethau. Ond cafodd hynny ei wrthod gan y Ffrancwyr. Roedden nhw'n mynnu gosod amod ar yr ymgiliad, sef bod yr Almaen yn derbyn Cynllun Young. Roedd cytuno i hynny'n ddarostyngiad i Stresemann a chafodd ei feirniadu'n ffyrnig gan y dde. Ni lwyddodd Stresemann chwaith i adolygu unrhyw un o delerau eraill y Cytundeb. Ni fu trafodaeth hyd yn oed ar y newidiadau i'r ffin ddwyreiniol. Roedd y Rheindir yn parhau i fod yn ddadfilwriedig. Roedd y fyddin wedi'i chyfyngu a'r gwaharddiad ar y llu awyr yn parhau. Arwydd o fethiant Stresemann yw bod ei ddiplomyddiaeth gymedrol wedi dymchwel ar ôl 1929.

[S. J. Lee, hanesydd academaidd, yn ysgrifennu mewn llyfr arbenigol ar hanes yr Almaen, *The Weimar Republic* (1998)]

**Dehongliad 2**

Roedd Stresemann yn ei gyflwyno'i hun fel cefnogwr i fwy o gydweithrediad yn Ewrop. Ar yr un pryd serch hynny, bu'n genedlaetholwr Almaenig ar hyd yr amser, gyda syniadau cenedlaetholgar cryf. Roedd gwleidyddion Ffrainc a Phrydain yn gwybod bod Stresemann yn drafodwr caled, yn ddigon abl i amddiffyn buddiannau ei wlad. Fe wnaeth yn eglur mai gwendid yr Almaen, yn hytrach nag agwedd heddychlon, a'i gorfododd i wneud consesiynau ynglŷn â materion fel iawndaliadau neu gael cydnabyddiaeth i ffin orllewinol yr Almaen. Cyn belled ag oedd Locarno yn y cwestiwn, roedd Stresemann yn credu y byddai'n rhwystro Prydain a Ffrainc rhag trafod sefydlu cynghrair, yn cyflymu ymgiliad milwyr y Cynghreiriaid o'r Rheindir ac yn creu awyrgylch well ar gyfer adnewyddu nerth economaidd yr Almaen. Drwy gadw ei law yn rhydd yn y Dwyrain a chynnal cysylltiad â'r Sofietiaid, gallai ddal i obeithio am newidiadau tiriogaethol.

[A. J. Nicholls, hanesydd academaidd, yn ysgrifennu mewn llyfr arbenigol ar hanes yr Almaen, *Weimar and the Rise of Hitler* (1979)]

Mae haneswyr wedi llunio dehongliadau gwahanol ynghylch Gustav Stresemann. Dadansoddwch, gwerthuswch a defnyddiwch y ddau ddarn uchod, a defnyddio'r hyn rydych chi'n ei ddeall am y ddadl hanesyddol, i ateb y cwestiwn canlynol:

Pa mor ddilys yw'r safbwynt bod Stresemann yn weinidog tramor effeithiol yn y cyfnod 1924–1929?

[30]

© WJECCBAC Ltd.

**UNED 2**

**ASTUDIAETH FANWL 8**

**YR ALMAEN: DEMOCRATIAETH AC UNBENNAETH, tua 1918–1945**

**RHAN 1: WEIMAR A’I SIALENSIAU, tua 1918–1933**

**CYNLLUN MARCIO**

**Canllaw marcio i arholwyr ar gyfer Cwestiwn 1**

## Crynodeb o’r amcanion asesu ar gyfer Cwestiwn 1

Mae Cwestiwn 1 yn asesu amcan asesu 2. Elfen unigol yw’r amcan asesu hwn sy’n canolbwyntio ar y gallu i ddadansoddi a gwerthuso deunydd ffynhonnell cyfoes yn ei gyd-destun hanesyddol. Y marc a ddyfernir i Gwestiwn 1 yw 30.

## Strwythur y cynllun marcio

Mae dwy ran i’r cynllun marcio ar gyfer Cwestiwn 1:

- cyngor ar y cwestiwn penodol yn amlinellu awgrymiadau ar gyfer cynnwys y gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd yr ymateb penodol. Nid yw’r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o’r deunydd sydd ynddo. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth dderbyniol bellach a gynigir gan ymgeiswyr.

- grid asesu sy’n rhoi cyngor ar ba fandiau a marciau y dylid eu rhoi i ymatebion sy’n dangos y nodweddion angenrheidiol ar gyfer amcan asesu 2.

## Penderfynu ar y marc i’w ddyfarnu o fewn band

Y cam cyntaf i arholwr yw penderfynu ar y band cyffredinol. Yr ail gam yw penderfynu pa mor gadarn mae’r nodweddion a ddisgwylir ar y band hwnnw yn cael eu cyfleu. Yna, yn drydydd, gellir rhoi’r marc terfynol ar gyfer y cwestiwn.

© WJECCBAC Ltd.

**AWGRYMIADAU AR GYFER CYNNWYS CWESTIWN 1**

*NODER: Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd a welir isod. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth berthnasol bellach a gynigir gan ymgeiswyr. Dylid asesu pob ateb yn ôl ei haeddiant, yn unol â'r grid asesu yn ogystal â'r awgrymiadau ar gyfer cynnwys.*

**Gan gyfeirio at y ffynonellau a defnyddio'r hyn rydych yn ei ddeall am y cyd-destun hanesyddol, aseswch werth y tair ffynhonnell hyn i hanesydd sy'n astudio problemau economaidd Gweriniaeth Weimar.**

Disgwylir i ymgeiswyr arddangos eu gallu i ddadansoddi a gwerthuso amrediad o ddeunydd ffynhonnell gyda mesur helaeth o ddidoli. Dylai'r sgiliau gwerthuso ffynonellau ganolbwyntio ar drafod cryfderau a chyfyngiadau'r ffynonellau a nodir. Ar gyfer barnu eu defnyddioldeb, dylid ystyried cynnwys ac awduraeth y ffynonellau a nodir er mwyn trafod eu dibynadwyedd, gogwydd, pwrpas a dilysrwydd, fel bo'n briodol.

Bydd ymgeiswyr yn ystyried gwerth y ffynonellau i hanesydd sy'n astudio problemau economaidd Gweriniaeth Weimar. Dylai'r ymgeisydd ddefnyddio'r hyn mae'n ei wybod am y cyd-destun hanesyddol i ddadansoddi a gwerthuso cryfderau a chyfyngiadau'r ffynonellau. Gellir gwneud sylwadau priodol wrth ddadansoddi a gwerthuso'r ffynonellau yn cynnwys:

- Cartŵn dychanol o bapur newydd adain dde cenedlaetholgar yn dilyn derbyn telerau llym Cytundeb Versailles yw Ffynhonnell A. Mae'r cartŵn yn dangos y gred yn yr Almaen y byddai'r telerau llym yn andwyo economi'r Almaen. Mae'r cartŵn yn dangos effaith telerau economaidd ardrefniant Versailles, gyda'r Almaen ar ei chefn yn cael ei gwaedu gan y fampir Ffrengig ar ffurf Clemenceau, oedd wedi mynnu gorfodi ardrefniant llym ar yr Almaen. Mae naws y ffynhonnell yn nodweddiadol o ymateb yr adain dde i ardrefniant Versailles, ac mae'n rhan o'r ymgyrch bropaganda negyddol oedd yn cael ei lansio gan yr adain dde o fewn yr Almaen. Roedden nhw'n beio Gweriniaeth Weimar am ddod â'r 'cywilydd hwn' ar yr Almaen. Mae'n ddehongliad pesimistaidd nodweddiadol o ddyfodol yr Almaen ac yn ymgais i danseilio sefydlogrwydd gwleidyddol Gweriniaeth Weimar oedd yn sefyll am y gwrthwyneb i holl syniadaeth yr adain dde. Mae'r ffynhonnell yn parhau'n dystiolaeth werthfawr i hanesydd sy'n astudio ymateb pobl yr Almaen i'r ardrefniant a ddilynodd y rhyfel.

- Mae Ffynhonnell B yn rhan o adroddiad swyddogol gan fyddin Ffrainc. Mae'r adroddiad yn adroddiad goddrychol am ymateb pobl yr Almaen i oresgyniad y Ruhr gan filwyr Ffrainc a Gwlad Belg, symudiad oedd yn cael ei ystyried gan bobl yr Almaen yn imperialaeth Ffrengig. Mae'n asesiad cytbwys o'r gwrthsafiad goddefol, a orchmynnwyd gan lywodraeth Weimar, gan ei fod yn cydnabod bod elfennau gwladgarol yn rhan o'r gwrthsafiad goddefol, ond eto'n tynnu sylw at y ffaith fod ei effeithiau yn wrthgynhyrchiol gan iddo achosi mwy o broblemau i economi'r Almaen. Am y rheswm hwnnw mae'n debygol o fod yn eithaf dibynadwy o ran ei werth i hanesydd. Mae'n sôn am bobl yr Almaen yn gwrthod cydweithredu â'r drefn. Does dim sôn ynddo am ganlyniad y gwrthsafiad goddefol ar wahân i grybwyll ei fod wedi troi trafferthion economaidd yn argyfwng. Cafodd Ffynhonnell B ei chynhyrchu flwyddyn ar ôl goresgyniad y Ruhr felly dylai fod yn adroddiad ystyriol o ganlyniadau'r gwrthsafiad goddefol ond nid felly ar gyfer deall yr effaith ar broblemau economaidd yr Almaen.

© WJECCBAC Ltd.

- Adroddiad personol yw Ffynhonnell C o ddyddiadur myfyriwr ifanc o'r Almaen, yn ymwneud ag effeithiau gorchwyddiant. Mae'n dangos y realiti o weithwyr yn cael eu talu ar adegau gwahanol o'r dydd a sut y datblygodd cymdeithas gyfnewid yn yr Almaen. Mae'n dangos bod gwerth yr arian yn gostwng bob dydd gyda phrisiau'n codi ac argraffu arian yn cynyddu. Digwyddodd hynny yn yr un flwyddyn â goresgyniad y Ruhr yn Ffynhonnell B ac mae'n cadarnhau bod y trafferthion economaidd wedi troi yn wir yn argyfwng economaidd. Yn Ffynhonnell C, gall fod awgrym yn ei arddull bod y myfyriwr yn wir wedi'i ddychryn gan effeithiau gorchwyddiant ond does dim sôn gwirioneddol am unrhyw feirniadaeth o'r llywodraeth na'r datblygiadau economaidd a arweiniodd at orchwyddiant. Er ei fod yn crybwyll fod safon byw y gweithwyr wedi cwympo, mae'r myfyriwr yn dweud hefyd nad oedd wedi dymchwel gan fod y gweithwyr wedi dod o hyd i ffordd o ddelio â'r sefyllfa drwy gyfnewid pethau.

Yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn asesu gwerth y ffynonellau i hanesydd sy'n astudio problemau economaidd Gweriniaeth Weimar ar y pryd. Byddant yn gallu dangos y gwerth hwnnw drwy ystyried cynnwys, tarddiad a thôn y ffynonellau a gyflwynwyd, gan gyfeirio'n briodol at y cyd-destun hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r ffynonellau.

© WJECCBAC Ltd.

**GRID ASESU AR GYFER CWESTIWN 1**

*Targed: AA2* *Marc uchaf: 30*

*Ffocws:* *Dadansoddi a gwerthuso deunydd ffynhonnell priodol, cynradd a/neu cyfoes, o fewn ei gyd-destun hanesyddol*

| Band | Marc | Disgrifydd |
|---|---|---|
| 6 | 26-30 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad cyson a chywir o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *darparu ffocws cyson ar werthuso'r ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn gyson ynghylch gwerth y ffynonellau ar gyfer yr ymholiad penodol* |
| 5 | 21-25 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos ffocws amlwg a chywir ar y dadansoddiad a'r gwerthusiad o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *darparu ffocws clir ar y cyfan ar werthuso'r ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn ddilys ynghylch gwerth y ffynonellau ar gyfer yr ymholiad penodol* |
| 4 | 16-20 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad dilys o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *gosod y ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn glir ynghylch gwerth y ffynonellau ar gyfer yr ymholiad penodol* |
| 3 | 11-15 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos peth dadansoddiad a gwerthusiad priodol o gynnwys ac awduraeth y deunydd ffynhonnell*<br>• *gwneud ymgais i osod y ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *cynnig barn gyfyngedig ynghylch gwerth dwy o leiaf o'r ffynonellau* |
| 2 | 6-10 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *deall a thynnu allan wybodaeth o'r ffynonellau gyda pheth cyfeiriad at awduraeth y deunydd a ddarparwyd*<br>• *gwneud ymgais gyfyngedig i osod y ffynonellau yng nghyd-destun yr ymholiad*<br>• *cynnig barn gyfyngedig ynghylch gwerth un o leiaf o'r ffynonellau* |
| 1 | 1-5 | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *deall a thynnu allan beth o'r deunydd ffynhonnell* |
| **Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol** | | |

© WJECCBAC Ltd.

## Canllaw marcio i arholwyr ar gyfer Cwestiwn 2

### Crynodeb o'r amcanion asesu ar gyfer Cwestiwn 2

Mae Cwestiwn 2 yn asesu amcan asesu 3. Elfen unigol yw'r amcan asesu hwn sy'n canolbwyntio ar y gallu i ddadansoddi a gwerthuso sut a pham y cafodd dehongliadau hanesyddol gwahanol eu gwneud. Y marc a ddyfernir i Gwestiwn 2 yw 30.

### Strwythur y cynllun marcio

Mae dwy ran i'r cynllun marcio ar gyfer Cwestiwn 2:

- cyngor ar y cwestiwn penodol yn amlinellu awgrymiadau ar gyfer cynnwys y gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd yr ymateb penodol. Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd sydd ynddo. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth dderbyniol bellach a gynigir gan ymgeiswyr.

- grid asesu sy'n rhoi cyngor ar ba fandiau a marciau y dylid eu rhoi i ymatebion sy'n dangos y nodweddion angenrheidiol ar gyfer amcan asesu 3.

### Penderfynu ar y marc i'w ddyfarnu o fewn band

Y cam cyntaf i arholwr yw penderfynu ar y band cyffredinol. Yr ail gam yw penderfynu pa mor gadarn mae'r nodweddion a ddisgwylir ar y band hwnnw yn cael eu cyfleu. Yna, yn drydydd, gellir rhoi'r marc terfynol ar gyfer y cwestiwn.

© WJECCBAC Ltd.

**AWGRYMIADAU AR GYFER CYNNWYS CWESTIWN 2**

*NODER: Nid yw'r cynnwys hwn yn rhagnodol ac ni ddisgwylir i ymgeiswyr sôn am y cwbl o'r deunydd a welir isod. Dylai aseswyr geisio rhoi marciau am unrhyw dystiolaeth berthnasol bellach a gynigir gan ymgeiswyr. Dylid asesu pob ateb yn ôl ei haeddiant, yn unol â'r grid asesu yn ogystal â'r awgrymiadau ar gyfer cynnwys.*

## Pa mor ddilys yw'r safbwynt bod Stresemann yn weinidog tramor effeithiol yn y cyfnod 1924–1929?

Disgwylir i ymgeiswyr arddangos dealltwriaeth o'r ffordd y cafodd agweddau ar y gorffennol eu dehongli mewn ffyrdd gwahanol. Bydd yr atebion yn ystyried y deunydd a ddarparwyd ynghyd â'r hyn y mae'r ymgeisydd yn ei ddeall am y cyd-destun hanesyddol a'r ddadl hanesyddol ehangach wrth lunio barn am ddilysrwydd y safbwynt bod Stresemann yn weinidog tramor effeithiol yn y cyfnod 1924–1929.

Gwahoddir ymgeiswyr i gymryd ran mewn dadl a oedd Stresemann yn weinidog tramor effeithiol yn y cyfnod 1924–1929. Bydd y dysgwyr yn ystyried dehongliadau o'r mater hwn o fewn y ddadl hanesyddol ehangach am effeithiolrwydd Stresemann fel gweinidog tramor. Gall rhai o'r materion i'w hystyried gynnwys:

- Mae Dehongliad 1 yn dadlau mai ychydig iawn a gyflawnodd Stresemann ar wahân i ohirio talu'r iawndaliadau a'r ymgiliad cynnar o'r Rheindir. Roedd pris i'w dalu am hynny hyd yn oed, sy'n awgrymu nad oedd yn drafodwr effeithiol.
- Wrth ddadansoddi a gwerthuso Dehongliad 1 gall yr atebion gytuno â Lee nad oedd Stresemann yn y tymor byr o bosibl wedi llwyddo i gyflawni'r hyn oedd wedi'i fwriadu. Mae Lee yn dadlau bod diplomyddiaeth gymedrol Stresemann wedi dymchwel ar ôl 1929. Golwg adolygiadol ar Stresemann yw hyn, gŵr sy'n cael ei ystyried fel rheol yn rym cadarnhaol o blaid buddiannau'r Almaen. Er gwaethaf natur arbenigol y cyhoeddiad, mae hwn yn ymddangos yn ddarlun eithaf syml o Stresemann gan nad yw'n cymryd i ystyriaeth y cyfyngiadau oedd yn effeithio ar ei ymdrechion.
- Mae Dehongliad 2 yn dadlau bod Stresemann yn drafodwr caled oedd yn gwneud ei orau i sicrhau buddiannau'r Almaen. Roedd Stresemann wedi gwneud consesiynau er mwyn sicrhau ei nod tymor hir o rwystro sefydlu cynghrair rhwng Prydain a Ffrainc, felly mae Stresemann yn ymddangos yn bragmatydd.
- Wrth ddadansoddi a gwerthuso Dehongliad 2 mae'n ymddangos bod yr hanesydd hwn yn argyhoeddedig fod Stresemann yn weinidog tramor effeithiol, oedd yn gwneud ei orau dros safle'r Almaen yn Ewrop. Mae awdur y dehongliad, hanesydd academaidd ac arbenigwr ar hanes yr Almaen, yn rhoi sylw i'r ffaith gan fod yr Almaen mor wan bod hynny'n golygu mai dewisiadau cyfyngedig oedd gan Stresemann. Gwendid yr Almaen a wnaeth iddo ganiatáu consesiynau oedd yn mynd yn groes i'w safbwyntiau cenedlaetholgar cryf. Dyma safbwynt sy'n dadlau bod Stresemann yn ystyried cymodi dramor fel llwyfan angenrheidiol ar gyfer sefydlu economi gynaliadwy gartref. Roedd cyflawni hynny yn ateb cymedrol i broblemau'r Almaen. Mae hyn yn ymddangos yn farn gytbwys am ei rôl fel gweinidog tramor.
- Gall ymgeiswyr ddangos ymwybyddiaeth o'r ddadl hanesyddol ehangach ynglŷn â'r mater hwn. Yn enwedig, dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol o ddehongliadau eraill, megis y safbwynt fod Stresemann yn Almaenwr da ac yn ddinesydd Ewropeaidd da, ac felly ei fod yn weinidog tramor effeithiol.

Bydd ymgeiswyr yn gyffredinol yn dadansoddi'r ddau ddehongliad gan ddefnyddio'r hyn maen nhw'n ei ddeall am y ddadl ynglŷn â'r mater hwn, yn cynnig gwerthuso dilysrwydd y dehongliadau a roddwyd a rhoi barn ar y mater yn y cwestiwn bod Stresemann yn weinidog tramor effeithiol yn y cyfnod 1924–1929.

© WJECCBAC Ltd.

**GRID ASESU AR GYFER CWESTIWN 2**

*Targed: AA3* *Marc uchaf: 30*

*Ffocws:* *Mewn perthynas â'r cyd-destun hanesyddol, dadansoddi a gwerthuso'r ffyrdd gwahanol y cafodd agweddau ar y gorffennol eu dehongli*

| Band | Marc | Disgrifydd |
|---|---|---|
| **6** | **26-30** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad cyson o'r deunydd a roddwyd ac yn ei ddefnyddio'n effeithiol i drafod sut a pham y cafodd dehongliadau gwahanol eu ffurfio*<br>• *darparu ffocws cyson ar werthuso'r dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *arddangos ymwybyddiaeth glir o ddehongliadau gwahanol o'r mater a osodwyd* |
| **5** | **21-25** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos ffocws clir a chywir yn y dadansoddiad a'r gwerthusiad o'r deunydd a roddwyd i ddangos sut a pham y cafodd dehongliadau gwahanol eu ffurfio*<br>• *darparu ffocws clir ar y cyfan ar werthuso'r dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *dangos sut y cafodd y mater ei ddehongli mewn ffyrdd gwahanol* |
| **4** | **16-20** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos dadansoddiad a gwerthusiad dilys o'r deunydd a roddwyd i nodi dehongliadau gwahanol*<br>• *gosod y ddau ddehongliad yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *dangos ymwybyddiaeth o ddehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **3** | **11-15** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *arddangos rhai sylwadau priodol mewn perthynas â'r dadansoddiad a'r gwerthusiad o'r deunydd a roddwyd i nodi dehongliadau gwahanol*<br>• *gwneud ymgais i osod y dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad penodol*<br>• *dangos peth ymwybyddiaeth o ddehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **2** | **6-10** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *deall peth o'r deunydd a roddwyd gan ddangos dadansoddiad cyfyngedig yn unig*<br>• *gwneud ymgais gyfyngedig i osod y dehongliadau yng nghyd-destun yr ymholiad*<br>• *dangos peth ymwybyddiaeth o'r dehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **1** | **1-5** | **Ar gyfer y band hwn yn gyffredinol, bydd ymgeiswyr yn:**<br>• *tynnu gwybodaeth o'r deunydd a roddwyd*<br>• *cynnwys cyfeiriad gwan at ddehongliadau gwahanol o'r mater* |
| **Dylid dyfarnu 0 am atebion anghywir neu amherthnasol** | | |

© WJECCBAC Ltd.

**GRID ASESU AR GYFER UNED 2**

Bydd ymgeiswyr yn ateb y ddau gwestiwn ar y papur.

| **Cwestiwn** | **AA1** | **AA2** | **AA3** |
|---|---|---|---|
| **1** | | 30 | |
| **2** | | | 30 |
| **%** | | 50% | 50% |
| **Cyfanswm** | 60 marc | pwysoli o 20% o'r marc uchaf ar gyfer y cymhwyster | |



© WJECCBAC Ltd.